



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015/16



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cynnwys

Croeso	3
Adroddiad Perfformiad	4
Trosolwg.....	4
Dadansoddiad o Berfformiad.....	8
Adroddiad Atebolrwydd.....	16
Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol.....	16
Adroddiad y Cyfarwyddwr	16
Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu	21
Datganiad Llywodraethu	22
Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff (archwiliedig).....	31
Adroddiad Seneddol ac Archwilio (archwiliedig).....	40
Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ..	41
Datganiadau Ariannol	48
Atodiad 1 Adroddiad Amgylcheddol Corfforaethol	82

Croeso

Mae'n bleser mawr cael cyflwyno Adroddiad Blynyddol Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) 2015/16. Dyma'r Adroddiad Blynyddol cyntaf ers i mi gael fy mhenodi yn Rhagfyr 2015. Rwy'n falch fy mod wedi cael y cyfle i Gadeirio Bwrdd y sefydliad unigryw, dynamig hwn. Rydym yn falch i arwain y ffordd at well dyfodol i Gymru, trwy reoli'r amgylchedd ac adnoddau naturiol yn gynaliadwy, ac i atgyfnerthu ein gweledigaeth. Mae'r cynnydd a wnaed gan CNC, fel sefydliad ifanc iawn, yn rhoi cryn dipyn o hyder i fi a'r Bwrdd yn ein hagenda amgylcheddol uchelgeisiol i'r dyfodol.

Mae llawer o'r pethau yr ydym yn dibynnu arnynt i ffynnu fel cenedl yn deillio o'n hamgylchedd a'r adnoddau naturiol o'n cwmpas: y dŵr rydym yn ei yfed, yr aer rydym yn ei anadlu, yr amgylchedd naturiol lle rydym yn byw ac yn gweithio. Mae amgylchedd iach a chadarn yn helpu i gynnal pobl a'n heconomi, yn helpu i adeiladu sylfaen cadarn lle gall ein cymdeithas ffynnu. Mae'r adroddiad hwn yn nodi sut mae ein gwaith yn 2015/16 wedi cyfrannu at Gymru lwyddiannus, ffyniannus, yn seiliedig ar adnoddau naturiol iach.

Rydym wedi ymrwmo i adeiladu ar y gwaith hwn er mwyn cael dyfodol cadarnach, er gwaethaf unrhyw ansicrwydd. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) gyda'i gilydd yn rhoi'r fframwaith i ni ddefnyddio ein hadnoddau'n gyfunol ar gyfer sicrhau'r canlyniadau gorau posibl. Mae defnyddio'r ddeddfwriaeth newydd hon i gydweithio gyda'n partneriaid yn sectorau cyhoeddus, preifat, cymunedol a gwirfoddol yn rhoi cyfle cyffrous i ni sicrhau bod pobl Cymru yn elwa nawr ac yn y dyfodol, o amgylchedd mwy cynaliadwy a ffyniannus.

Yn ffurfiol a diffuant hoffwn ddiolch i'r holl bobl sydd wedi gweithio'n ddiflino dros y flwyddyn ddiwethaf i ddarparu'r cyflawniadau sylweddol yn yr adroddiad hwn. Gwnaeth fy rhagflaenydd, yr Athro Peter Matthews CBE, gyda'i egni a'i ymrwymiad diflino yng nghyfnod sefydlu ein sefydliad, gyfraniad anhygoel i Gymru y dylai fod yn falch iawn ohono. Hefyd i'r aelodau Bwrdd gwreiddiol y daeth eu tymor i ben yn ystod y flwyddyn: Athro Lynda Warren, Harry Legge-Bourke a'r Parch. Hywel Davies. Mae Dr Emyr Roberts, ein Prif Weithredwr yn haeddu diolch arbennig am hwyluso'r ffordd drwy nifer o sialensiau a wynebodd y sefydliad yn ystod y flwyddyn. Ac, wrth gwrs, pob un o'n staff ymroddgar sef ein hadnodd mwyaf gwerthfawr sy'n dod â'u harbenigedd proffesiynol ac sy'n benderfynol o chwarae rôl allweddol bwysig wrth hyrwyddo'r amgylchedd. Mae'r adroddiad yn rhoi syniad o'r cynnydd eithriadol a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf, gan arddangos nerth, blaengaredd ac ymrwymiad yr holl bobl sydd wedi gweithio'n galed i'n helpu ar ein siwrnai.

Yn y flwyddyn i ddod, ynghyd â fy nghyd-aelodau ar y Bwrdd, edrychaf ymlaen at weithio gyda'r Prif Weithredwr, ei Dîm Gweithredol a'n holl staff, i arwain y ffordd at ddyfodol gwell i Gymru drwy reoli'r amgylchedd ac adnoddau naturiol yn gynaliadwy - yn cyflawni ein gweledigaeth yn effeithiol ac yn frwdfrydig.

Diane McCrea MBE
Cadeirydd



Adroddiad Perfformiad

Trosolwg

Llynedd, disgrifiais ein sefyllfa fel un heriol ond llwyddiannus, a dyma ddisgrifiad addas hefyd ar gyfer ein sefyllfa yn 2015/16. Yn erbyn cefndir o ostyngiad mewn arian a nifer y staff, rydym wedi parhau ar ein taith i integreiddio gwaith y tri sefydliad etifeddol, ac i reoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy. Rydym wedi sicrhau perfformiad credadwy, sydd wedi helpu i sefydlu CNC fel sefydliad sy'n gweithio dros amgylchedd, economi a phobl Cymru. Mae cynnydd o'r fath dros y 12 mis diwethaf yn rhoi hyder i ni y gallwn wireddu ein huchelgeisiau i'r dyfodol.

Mae heriau wedi dod ar ffurf paratoi ar gyfer ein dyletswyddau newydd dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'n pwrpas newydd dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru); yn ogystal â phwysau ariannol difrifol sydd wedi ein gorfodi i fod yn glir ynghylch blaenoriaethau a'r ffordd rydym yn defnyddio ein harian. Yn nhermau canlyniadau amgylcheddol, nid yw ansawdd dŵr cyffredinol wedi cyrraedd y statws ecolegol da yr oeddem yn gobeithio ei weld erbyn hyn, tra bod bioamrywiaeth yn parhau'n fregus mewn sawl ardal.

Dr Emyr Roberts
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

Mae ein llwyddiannau yn cynnwys y gwaith rhagorol i sicrhau bod llawer o garbon yn cael ei storio ym mawndiroedd Cymru, dyfroedd ymdrochi glanach a'n hymdrechion i gyfyngu lledaeniad *P. Ramorum* drwy ein fforestydd. Rydym wedi dysgu llawer iawn ynghylch anghenion cymunedau lleol o'n 'treialon ardal', mae ein gwasanaeth i gwsmeriaid fel y'i mesurir gan amseroldeb o ran ymateb i geisiadau cynllunio yn parhau i wella, rydym wedi ymateb yn dda i dywydd y gaeaf, ac rydym wedi cyflawni ein targedau ar gyfer marchnata pren. Rydym yn cyhoeddi mwy o'n data ar-lein, fel gwybodaeth ar lefelau afonydd, sy'n helpu ein rhanddeiliaid i wneud penderfyniadau. Roeddwn hefyd yn falch o dderbyn Cymeradwyaeth Weinidogol ffurfiol ein bod wedi cwblhau ein cyfnod prawf fel Corff newydd dan Nawdd Llywodraeth Cymru.

Fel o'r blaen, mae gennym lawer mwy i'w wneud a meysydd i'w gwella. Rydym yn awyddus i ddysgu a gwrando ar adborth ein staff a'n cwsmeriaid. Gobeithio y bydd yr Adroddiad Blynyddol hwn yn rhoi blas i chi o'r daith rydym arni.



Cyflwyniad

Rydym yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, sy'n gyfrifol am sicrhau bod *amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio'n gynaliadwy, nawr ac yn y dyfodol*. Cymru yw'r wlad gyntaf yn y byd i greu un sefydliad sy'n dwyn ynghyd lawer o'r adnoddau sydd eu hangen i helpu i reoli ein hadnoddau naturiol mewn modd cydlynol. Gallwn gyflawni llawer mwy drwy gysylltu ein gwybodaeth a'n gwasanaethau fel eu bod yn cydweithio er mwyn cyflawni canlyniadau cynaliadwy. Mae ein llwyddiant yn dibynnu ar sut rydym yn cydweithio, gan fyw ein gwerthoedd er mwyn creu Cymru well.

Er bod ein hamgylchedd yn werth £8 biliwn i economi Cymru, credwn fod potensial i gynnig llawer mwy i bobl, cymunedau ac amgylchedd Cymru. Gallwn addasu i anghenion newidiol cymdeithas yn gyflym – gan ddarparu gwasanaethau gwell, gwneud penderfyniadau mwy hyddysg a ffurfio partneriaethau cryf.

Mae ein themâu wedi'u hintegreiddio, sy'n dangos manteision lluosog ein gwaith i amgylchedd, economi a chymunedau Cymru. Maent hefyd yn helpu i gyflawni'r canlyniadau canlynol rydym yn eu rhannu â Llywodraeth Cymru.

- Gwella ein hamgylchedd
- Diogelu pobl
- Cefnogi mentrau a swyddi
- Gwella iechyd y genedl
- Lleoedd hyfyw a bywiog
- Sicrhau cyfiawnder cymdeithasol
- Cefnogi sgiliau a gwybodaeth

Mae gennym ystod eang o rolau a chyfrifoldebau:

- Cynghorydd: prif gynghorydd Llywodraeth Cymru a chynghorydd i ddiwydiant a'r sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol ehangach, a chyfathrebwr ynghylch materion sy'n ymwneud â'r amgylchedd a'i adnoddau naturiol
- Rheoleiddiwr: yn gwarchod pobl a'r amgylchedd gan gynnwys diwydiannau morol, coedwigaeth a gwastraff ac yn erlyn y rhai sy'n torri'r rheoliadau rydym yn gyfrifol amdanynt
- Dynodwr: o ran Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig – ardaloedd o werth penodol oherwydd eu bywyd gwyllt neu eu daeareg, Ardaloedd o Harddwch Naturiol
- Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol, yn ogystal â datgan Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol
- Ymatebwr: i tua 9,000 o ddigwyddiadau amgylcheddol y rhoddir gwybod amdanynt bob blwyddyn fel ymatebwr brys Categori 1
- Ymgynghorai statudol: o ran tua 9,000 o geisiadau cynllunio y flwyddyn
- Rheolwr/Gweithredwr: yn rheoli saith y cant o arwynebedd tir Cymru gan gynnwys coetiroedd, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, amddiffynfeydd dŵr a llifogydd ac yn rhedeg ein canolfannau ymwelwyr, ein cyfleusterau hamdden a labordy
- Partner, Addysgwr a Galluogwr: cydweithredwr allweddol â'r cyhoedd, y sector preifat a'r sector gwirfoddol, yn rhoi cymorth grant ac yn helpu ystod eang o bobl i ddefnyddio'r amgylchedd yn adnodd dysgu; yn sbarduno gwaith eraill
- Casglwr tystiolaeth: yn monitro ein hamgylchedd, yn comisiynu ac yn cyflawni ymchwil, yn datblygu ein gwybodaeth ac yn gweithredu'n gorff cofnodion cyhoeddus
- Cyflogwr: i dros 1,900 o staff, yn ogystal â chefnogi cyflogaeth arall drwy waith contract a chyfleoedd gwirfoddoli.

Ein gwerthoedd:

- Bod yn frwdfrydig ac yn uchelgeisiol am ein gwaith a'r effaith gadarnhaol a gawn
- Dangos disgyblaeth a ffocws wrth i ni flaenoriaethu a chyflawni
- Ennyn ymddiriedaeth a bod yn broffesiynol yn ein cydberthnasau â rhanddeiliaid, staff a'u cynrychiolwyr
- Defnyddio synnwyr cyffredin yn ein gwaith a bod yn gyfrifol ac yn atebol am ein gweithredoedd.

Crynodeb o Berfformiad

Rydym yn parhau i fod yn sefydliad ifanc ond un sydd â phwrpas clir a phenderfyniad i lwyddo. Wrth symud i'n drydedd flwyddyn, ac ail flwyddyn ein Cynllun Corfforaethol cyfredol, roedd ein huchelgais yn glir, ond fel nifer o sefydliadau sector cyhoeddus eraill, roeddem yn wynebu heriau ariannol parhaus a'r angen i flaenoriaethu ein hadnoddau a chanfod ffyrdd newydd ac arloesol o gyflenwi gwasanaethau mor effeithlon â phosibl.

Mae ein ffocws yn y ddwy flynedd gyntaf wedi bod ar adeiladu seiliau ein gallu i weithredu'n annibynnol a pharatoi ein sefydliad i gyflenwi'n llawn y gwaith o reoli ein hadnoddau naturiol yng Nghymru yn gynaliadwy – yn y flwyddyn ddiwethaf, dechreuodd ein sefydliad symud i'r cyfnod trawsnewidiol i 'ddatgloi ein potensial' a dod yn sefydliad uchel ei berfformiad.

Rydym wedi parhau i adolygu ein gwasanaethau i sicrhau'r canlyniadau amgylcheddol yr ydym yn dymuno eu cyflawni, ac wedi gweithio i sicrhau bod effeithlonrwydd a gwella gofal i gwsmeriaid yn digwydd gyda'i gilydd. Mae ein ffocws wedi bod ar ddatblygu'r gwaith o reoli adnoddau naturiol, gwella'r ystod o wasanaethau i gwsmeriaid a phartneriaid, a chefnogi Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu deddfwriaeth a pholisi newydd i ymdrin â thwf gwyrdd, i fynd i'r afael â thlodi, i ddefnyddio adnoddau'n effeithlon ac i wella cadernid ac amrywiaeth.

Wrth edrych ymlaen, bydd y flwyddyn nesaf yn un o newid a her sylweddol i ni, fel ag y bydd i'n hamgylchedd a chyrrff cyhoeddus eraill yng Nghymru – ac rydyn yn barod i wynebu'r her. Mae'r cyd-destun deddfwriaethol a'r cyd-destun ariannol yr ydym yn gweithio o'u mewn yn golygu bod yn rhaid i ni fod yn weddnewidiol – gan flaenoriaethu ymdrech fel y gallwn wneud y cyfraniad mwyaf, magu cydberthnasau newydd gyda phartneriaid a chymunedau, a mynd i'r afael â'r materion sylfaenol a fydd yn cynyddu cadernid ein systemau naturiol ac felly'n gwella'r gwasanaeth y maent yn ei ddarparu i gymdeithas.

Rydym yn gweld, a byddwn yn gweld, newidiadau arwyddocaol yn amgylchedd Cymru - yn nhermau newid yn yr hinsawdd, poblogaeth a'r economi, yn ogystal ag arian cyhoeddus a deddfwriaeth newydd. Bydd yr holl ffactorau hyn yn cael effaith fawr ar ein sefydliad a bydd yn rhaid i ni newid yn sylfaenol y ffordd yr ydym yn gweithio yn y dyfodol. Rydym eisiau bod yn hyderus ac uchelgeisiol - ynghylch sut allwn ni yng Nghymru sicrhau ein bod yn rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy ac ynghylch sut y gallwn newid fel sefydliad i sicrhau fod hyn yn gallu digwydd.

Bydd rhai enghreifftiau o'n cyd-destun newidiol yn ein gweld yn gweithio i weithredu gofynion deddfwriaeth newydd, yn enwedig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Deddf Gynllunio (Cymru) 2015 a'r Ddeddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru); mynd i'r afael â heriau amgylcheddol fel ansawdd dŵr, bioamrywiaeth, rhywogaethau ymledol, ansawdd yr aer a newid yn yr hinsawdd yn ogystal â rheoli ein gweithrediadau ein hunain i sicrhau ein bod yn gweithio o fewn ein gallu ac yn gweithio gyda'n rhanddeiliaid – Llywodraeth Cymru, sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus eraill, busnes a diwydiant, dinasyddion a chymunedau i ddatblygu modelau cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus gwahanol.

Dadansoddiad o Berfformiad

Fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, ein prif rôl yw cyflawni ein cyfrifoldebau statudol a'r nodau a roddwyd i ni gan Weinidogion Cymru. Pennir ein hamcanion ar sail canlyniadau hirdymor a Llythyr Cylch Gwaith blynyddol er mwyn nodi meysydd o'n gwaith y mae angen canolbwyntio'n benodol arnynt. Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn rydym yn llunio cynllun corfforaethol tymor hwy, a ategir gan gynllun busnes blynyddol a fframwaith perfformiad. Mae'r holl wybodaeth hon ar gael ar ein gwefan yn <http://naturalresources.wales/about-us/strategies-and-plans?lang=cy>

Hwn yw ein hail adroddiad yn erbyn ein Cynllun Corfforaethol 2014 – 2017 ac rydym wedi defnyddio ei bum thema, sef: Gwybodaeth Dda; Amgylchedd Da; Yn Dda i Bobl; Yn Dda i Fusnes a Sefydliad Da er mwyn llunio ein Cynllun Busnes ar gyfer 2015/16, y Fframwaith Perfformiad a'r Adroddiad Perfformiad hwn. Fel rhan o'n Fframwaith Perfformiad, mae ein dangosfwrdd yn olrhain tueddiadau mwy tymor hir drwy *ddangosyddion* y mae ein gwaith yn cyfrannu atynt, yn ogystal â *mesurau* gweithredol blynyddol yr ydym yn rheoli eu gweithrediad. Eleni, o 41 o ddangosyddion a mesurau, llwyddodd 28 i gyflawni'r targed a osodwyd, roedd naw o fewn 10% o'r targed a osodwyd, ac nid oedd pedwar yn agos at y lle yr oeddem wedi cynllunio iddynt fod. Caiff ein cynnydd ei fonitro gan ein Bwrdd a Llywodraeth Cymru a'i gyhoeddi ar ein gwefan deirgwaith y flwyddyn. Nodir y canlyniadau perfformiad terfynol ar gyfer 2015/16 ar ein gwefan yn <http://naturalresources.wales/about-us/strategies-and-plans/how-well-are-we-doing/?lang=cy>. Mae adrannau nesaf yr adroddiad hwn yn amlinellu enghreifftiau o'r canlyniadau a gyflawnwyd yn unol â'n hamcanion yn ogystal ag ychydig o'n gwybodaeth perfformiad allweddol.

Gwybodaeth Dda: rydym am fagu doethineb a dealltwriaeth o'n hadnoddau naturiol a sut rydym ni'n effeithio arnynt – gan ddefnyddio tystiolaeth a chymhwyso'r hyn sy'n cael ei ddysgu drwy brofiad, fel ein bod yn gwneud penderfyniadau da

Mae ein rôl yn cynnwys casglu tystiolaeth a chynnig cyngor ar faterion amgylcheddol er mwyn llywio penderfyniadau eraill yn ogystal â'n penderfyniadau ein hunain.

Gwybodaeth Allweddol

- Pob un o'r 102 o Ddyfroedd Ymdrochi yng Nghymru yn pasio Safonau UE newydd anodd yn 2015
- 96 o setiau data ar gael ar-lein
- 11 o brosiectau partneriaeth wedi'u hariannu i reoli adnoddau naturiol yn cael eu datblygu

Mae dyfroedd ymdrochi glân yn bwysig i'r economi yn ein cymunedau arfordirol ac i'r bywyd gwyllt yn ein moroedd. Yn 2015 llwyddodd pob un o ddyfroedd ymdrochi Cymru i gyflawni dosbarthiadau Ewropeaidd newydd, mwy llym ar gyfer ansawdd y dŵr, sef mesur allweddol sy'n helpu sicrhau bod gwyliau ar lan y môr neu ddiwrnod ar y traeth yn parhau i fod yn un o'r gweithgareddau mwyaf poblogaidd i lawer o deuluoedd. Mae canlyniadau ein rhaglen fonitro yn dangos bod 82 o'r 102 o ddyfroedd ymdrochi yng Nghymru wedi cyflawni'r dosbarthiad uchaf o rhagorol, gyda 16 yn dda a phedwar yn ddigonol. Ni ddosbarthwyd unrhyw ddyfroedd ymdrochi yng Nghymru fel gwael yn ystod blwyddyn gyntaf y safonau newydd anodd hyn. Yr her bellach fydd cynnal y safon hon, gweithio gydag eraill i warchod a gwella ein hadnoddau naturiol fel bod ein glannau a'r amgylchedd naturiol yn parhau i roi buddiannau sylweddol i bobl Cymru a'n hymwelwyr.

Yn unol â'n hymrwymiad i fod yn sefydliad proffesiynol y gellir ymddiried ynddo, rydym eisiau i'n cwsmeriaid allu cael gafael ar ein data yn gyflym, yn rhwydd, a lle bo hynny'n bosibl, ei ail-ddefnyddio ar gyfer dibenion personol, ymchwil neu fasnachol. Gyda hyn mewn golwg, rydym wedi symud yn llwyr at ddefnyddio Hwb Gwybodaeth Llywodraeth Cymru (Lle), gwasanaeth cyhoeddi data sengl sy'n ein galluogi i gyhoeddi ein data mewn un lle. Erbyn hyn, mae 96 o setiau data agored ar gael ar gyfer eu hail-ddefnyddio'n allanol, i fyny o 78 yn 2013, gan gynnwys Rhestr Coetiroedd Hynafol, Mapiau Llifogydd a Data Rhywogaethau Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol. Bydd ein polisi data agored newydd yn gweld hyn yn cynyddu yn y dyfodol.

Cyhoeddwyd ein canllaw newydd, '[Cyflwyno Rheoli Cynaliadwy ar Adnoddau Naturiol](#)' eleni i amlinellu'r heriau a'r cyfleoedd a ddaw yn sgil y dull newydd hwn o reoli ein hadnoddau yng Nghymru yn ogystal â'r egwyddorion y dylen ni, ac eraill, eu dilyn wrth fynd i'r afael â nhw. Er mwyn dangos beth mae hyn yn ei olygu'n ymarferol, defnyddiwyd ein hastudiaethau achos o'n tair ardal dreialu yn nalgylchoedd Afonydd Dyfi, Tawe a Rhondda. Mae'r uchafbwyntiau yn cynnwys gweithio gyda'r ymddiriedolaeth bywyd gwyllt lleol i sefydlu gwarchodfa natur gyntaf y Rhondda mewn 20 mlynedd, a gwaith gyda nifer o bartneriaid ar ymdrin â thanau gwyllt. Yn Abertawe, rydym wedi ceisio gwella mynediad i ochr ddwyreiniol y ddinas trwy ddefnyddio ein rolau a chyfrifoldebau gwahanol i gysylltu cyfleoedd fforest, gwarchodfa natur ac afonydd.

Mae gwaith hefyd yn parhau i gynhyrchu Adroddiad Cyntaf Cymru ar Gyflwr Adnoddau Naturiol, a bydd yn cael ei gwblhau ym Medi 2016. Mae gweithio gyda'r byd academiaidd i gaffael gwybodaeth berthnasol a Llywodraeth Cymru a phartneriaid i gynllunio anghenion i'r dyfodol yn seiliedig ar dystiolaeth yn helpu i sicrhau y bydd y darn pwysig hwn o waith yn llywio Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru bob pum mlynedd.

Amgylchedd Da: rydym am sicrhau bod ecosystemau yn gryf a diogel ar gyfer y dyfodol, bod bywyd gwyllt a thirweddau yn cael eu gwella, a bod y defnydd a wneir o'n hadnoddau naturiol yn cael ei reoli'n ofalus

Mae ein rolau gweithredu, rheoleiddio a dynodi yn cyfrannu at y gwaith o reoli'r tir â'r dŵr rydym yn gyfrifol amdanynt mewn modd cynaliadwy, gwarchod a gwella'r amgylchedd yng Nghymru, atal achosion o golli bioamrywiaeth a gwneud Cymru yn gryfach i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd.

Gwybodaeth Allweddol

- 1,000 hectar o goed llarwydd wedi'u heintio wedi'u clirio
- 82% o weithredoedd wedi'u cwblhau i wella cyflwr safleoedd dynodedig
- 39% o gyrff dŵr ledled Cymru wedi cyflawni statws cyffredinol da

Mae ein hamgylchedd ar hyn o bryd yn wynebu sawl nifer o heriau a gofynion ar ei adnoddau. Rydym yn dal i fod yn brin o darged 2015 o 50% o gyrff dŵr yn cyflawni statws ecolegol da (39%), tra bod ansawdd ein moroedd, tir ac afonydd yn parhau'n anffafriol yn erbyn y targed 95% yn Strategaeth Amgylchedd Cymru. Rydym yn gwybod na fydd ein gwaith ni yn unig yn ddigon i sicrhau'r gwelliannau sydd eu hangen. Fel rhan o Gynllun Adfer Natur Cymru, rydym wedi cyflawni ein targed penodol ar gyfer lansio a chwblhau

gweithrediadau o ran adfer cyflwr ffafriol safleoedd gwarchodedig ac rydym wedi gwneud nifer o welliannau i helpu ysgogi'r newidiadau sydd eu hangen ar amgylchedd Cymru.

Yn y misoedd diwethaf, rydym wedi gweld peth oedi wrth adolygu tystiolaeth i gefnogi ein hadroddiad cyntaf ar Gyflwr Adnoddau Naturiol. Bydd yr adroddiad pwysig hwn yn tynnu sylw at bwysau ac effeithiau posibl ar adnoddau naturiol, yn rhoi syniad o gadernid, ac yn cynnwys asesiad o'r graddau yr ydym yn llwyddo i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Bydd y buddion a ddarperir i'r amgylchedd, pobl ac economi Cymru yn ganolog i'r adroddiad. Rydym wedi gwneud trefniadau i sicrhau y gallwn gyflawni'r dyddiad cau ar gyfer cyhoeddi ym mis Medi.

Dyma enghreifftiau o'n gwaith ar wella'r amgylchedd:

- Mae dynodiad Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig newydd mewn coedwig ffosiliau ym Mrymbo, ger Wrecsam, yn helpu i ddiogelu'r adnodd gwyddonol ac addysgol gwych hwn i genedlaethau'r dyfodol. Mae'r safle yn cynnwys amrywiaeth anhygoel o blanhigion a choed dros 300 miliwn oed wedi'u ffosileiddio, gan ei wneud yn safle rhagorol ar gyfer ffosiliau planhigion. Mae gan y safle hwn stori wych i'w hadrodd, ac mae cynlluniau ar y gweill, dan arweiniad Grŵp Treftadaeth Brymbo, i sefydlu canolfan gloddio ac ymwelwyr ar y safle a fydd yn sicrhau'r amodau cywir i astudio ac arddangos y ffosiliau bregus hyn. Mae'r potensial yma i fod yn atyniad poblogaidd i ymwelwyr, gan hefyd gyfrannu at economi leol yr ardal hon.
- Mae mwy na 1,000 o gimychiaid afon crafanc wen brodorol wedi eu rhyddhau i un o lednentydd Afon Irfon, fer Llanfair ym Muallt fel rhan o ymdrechion parhaus i achub y rhywogaeth rhag diflannu'n gyfan gwbl. Cafodd y cimychiaid eu magu yn Neorfa Bysgod Cynrig Cyfoeth Naturiol Cymru a chawsant eu rhyddhau i mewn ymgais i wrthbwysu'r niwed a achosir gan gimychiaid goresgynnol Americanaidd, newid yn yr hinsawdd ac effaith llygredd ar gynefin ac ansawdd dŵr i'r boblogaeth cimychiaid brodorol. Yn ei drydedd flwyddyn, mae arwyddion cynnar yn awgrymu fod y prosiect wedi bod yn llwyddiant a chimychiaid afon wedi eu canfod mewn safleoedd rhyddhau 15 mis ar ôl cael eu cyflwyno am y tro cyntaf. Byddai sefydlu poblogaidd iach o gimychiaid afon crafanc wen brodorol yn arwydd da fod ansawdd dŵr a chynefinoedd yn cael eu hadfer i gyflwr sy'n caniatáu i'r cimychiaid ffynnu.
- Mae dwy rywogaeth newydd o sbyngau morol wedi'u hadnabod yn y safle morol gwarchodedig o amgylch Ynys Sgomer gan ddangos bod ein gwaith cadwraeth yn cyfrannu at amgylchedd iach i'r rhywogaethau sy'n byw yno. Mae gwarchod ein hadnoddau naturiol yn darparu cartref pwysig i'r bywyd gwyllt cyfoethog, amrywiol a gwerthfawr sydd yma yng Nghymru, a hynny yn ei dro yn darparu cynefin gwych i fywyd gwyllt llai adnabyddus fel sbyngau a hefyd i rywogaethau fel Morloi Llwyd ac adar y môr sy'n denu twristiaid i'w ardal. Mae nifer y rhywogaethau sbwng sydd wedi'u cofnodi yn Sgomer wedi bod yn cynyddu'n gyson dros y 30 mlynedd diwethaf, ac ar hyn o bryd, credir bod tua 122 o rywogaethau yno.
- Mae gwaith i adfer mawndiroedd Cymru yn dangos arwyddion o lwyddiant - ond mae llawer mwy i'w wneud. Oherwydd difrod wrth sychu allan dros sawl blwyddyn, mae mawn Cymru yn ffynhonnell o allyriadau nwyon tŷ gwydr, sy'n rhyddhau tua 550,000 tonnall o garbon i'r atmosffer bob blwyddyn. Mae dros 50 y cant o fawndiroedd lled-naturiol Cymru bellach yn cael eu rheoli mewn dull cynaliadwy, sy'n helpu i gaethiwo'r

carbon a fyddai fel arall yn cael ei ryddhau i'r atmosffer gan gyfrannu at newid hinsawdd. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae 750km o ffosydd wedi cael eu llenwi ar draws mawndiroedd Cymru er mwyn eu hadfer a'u hail-wlychu. Ymhlith yr ardaloedd allweddol mae ucheldir y Migneint, Hiraethog, Elennydd a Berwyn a safleoedd iseldir ar Ynys Môn a Phen Llŷn, ymhlith eraill. Nid dim ond storio carbon y mae'r mawndiroedd. Maent yn gartref i gyfoeth o fywyd gwylt a phlanhigion prin; maent hefyd yn helpu i storio dŵr gan leihau'r risg o lifogydd, ac yn helpu i buro ein cyflenwad dŵr. Roedd Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cors Erddreiniog, Ynys Môn yn un o brif safleoedd ein sprosiect LIFE Ffeniau Ynys Môn a Llŷn CNC. Mae bellach yn storio carbon fyddai fel arall wedi'i ryddhau i'r atmosffer. Byddwn yn parhau i weithio ar adfer mawndiroedd pwysig, drwy ddefnyddio cytundebau rheoli gyda pherchnogion tir a phrosiectau partneriaeth i barhau i adfer mawndiroedd.

- Mae eog a sewin yn rhan bwysig o iechyd ein hafonydd ac yn werth miliynau i economi Cymru. Diolch i ddiweddariad i'r llwybr pysgod ar yr Afon Tawe ym Mhanteg, mae'r rhywogaeth eiconig yn gallu cael mynediad i fannau claddu gwych ym mhen uchaf Cwm Tawe. Roedd gan gored hanesyddol lwybr pysgod a oedd bron yn amhosibl i'w ddefnyddio oherwydd bod gwely'r afon wedi erydu i lawr yr afon. Byddwn yn canolbwyntio ar sicrhau bod ein hafonydd yn y cyflwr gorau posibl fel y gallant gynnal poblogaethau pysgod iach.

Yn Dda i Bobl: rydym am sicrhau bod pobl yn saff, ac yn mwynhau ein hadnoddau naturiol ac yn elwa ohonynt ac yn deall eu perthnasedd i'n bywydau o ddydd i ddydd

Mae ein rolau gweithredu, rheoleiddio, ymateb ac addysgu yn cadw pobl yn ddiogel ac yn annog pobl i ymweld ag amgylchedd Cymru.

Gwybodaeth Allweddol

- Mae 148,150 o eiddo preswyl a 60,350 o eiddo nad yw'n breswyl, sef oddeutu 11% o'r holl eiddo yng Nghymru, mewn perygl o lifogydd o afonydd a'r môr
- 98% o asedau mewn risg uchel o lifogydd yn cael eu cynnal
- Derbyniodd ein llinell adrodd digwyddiadau dros 10,000 o alwadau; mynychwyd 1,883 o ddigwyddiadau amgylcheddol

Rydym yn cynnal 319 milltir o amddiffynfeydd rhag llifogydd, yn rheoli 4,000 o asedau amddiffynfeydd rhag llifogydd, yn cefnogi cynlluniau llifogydd cymunedol ac yn cynnig gwasanaethau rhybuddio rhag llifogydd a darogan llifogydd er mwyn helpu i leihau'r risg a sicrhau bod mwy o ymbaratoi os bydd llifogydd yng Nghymru. Mae gwaith i adeiladu amddiffynfeydd newydd rhag llifogydd wedi lleihau'r risg o lifogydd i 511 o dai a 145 o fusnesau yng nghymunedau Dolgellau, Ffordd Isa a gwastadedd Caldicot, gan ragori ar ein targed o ddiogelu 500 eiddo eleni.

I helpu pobl Cymru i wybod beth i'w wneud yn achos llifogydd, mae gwaith ymgysylltu wyneb yn wyneb i godi ymwybyddiaeth o lifogydd mewn 20 o gymunedau mewn perygl ledled Cymru wedi arwain at greu 193 o gynlluniau llifogydd newydd, a 671 o gofrestriadau newydd ar ein gwasanaeth Rhybudd Llifogydd Uniongyrchol. Mae'r cynlluniau hyn yn ymwneud ag ystod o fusnesau, eiddo meddygol, parciau carafán, ysgolion a chartrefi. Ar hyn o bryd, mae 280 o arweinwyr neu wardeniaid sy'n cefnogi cynlluniau llifogydd cymunedol ledled Cymru fel gwirfoddolwyr. Yn ogystal â'r gwaith newydd hwn, adolygwyd

61 o gynlluniau llifogydd cymunedol a oedd eisoes wedi'u cwblhau, i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas ar gyfer y 19,241 o bobl sy'n cael eu gwarchod ganddynt.

Amharwyd ar ein rhaglen cynnal a chadw i asedau mewn perygl uchel o lifogydd gan lifogydd yn y gaeaf, ac o ganlyniad, syrthiodd ein lefel cynnal a chadw ychydig i 98% yn erbyn ein targed o 99%. Bu ein timau yn ail-flaenoriaethu eu hadnoddau i gynnal gwaith trwsio brys i asedau a gwaith llacio rhwystrau; cafodd hyn effaith yn ei dro ar ein gallu i ymdrin â'r asedau a oedd eisoes wedi'u hadnabod fel rhai oedd yn methu. Rydym yn gweithio i adfer y sefyllfa a datblygu systemau newydd i sicrhau bod arian yn mynd i'r lleoliadau sydd â'r risg uchaf.

Mewn partneriaeth gyda Chwmni Modur Ford, mae Prosiect Coetir Llynfi yn gweithio i drawsnewid cyn safle glo ger Pen-y-bont yn goetir cynaliadwy a ddyluniwyd gyda phobl mewn golwg. Mae 60,000 o goed wedi'u plannu hyd yn hyn, gan greu coetir 30 hectar newydd. Bydd hyn yn darparu cartref i fywyd gwylt, yn helpu i leihau llifogydd ac amsugno carbon, ond hefyd wrth weithio gyda'r gymuned leol i ddatblygu'r cynlluniau i greu'r coetir fel lle i bobl ymlacio, ymarfer a chymdeithasu, bydd hefyd yn annog pobl i dreulio mwy o amser tu allan a chynyddu eu lefelau gweithgarwch corfforol. Dros y ddeng mlynedd nesaf, bydd gweithwyr a chymunedau lleol yn chwarae eu rhan wrth blannu coed a datblygu cyfleusterau ymarfer corff gwyrdd, a lle ar gyfer gweithgareddau iechyd a lles i'r gymuned.

Gan ddefnyddio ein dull o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, ariannwyd 10 o brosiectau bioamrywiaeth fel rhan o'n cynlluniau i adeiladu a chynnal amddiffynfeydd rhag llifogydd. Mae ymgorffori camau i helpu natur lleol wrth gyflenwi ein cynlluniau yn sicrhau ein bod yn ystyried yr effaith gaiff ein gweithgareddau ar ei gilydd. Cwblhawyd wyt o brosiectau eleni gan greu 237.5ha o gynefin Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth.

I helpu ein cwsmeriaid gael mynediad rhwydd at y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gadw'n ddiogel neu i fwynhau'r amgylchedd naturiol, lansiodd ein gwasanaeth [Lefelau Afonydd Ar-lein](#) ym mis Tachwedd 2015. Mae'r gwasanaeth yn dangos data lefel afonydd byw o safleoedd ledled Cymru ar ein gwefan. Mae'n bosibl defnyddio'r data lefel afonydd a gasglwn mewn sawl ffordd o fewn CNC a bellach gall ein cwsmeriaid hefyd ei ddefnyddio i benderfynu sut i ymateb i lifogydd, neu i weld os yw lefelau yn addas ar gyfer pysgota neu gaiacio. Cyn hyn, mae'r wybodaeth wedi bod ar gael drwy wefan Asiantaeth yr Amgylchedd, ond mae ein staff wedi dylunio, adeiladu a phrofi'r gwasanaeth hwn i'w wneud yn haws i ganfod a gweld gwybodaeth ar lefel afonydd o'n safleoedd ledled Cymru. Gellir cael mynediad i'r wybodaeth hon drwy ddefnyddio map rhyngweithiol neu drwy chwilio drwy restr o'r gorsafoddd monitro.

Mae darparu cyfleoedd i bobl ac ymwelwyr â Chymru i fynd allan a mwynhau ein hamgylchedd naturiol yn elfen bwysig o'n gwaith. Eleni, mae dau o'n hatyniadau ymwelwyr mwyaf poblogaidd, Bwlch Nant yr Arian, ger Aberystwyth a Pharc Coedwig Coed y Brenin ger Dolgellau ym Mharc Cenedlaethol Eryri wedi dathlu Gwobrau Aur Croeso Cymru ar ôl sicrhau rhagoriaeth i'w cyfleusterau a'u gwasanaethau i gwsmeriaid. Gan ddarparu adnoddau addysgu gwerthfawr a chanolfan beicio mynydd pwysig ynghyd â chyfleusterau arlwygo poblogaidd, mae'r ddau safle wedi llwyddo mewn diwydiant deinamig a chyffrous lle mae'n hanfodol cynnig profiad cofiadwy i ymwelwyr.

Yn Dda i Fusnes: rydym am i Gymru fod yn 'lleoliad delfrydol' i fusnes a menter, yn fan lle caiff yr arferion rheoli amgylcheddol gorau eu mabwysiadu a'u hannog.

Mae ein rolau fel rheolwr, cynghorwr, rheoleiddiwr ac ymgynghorai statudol yn cefnogi busnesau sy'n gweithio gyda'r amgylchedd naturiol ac o fudd i economi Cymru.

Gwybodaeth Allweddol

- Wedi ymateb i 91% o geisiadau cynllunio o fewn y graddau amser y cytunwyd arnynt.
- Wedi cyhoeddi 91% o drwyddedau a chysyniadau o fewn y graddau amser y cytunwyd arnynt
- Rydym wedi cyflenwi dros 800,000m³ o bren i'r farchnad

Mae ein Rhaglen Darparu Ynni yn parhau i wireddu dyheadau agenda Economi Carbon Isel Llywodraeth Cymru, gan gyfrannu'n sylweddol at leihau'r defnydd o garbon a mynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd tra'n diogelu'r amgylchedd. Trwy gefnogi'r Rhaglen Ynni Gwynt, Rhaglen Ynni Dŵr ar Raddfa Fach a Mynediad Trydydd Parti a oedd yn ymwneud â phrosiectau ynni ar Ystâd a Reolir CNC, rydym yn gweld budd ariannol uniongyrchol i Lywodraeth Cymru a CNC gyda'r prosiectau hyn yn cynnig cyfleoedd pwysig i'r gadwyn gyflenwi ac o ran swyddi yng Nghymru.

Buom yn gweithio gyda datblygwyr i alluogi naw o gynlluniau pŵer dŵr bach ar yr Ystad a Reolir gan CNC. Oherwydd gostyngiadau yn y Tariffau Bwydo i Mewn yn ystod y flwyddyn, tynnodd datblygwyr allan o 22 o gynlluniau arfaethedig pellach. Roeddem hefyd wedi adnabod 165,000 o dunelli o ddeunydd coed o'r rhaglen ail-blannu llarwydd a rheoli llystyfiant ymyl ffordd a oedd ar gael i'w werthu yn hwyr yn 2015. Derbyniwyd cynnig sengl i glirio'r llarwydd ifanc ac ail-sefydlu cnwd am werth sero.

Mae ein camau gorfodi yn parhau i helpu i ddiogelu'r amgylchedd tra'n gweithio i sicrhau chwarae teg i fusnesau cyfreithlon. Gwelodd cwmni ailgylchu yn Ne Ddwyrain Cymru nad oedd yn cydymffurfio â'i drwydded amgylcheddol, ei Gyfarwyddwr yn derbyn dedfryd o gaethiwed ohiriedig ac yn cael ei wahardd rhag bod yn Gyfarwyddwr cwmni am y pum mlynedd nesaf ynghyd â cholli cytundeb â'r awdurdod lleol o ganlyniad. Roedd gweithredoedd i drin a storio nifer cynyddol o wastraff yn dechrau achosi arogleuon, llygredd draeniad a phryfed ac ni allodd y cwmni gydymffurfio â'r rhybuddion gorfodi i wella'r sefyllfa. Wrth weithredu i sicrhau bod yr amgylchedd a iechyd pobl leol yn cael eu gwarchod, bydd tua £200,00 o gytundebau gwastraff cyhoeddus yn cael eu rhoi i fusnesau sy'n cwrdd â'u cyfrifoldebau amgylcheddol yn gyfreithiol.

Cafwyd 110 o erlyniadau am droseddau yn ymwneud â gwastraff, ansawdd dŵr a physgodfeydd, gyda'r Llysoedd yn gosod dirwyon gwerth £119,305.00 a chostau yn cyfateb i £115,049.95 yn cael eu dyfarnu i CNC. Roedd Gorchmynion Atafaelu Enillion Troseddau a oedd yn ymwneud â'n herlyniadau yn werth £145,383.48.

Unwaith eto, ni yw cyflenwr mwyaf pren ardystiedig yng Nghymru o hyd ac eleni rhoddwyd 800,000m³ o goed rhisgl allanol sy'n sefyll ar y farchnad. Mae'r gwaith rheoli coetir cynaliadwy hwn yn cynnal swyddi eraill yn y sector coedwigaeth ledled Cymru.

Sefydliad Da: Rydym am sicrhau ein bod yn sefydliad sy'n cael ei arwain a'i reoli'n dda gyda staff â sgiliau a phrofiad addas a systemau a phrosesau creiddiol effeithiol; yn dryloyw yn ein penderfyniadau ac yn gwella'n gwasanaeth i gwsmeriaid a phartneriaid yn barhaus, gan feincnodi ein hunain yn erbyn y goreuon.

Mae ein gwaith fel rheolwr a chyflogwr yn ein helpu i newid i fod yn sefydliad gwasanaeth cyhoeddus sy'n dangos esiampl.

Gwybodaeth Allweddol

- Gostyngiad o 5% yn ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr
- Wedi cadw ein Safon Sicrwydd Coetir y DU
- Wedi cwblhau ein cyfnod prawf yn ffurfiol fel Corff newydd Dan Nawdd Llywodraeth Cymru

Mae canlyniadau ein Harolwg Pobl diweddar yn dangos fod angen i ni ganolbwyntio ar y pethau hynny a fydd yn magu gwell ymgysylltiad a chyfathrebu ar draws ein sefydliad ac annog cred yn ein pwrpas i sicrhau ein bod yn rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ymhob un o'n gweithredoedd. Mae cyfradd ymateb uchel o 82% yn dangos yn glir bod ein staff yn awyddus i wneud CNC yn lle gwell i weithio ynddo. Mae hefyd yn rhoi arwydd clir i ni fod yn rhaid i ni ganfod ffyrdd i annog diwylliant o ymddiriedaeth ac ymgysylltu llawer mwy gyda phawb mewn perthynas â sut ydym yn bwriadu rhedeg CNC i gael y gorau o bobl a'r sgiliau cyfunol sydd gennym.

Cawsom 10 o ddigwyddiadau colli amser yn rhoi gwybod am ddamweiniau i staff – syrthio, anaf cyhyrsgerbydol, llosgiadau ac anaf i'r pen. Mae ein hymchwiliadau dechreuol yn awgrymu nad oes patrwm i gysylltu'r digwyddiadau hyn; rydym yn adolygu pob un ohonynt a bydd y gwersi a ddysgwn yn cael eu rhannu gyda'r gweithlu ehangach i rwystro sefyllfaoedd tebyg rhag digwydd eto.

Mae gwaith wedi mynd rhagddo eleni i ddatblygu ein gallu i weithio'n annibynnol ac rydym wedi gallu lleihau'r arian a dalir i gyrrff etifeddol am wasanaethau TGCh o £5.2m bob blwyddyn. Mae deunaw o gymwysiadau TGCh newydd wedi cyfrannu at ostyngiad yn ein seilwaith Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) o gyfanswm o 1,405 o gymwysiadau o'r tri chorff etifeddol i lawr i 775 ar ddiwedd y flwyddyn hon. Mae staff wedi gweithio'n galed ar symud data a phrofi prosesau adrodd yn ogystal â datblygu pecynnau hyfforddi gan gynnwys fideos, cyrsiau a chanllawiau i gyd-fynd gyda'n dull newydd o weithio. Rydym yn falch ein bod wedi sefydlu cytundeb rhannu data cytunedig gydag Asiantaeth yr Amgylchedd (EA) ac rydym nawr yn chwilio am ffyrdd i ymdrin â'r cymwysiadau TGCh sy'n weddill er mwyn gallu terfynu'r holl wasanaethau pontio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd a Chomisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr erbyn 31 Mawrth 2017.

O ran sicrhau gwell gwerth am arian, rydym yn disgwyl gallu cynhyrchu buddion o £158 miliwn yn ystod ein 10 mlynedd cyntaf drwy'r arbedion effeithlonrwydd a geir o gyfuno tri sefydliad yn un. Ar hyn o bryd, rydym wedi adnabod yn llwyddiannus buddion dichonadwy arian parod a heb fod yn arian parod o £147 miliwn (93%). Er ein bod ar darged, mae'n rhaid i ni gynnal ffocws pendant ar wneud arbedion, rheoli costau a sicrhau bod cynllunio i wireddu'r buddion yn cael eu gweithredu. Bydd gwaith yn parhau i adael gwasanaethau pontio Asiantaeth yr Amgylchedd a Chomisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr gwerth oddeutu £2.25 miliwn pellach yn 2016/17.

Yn dilyn ein proses bontio i fod yn sefydliad annibynnol, rydym wedi lansio rhaglen fawr o Adolygiadau Meysydd Busnes i ystyried yr hyn ydym yn ei wneud, sut ydym yn ei wneud, a sut ydym wedi'n trefnu i gyflenwi ein pwrpas yn effeithiol ac yn effeithlon. Bydd hyn yn ein galluogi i gyflawni ein pwrpas newydd, addasu i'r cyd-destun deddfwriaethol newidiol yng Nghymru, a gwireddu ein huchelgeisiau o fewn amgylchedd ariannol heriol. Roedd adolygiad trosfwaol o'n uwch reolwyr yn rhan o hyn gyda'r nod o gyflawni model gweithredol sy'n cyflawni anghenion ein cwsmeriaid a'n partneriaid, sy'n gwreiddio rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol ym mhopeth y gwnawn, ac sy'n cyflenwi strwythur fforddiadwy erbyn y flwyddyn 2020. Bydd yn anelu at sicrhau bod CNC yn sefydliad gwych i weithio a thyfu ynddo, fel bod pobl a thimau yn gallu rhagori a gwireddu perfformiad busnes gwella yn gyson.

Yn dilyn adroddiad [Astudiaeth Datblygiad CNC gan Swyddfa Archwilio Cymru](#), roeddem yn falch derbyn Cymeradwyaeth Weinidogol ffurfiol ein bod wedi cwblhau ein cyfnod prawf fel Corff newydd dan Nawdd Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn ganlyniad rhagorol ac yn garreg filltir bwysig yn sefydliad ein sefydliad. Roedd yr adroddiad terfynol yn amlygu'r heriau sylweddol yr ydym wedi'u goresgyn, tra'n parhau gyda'n busnes. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cydnabod ein bod wedi '*mabwysiadu dull cadarn a threfnus*' fel bod gennym bellach '*lwyfan cadarn ar gyfer parhau i wireddu buddion y creu a mynd i'r afael gyda'r heriau a wynebwn yn y dyfodol*'.

Mae ein prosiect Carbon Positif yn mynd rhagddo i sefydlu ein statws carbon net, gan ystyried allyriadau nwyon tŷ gwydr a ollyngwn drwy ein gwaith a'r carbon sy'n cael ei gipio gan ecosystemau ledled ystâd CNC. Mae'r prosiect yn arwain ein bwriad i ddod yn sefydliad enghreifftiol o ran rheoli carbon. Bydd yn llywio ein gwaith ehangach i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd drwy archwilio a chyflenwi mesurau i leihau ein heffaith carbon, a chynllunio sut fyddwn yn gweithredu mesurau priodol i'r dyfodol. Drwy rannau ein dulliau a'n profiadau, bydd y prosiect Carbon Positif yn helpu i annog arfer gorau o ran rheoli carbon ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Rydym wedi codi 78 lle ym Mynegai Cydraddoldeb Gweithle Stonewall ers y llynedd ac rydym nawr yn safle 160 allan o'r prif 415 o gyflogwyr ar gyfer gweithwyr lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol yn y DU, ac yn safle 14 yng Nghymru. Rydym yn falch bod ein cynnydd cyflym dros y ddwy flynedd ddiwethaf i ddarparu gweithle cynhwysol ac amrywiol wedi ennill cydnabyddiaeth.

Dr Emyr Roberts
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

Dyddiad: 2 Mawrth 2017

Adroddiad Atebolrwydd

Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol


Adroddiad y Cyfarwyddwr

Rheoli ein Harian

Er gwaethaf gostyngiad o £3.2 miliwn yn ein cymorth grant mewn cymhariaeth â 2014/15, rydym wedi llwyddo i reoli ein gwariant yn unol â'n cynlluniau. Fel rhan o hyn, rhoddwyd ar waith ymgyrch effeithlonrwydd o'r enw "Success with Less" a lwyddodd i wireddu bron i £2.5 miliwn o arbedion. Rydym hefyd wedi rhagori ar ein targedau o ran sicrhau incwm masnachol. Rydym wedi cyflawni hyn tra'n gweithredu mewn cyd-destun ariannol heriol iawn yn y flwyddyn ariannol gyfredol, ac wrth gynllunio ar gyfer blynyddoedd ariannol y dyfodol. Rydym yn canolbwyntio ar hyn o bryd ar ein hyfywedd ariannol i'r dyfodol, a sicrhau sefydliad sy'n gynaliadwy o ran arian, ac rydym wedi dechrau datblygu ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2017-2022.

Cyllid


Cyfanswm ein hincwm ar gyfer y flwyddyn oedd £66 miliwn. At hynny, rhoddodd Llywodraeth Cymru Gymorth Grant gwerth £116 miliwn tuag at amrywiaeth o ganlyniadau. Dyrannwyd £39 miliwn i weithgarwch Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordiroedd a dyrannwyd £77 miliwn i weithgarwch nad oedd yn gysylltiedig â Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordiroedd. Yn y Cyfrifon, caiff Cymorth Grant ei drin yn gyfraniad gan awdurdod sy'n rheoli ac nid yn ffynhonnell incwm. Dengys y siart isod sut y dosberthir ein holl gyllid:




Mae gennym nifer o ffynonellau cyllid rydym yn eu cadw ar wahân wrth gynllunio a gwario ein hadnoddau. Rhennir y brif ffynhonnell gyllid, sef Cymorth Grant, rhwng gweithgarwch Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordiroedd a gweithgarwch nad yw'n gysylltiedig â Rheoli Perygl Llifogydd ac Arfordiroedd – ar gyfer refeniw a chyfalaf. Hefyd, mae gennym nifer o Gynlluniau Codi Tâl (gweler Nodyn 6 o'r Datganiadau Ariannol) sy'n seiliedig ar yr egwyddor o 'adennill costau'. At hynny, rydym yn gwneud cais am gyllid ychwanegol ac yn ei gael gan nifer o ffynonellau (megis cyllid Ewropeaidd) a gaiff ei wario ar brosiectau penodol.

Sut gwnaethom wario ein harian

Cyfanswm ein gwariant cynhwysfawr oedd £189 miliwn. Ceir dadansoddiadau manwl yn ôl categori o wariant yn Nodiadau 5 i'r Cyfrifon ac fe'u dangosir isod hefyd:



Gwariant yn ôl Cyfarwyddiaeth



A reolir yn ganolog - Incwm a gwariant a reolir yn ganolog ac nas dyrennir i'r cyfarwyddiaethau. Mae'n cynnwys dibrisiant, gwerth llyfr coed a gwmpwyd a chroniadau ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer darpariaethau.

Mae Nodyn 2, 3, 4 a 5 o'r Datganiadau Ariannol yn nodi lle y gwariwyd yr arian.

Ymgyrch Effeithlonrwydd 'Success with Less'

Mae ein hymgyrch 'Success with Less' wedi sicrhau arbedion gwerth bron i £2.5 miliwn ar draws ystod o fentrau gan gynnwys newid y ffordd ydym yn teithio ac yn defnyddio technoleg i gyfathrebu, a threfnu contractau sy'n rhoi gwell gwerth am arian. Enillodd ein Hymgyrch Wobr Caffael Cenedlaethol Cymru am Gyfraniad Eithriadol am arddangos ein cyfraniad unigryw a sylweddol yn nhermau gweithredu mentrau caffael cyhoeddus strategol a hybu newid ac arweiniad er mwyn helpu i foderneiddio Cymru.

Datblygiadau yn y Dyfodol

Mae'r sefyllfa ariannol ar gyfer 2016/17 yn arbennig o heriol yn sgil lleihad pellach mewn Cymorth Grant o Lywodraeth Cymru, ynghyd â chostau cwblhau ein gwaith i drawsnewid ein seilwaith Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a fydd yn ein galluogi i adael mwy o wasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd gan Asiantaeth yr Amgylchedd a Chomisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr.

Rydym wedi rhoi ystod o fesurau ar waith i osod cyllideb fforddiadwy ar gyfer 2016/17, gyda sawl maes yn wynebu lleihad sydd dros 10%, ac rydym wedi parhau gyda'n rheoliadau tynn dros y gweithlu.

Fel rhan o'n Map Ffordd, rydym yn y broses o weithredu rhaglen newid a thrawsnewid sylweddol a fydd yn ein galluogi i gyflawni ein pwrpas newydd, addasu i'r cyd-destun deddfwriaethol newidiol yng Nghymru, a gwireddu ein huchelgeisiau o fewn amgylchedd ariannol dyrys. Bydd hyn yn helpu i lunio ein Cynllun Corfforaethol fforddiadwy ar gyfer 2017-2022.

Asedau Anghyfredol

Roedd ein hasedau anghyfredol yn werth £874 miliwn ar 31 Mawrth 2016, sef cynnydd o 12% (£97m) mewn cymhariaeth â'r flwyddyn ariannol ddiwethaf. Yr elfen fwyaf sylweddol yw gwerth yr ystâd goedwig a'r asedau biolegol sy'n cyfrif am £714 miliwn o'r gwerth. Rydym wedi cynnal ailbrisiad annibynnol bob pum mlynedd o dir ac adeiladau a'r ystâd goedwig gan gynnwys asedau biolegol, ac mae hynny wedi'i ymgorffori yn y canlyniad hwn.

Ailbrisiu bob Pum Mlynedd

Bob pum mlynedd, mae sefydliadau yn cynnal ailbrisiad annibynnol trylwyr o'r rhan fwyaf o dir, adeiladau a strwythurau sy'n cael defnydd cyhoeddus. Dyma'r tro cyntaf i CNC ymgymryd â'r gwaith hwn. O ganlyniad, mae gwerth ein hasedau anghyfredol wedi cynyddu £95m (mewn cymhariaeth â chynnydd cyffredinol o £97m). Rydym yn fodlon gyda chanlyniadau'r prisiad ac mae'n amlygu gwerth masnachol rhagorol ein hasedau. Y prif resymau am y cynnydd o £95m yw'r gwelliant ym mhriadiad asedau ar ein hystâd goedwig (£83m), y ffaith bod asedau nad oedd ynghynt wedi'u nodi fel asedau anghyfredol wedi'u cynnwys fel mynediad Trydydd Parti i brosiectau ynni, hamdden, ynni dŵr a lesau mwynau, meysydd parcio a llwybrau (£9m), cynnydd yng ngwerth llwybrau beicio (£7m) ond wedi'u gwrthbwyso gan symudiadau eraill gan gynnwys prisiad is yn achos rhai o'n hasedau (£4m).

Talu Symiau Masnach a Symiau Taladwy Eraill

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i dalu 95% o gyflenwyr o fewn 30 diwrnod ac rydym yn anelu at gyflawni'r targed hwn lle bynnag y bo'n bosibl. Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, roedd ein perfformiad wedi cynyddu i 98%. Roedd perfformiad i'r flwyddyn gyfan yn 91%. Mae hyn yn helpu i hwyluso llif arian parod busnesau yn yr hinsawdd economaidd heriol bresennol.

Busnes Gweithredol

Dengys y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2016 ecwiti trethdalwyr cadarnhaol sy'n cyfateb i £806 miliwn. Yn y dyfodol, caiff ein rhwymedigaethau eu hariannu drwy Gymorth Grant gan Lywodraeth Cymru a'r defnydd o incwm yn y dyfodol. Rydym eisoes wedi ein cymeradwyo i gael cyllid ar gyfer 2016/17. Felly, mae'n briodol mabwysiadu sail busnes gweithredol er mwyn paratoi'r Cyfrifon Blynnyddol.

Rheoli'r Ystad

Rydym yn rheoli ystâd goedwig gyhoeddus Cymru ar ran Gweinidogion Cymru yn unol â'n polisi caffael a gwaredu a'n strategaeth Fenter. At hynny, mae gennym Gynlluniau Coedwig ar gyfer pob un o'r coedwigoedd, sy'n nodi'r ffordd y caiff pob coedwig ei rheoli er mwyn cyflawni amcanion strategol dros y 25 mlynedd nesaf.

Rydym hefyd wrthi'n gweithio i ddatblygu Cynlluniau Adnoddau Naturiol a fydd yn darparu cyfres o gynlluniau/strategaethau lleol a fydd yn llywio'r gwaith o reoli'r ystâd a'r asedau ledled Cymru.

Rheolir y Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, sy'n eiddo i ni neu sydd wedi'u prydlesu gennym, yn unol â chynllun rheoli cymeradwy, sy'n cynnwys amcanion cadwraeth o bob nodwedd gydnabyddedig o ddiddordeb ac sy'n nodi prosiectau a rhaglenni gwaith angenrheidiol. Caiff y cynlluniau eu hadolygu'n gyson a'u gwirio gan ein Tîm Rheoli Cadwraeth, drwy raglen dreigl o adolygiadau/archwiliadau amgylcheddol.

Pensiynau

Datgenir y rhwymedigaeth o ran pensiynau yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ar sail IAS19. Mae'r rhwymedigaeth wedi gostwng ar gyfer cynllun pensiwn LGPS yn ystod y flwyddyn oherwydd cyfradd ddisgownt net yn y cyfnod hwn, gydag effaith gadarnhaol hyn yn gwrthbwysu'r enillion is na'r disgwyl o asedau.

Mae hyn yn wahanol i'r sail a ddefnyddir i gyfrifo cyllid. Cynhaliwyd yr ailbrisiad ffurfiol diwethaf o'r gronfa ar 31 Mawrth 2013 a dangosodd fod y sefyllfa ariannu gyffredinol yn cyfateb i 86%.

Archwilwyr

Archwilir cyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Y ffi archwilio ar gyfer 2015/16 oedd £142,989.

Data Personol

Ni adroddwyd am unrhyw achosion o golli data eleni.

Adroddiadau Corfforaethol

Mae'r adroddiadau blynyddol canlynol hefyd ar gael ar ein gwefan:

- [Adroddiad Cydraddoldeb 2015/16](#)
- Adroddiad Lles, Iechyd a Diogelwch 2015/16

Adroddiadau Amgylcheddol

Dros y blynyddoedd sydd i ddod, rydym am osod esiampl yng Nghymru mewn meysydd gan gynnwys y ffordd rydym yn rheoli ac yn defnyddio carbon, gwastraff, dŵr a thir, fel y nodir yn ein cynlluniau Corfforaethol a Busnes. Ceir adroddiad corfforaethol, ar effaith amgylcheddol ein sefydliad ein hunain, yn Atodiad 1.

Eleni, rydym wedi:

- llwyddo i gadw ein hardystiad o dan ISO14001 a Safon Sicrwydd Coetir y DU (UKWAS) yn dilyn archwiliadau a phroses ddilysu allanol annibynnol, sy'n dangos ein hymrwymiad ein hunain i gyrraedd y safonau amgylcheddol uchaf posibl fel sefydliad
- cynyddu ein hól troed carbon 10% oherwydd cynnydd yn y defnydd o agregau cynradd mewn cynlluniau adeiladu
- cyflawni ein targed i leihau ein hól troed carbon 5% mewn perthynas â defnydd ynni adeiladau a ddefnyddir a theithio busnes
- hyfforddi staff ar feysydd allweddol o System Rheoli Amgylcheddol ein sefydliad

Yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod, byddwn yn parhau i wella ein hadroddiadau amgylcheddol corfforaethol gan weithio tuag at Adroddiadau Integredig.

Dr Emyr Roberts
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

Dyddiad: 2 Mawrth 2017

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan baragraff 23 (1) o'r Atodlen i Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 roedd yn ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru Iunio, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, Ddatganiad o Gyfrifon ar y ffurf ac ar y sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon.

Paratwir y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa Cyfoeth Naturiol Cymru a'r incwm a'r gwariant, newidiadau yn ecwiti trethdalwyr a'r llifau arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu fodloni gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) a gwneud y canlynol yn benodol:

- dilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol
- nodi p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodwyd yn y Llawlyfr, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes byw.

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol ar gyfer Llywodraeth Cymru wedi dynodi Prif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru yn Swyddog Cyfrifyddu. Cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr fel y Swyddog Cyfrifyddu yw priodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'n atebol amdano; cadw cyfrifon priodol; gweinyddu'n ddoeth ac yn ddarbodus; osgoi gwastraff ac afradlondeb; a defnyddio'r holl adnoddau yn effeithlon ac yn effeithiol fel y nodir ym Memorandwm Swyddog Cyfrifyddu Cyfoeth Naturiol Cymru.

Datganiad Llywodraethu

Fel Swyddog Cyfrifyddu dynodedig Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), rwy'n gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n ategu'r gwaith o gyflawni ein nodau a'n hamcanion. Rwyf hefyd yn gyfrifol am ddiogelu arian cyhoeddus ac asedau'r sefydliad drwy roi trefniadau priodol ar waith ar gyfer llywodraethu ein materion ac arfer ein swyddogaethau yn effeithiol. O ganlyniad, rwy'n gyfrifol yn bersonol am y datganiad llywodraethu hwn. Disgrifir cwmpas llawn fy nghyfrifoldeb ym Memorandwm Swyddog Cyfrifyddu Cyfoeth Naturiol Cymru a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a disgrifir gwybodaeth ychwanegol yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

Rwyf wedi amlinellu'r canlynol er mwyn dangos sut rwyf wedi cyflawni'r rôl hon.

- Strwythur Llywodraethu
- Adolygiad o effeithiolrwydd
 - Perfformiad y bwrdd
 - System rheolaeth fewnol
 - Adroddiad Blynyddol ARAC
- Fframwaith rheoli risg
- Barn Archwilio Mewnol

Ein Strwythur Llywodraethu

Penodir aelodau ein Bwrdd gan Weinidogion Cymru yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Penodiadau gan Weinidogion i Gyrrff Cyhoeddus ac felly, mae ein Cadeirydd yn atebol i'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol. Ar hyn o bryd mae gennym un ar ddeg aelod ar y Bwrdd, gan gynnwys fi fy hun fel aelod Gweithredol o'r Bwrdd. Arweinir y Bwrdd gan ein Cadeirydd, Diane McCrea MBE. Mae gweddill y Bwrdd yn cynnwys deg aelod anweithredol. Yn ystod y flwyddyn, arweiniodd Llywodraeth Cymru broses penodiadau cyhoeddus a phenododd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol Diane McCrea MBE o 1 Rhagfyr 2015 fel ail Gadeirydd CNC, yn ogystal â phum aelod newydd o'r Bwrdd (Zoe Henderson, Karen Balmer, Chris Blake, Howard Davies ac Elizabeth Haywood). Penodwyd Dr Madeleine Havard yn Ddirprwy Gadeirydd o 1 Rhagfyr 2015 a chytunodd yr aelodau eraill, Dr Ruth Hall CB, Andy Middleton, Nigel Reader CBE a Syr Paul Williams OBE ar gyfnodau newydd o ddwy flynedd.

Cyn i Lywodraeth Cymru gynnal y broses benodi gyhoeddus i benodi ein Cadeirydd newydd ac aelodau newydd ein Bwrdd, ac er mwyn cefnogi'r broses honno, aethom ati i drefnu cyfres o ddigwyddiadau hyrwyddo 'Dewch at y Bwrdd' ledled Cymru. Prif bwrpas hyn oedd hyrwyddo aelodaeth o'r Bwrdd i groestoriad lawn cymdeithas Cymru trwy esbonio mwy am waith CNC, yn ogystal â'r gofynion penodol ar aelodau'r Bwrdd. Daeth mwy na 120 o bobl draw i un o'r tri digwyddiad ym Merthyr, Aberystwyth a Llandudno, gan gynnwys nifer o'r rheiny sydd newydd eu penodi'n aelodau o'r Bwrdd.

Hoffwn gydnabod arweinyddiaeth ac ymroddiad ein Cadeirydd cyntaf, yr Athro Peter Matthews; daeth ei dymor i ben ar 30 Tachwedd 2015. Gadawodd tri o aelodau cyntaf y Bwrdd ar 31 Hydref 2015 (Lynda Warren, Hywel Davies a Harry Legge-Bourke).

Er mwyn cefnogi'r Bwrdd yn ei gyfanrwydd, ac er mwyn sicrhau parhad o ran busnes, mae holl aelodau newydd y Bwrdd wedi cyfranogi mewn rhaglen sefydlu sy'n eu cyfarwyddo o ran polisïau a gweithdrefnau allweddol, a sefyllfa bresennol a chwmpas ein gwaith. Rwy'n ddiolchgar i aelodau profiadol y Bwrdd sy'n parhau i gefnogi'r gwaith hwn, yn ogystal â fy

Nhîm Gweithredol. Bydd y gwaith sefydlu hwn yn parhau fel rhan o raglen lawn i ddatblygu'r Bwrdd yn ystod 2016/17.

Rôl a chyfrifoldeb y Bwrdd yw:

- rhoi cyfeiriad ac arweinyddiaeth strategol, gan lywio perfformiad a'n dwyn i gyfrif yn erbyn ein cynlluniau strategol a chorfforaethol
- sicrhau priodoldeb, rheoleidd-dra, darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiol o ran y ffordd y mae'r corff yn gweithredu a chydymffurfiaeth â saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (egwyddorion Nolan)
- sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau statudol a rheoliadol, yng ngoleuni'r cyfryw arweiniad a chyfeiriad ag y gall Gweinidogion eu rhoi
- hyrwyddo'r sefydliad a'i nodau a'i amcanion, yn ogystal â bod yn fodel rôl i staff a rhanddeiliaid
- cydweithio i feithrin cydberthnasau â phob rhanddeiliad gan gynnwys Llywodraeth Cymru, busnesau, cymunedau a staff a'u cynrychiolwyr
- dangos safonau uchel o ran llywodraethu corfforaethol bob amser, gan gynnwys drwy ddefnyddio'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg er mwyn helpu i fynd i'r afael â risgiau ariannol allweddol a risgiau eraill.

Rydym yn gweithredu yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer Da ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Eleni, rydym wedi canolbwyntio ar gefnogi datblygiad a gweithrediad rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru, yn ogystal â symud y sefydliad o gyfnod o bontio i gyfnod o drawsnewid. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Bwrdd wedi gweithio ar adolygu goblygiadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn ogystal ag ystyried cynigion ynghylch sut ddylen ni ddatblygu ein pwrpas a'n cyfrifoldebau statudol newydd dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru). Ymhellach, mae'r Bwrdd wedi cytuno ar Gynllun Busnes CNC 2016/17 yn ystod y flwyddyn ac wedi cymryd rhai camau paratoadol ar gyfer datblygu ein Cynllun Corfforaethol nesaf 2017-2020. Mae'r Bwrdd hefyd wedi goruchwyllo datblygiad rhaglen CNC 'Yn Addas i'r Dyfodol', sy'n anelu at drawsnewid y sefydliad er mwyn iddo allu rheoli adnoddau naturiol yn integredig, tra'n sicrhau cynaliadwyedd ariannol. Yn ogystal â'u gwaith gyda'r Bwrdd cyfan, rwy'n ddiolchgar i aelodau unigol o'r Bwrdd am gefnogi'r gwaith hwn drwy ymgysylltu'n uniongyrchol gyda grwpiau staff, yn ogystal â bod yn aelodau o fyrddau rhaglen Adolygiad Meysydd Busnes.

Rydym wedi cynnal pedwar cyfarfod a oedd yn agored i'r cyhoedd yn ystod y flwyddyn ledled Cymru yn ogystal â nifer o gyfarfodydd eraill o'r Bwrdd Datblygu. Ymhlith yr eitemau sefydlog ar ein agenda mae'r canlynol: adroddiadau ariannol a pherfformiad cyfredol, y wybodaeth ddiweddaraf am faterion strategol a gweithredol gan y Cadeirydd, y Prif Weithredwr, Pwyllgorau a Grwpiau'r Bwrdd. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod ein trefniadau llywodraethu yn dryloyw, yn agored ac yn hygyrch i bawb. Er mwyn helpu i gyflawni'r ymrwymiad hwn rydym yn cyhoeddi amrywiaeth eang o wybodaeth am ein gwaith ar ein gwefan, gan gynnwys papurau i'w hystyried gan y Bwrdd cyn y cyfarfodydd hynny a gynhelir yn gyhoeddus. Mae dyddiadau pob cyfarfod a gynhelir yn y dyfodol ac agendâu, papurau a chofnodion blaenorol ar gael ar ein gwefan

<http://naturalresources.wales/about-us/our-chair-board-and-executive-team/board-meeting-agendas-minutes-and-papers/?lang=cy>

Presenoldeb Aelodau'r Bwrdd

	Nifer y cyfarfodydd posibl	Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd
Yr Athro Peter Matthews (Cadeirydd)*	3	3
Y Parch Hywel Davies**	3	2
Dr Ruth Hall CB	6	6
Dr Madeleine Havard (Dirprwy Gadeirydd)***	6	6
Harry Legge-Bourke**	3	3
Andy Middleton	6	6
Nigel Reader CBE	6	5
Dr Emyr Roberts	6	6
Yr Athro Lynda Warren**	3	3
Syr Paul Williams OBE	6	5
Diane McCrea MBE (Cadeirydd)***	3	3
Karen Balmer****	3	3
Chris Blake****	3	3
Howard Davies****	3	3
Zoe Henderson****	3	2
Elizabeth Haywood****	3	2

*Diwedd tymor fel Cadeirydd ym mis Tachwedd 2015

**Diwedd tymor fel aelod o'r Bwrdd ym mis Hydref 2015

***Penodwyd fel Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd newydd o fis Rhagfyr 2015.

****Penodwyd fel aelod newydd o'r Bwrdd o fis Rhagfyr 2015.

Mae gan ein Bwrdd dri **is-bwyllgor**, y mae pob un ohonynt yn cael ei gadeirio gan un o Aelodau'r Bwrdd ac yn cynnwys o leiaf ddau Aelod arall o'r Bwrdd. Nid oes gennym Bwyllgor Enwebu gan fod ein haelodau yn cael eu penodi gan Weinidogion Llywodraeth Cymru. Adolygwyd aelodaeth pob pwyllgor yn Ionawr 2016 yn dilyn penodiad aelodau newydd o'r Bwrdd. Lle bo hynny'n ofynnol, mae'r Bwrdd llawn wedi adolygu telerau cyfrifoldeb pob un o'r canlynol a chytuno arnynt:

- Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
- Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol
- Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig

Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Prif rôl y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) yw rhoi cyngor i'r Bwrdd a helpu'r Swyddog Cyfrifyddu i fonitro'r trefniadau sydd ar waith ym meysydd archwilio, llywodraethu, rheolaethau mewnol a rheoli risg, craffu ar y trefniadau hynny a'u herio. Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n mynychu bob cyfarfod ynghyd â'n Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol a'n Cyfarwyddwr Llywodraethu.

Eleni ymdriniodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ag amrywiaeth o faterion gan gynnwys y canlynol:

- Adroddiad Blyneddol a Chyfrifon 2014/15 a chynlluniau i'r adroddiad hwn, 2015/16
- Cynlluniau ac adroddiadau'r archwiliad allanol a mewnol
- Cofrestr Risg Gorfforaethol gan gynnwys nifer o astudiaethau manwl o risgiau penodol
- Archwilio Rheoli Risg yn fewnol

- Trefniadau archwilio ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Polisi Gwrth-Lwgrwobrwyo a Thwyll newydd
- Adolygu Polisi Cwynion
- Adolygu Polisi Gwrthdaro Buddiannau.

Presenoldeb Aelodau'r Bwrdd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

	Nifer y cyfarfodydd posibl	Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd
Nigel Reader CBE (Cadeirydd)	5	5
Dr Ruth Hall CB	5	5
Dr Madeleine Havard*	4	4
Andy Middleton*	4	4
Karen Balmer**	1	1
Chris Blake**	1	1

*Gadawodd ARAC ym mis Rhagfyr 2015

**Penodwyd i ARAC ym mis Mawrth 2016

Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol (REMCOM) yn ystyried materion sy'n ymwneud â chyflog ac amodau cyflogaeth ein haelodau uchaf o staff a'r strategaeth gyflog gyffredinol ar gyfer pob aelod o staff a gyflogir gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gweithredu fel y Grŵp Cyngori ar Bontio i fonitro ac adolygu'r holl faterion pontio, gan gynnwys sicrhau'r manteision a nodir yn yr achos busnes dros greu CNC.

Fel y Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n mynychu bob cyfarfod ynghyd â'n Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl, a'r Cyfarwyddwr Portffolio Trawsnewid.

Ymdriniodd y pwyllgor ag amrywiaeth o faterion yn ystod y flwyddyn gan gynnwys y canlynol:

- Y Cynllun Gwerthuso Swyddi
- Y Cynllun Diswyddo Cynnar Gwirfoddol
- Newidiadau i Gynlluniau Pensiwn
- Penodi Cyfarwyddwyr a'u cyflog
- Y rhaglen drawsnewid.

Presenoldeb Aelodau'r Bwrdd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol

	Nifer y cyfarfodydd posibl	Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd
Syr Paul Williams OBE (Cadeirydd)	4	4
Nigel Reader CBE	4	4
Dr Ruth Hall CB*	3	3
Y Parch Hywel Davies*	2	2
Karen Balmer**	1	1
Zoë Henderson**	1	1

* Gadawodd REMCOM ym mis Medi 2015

**Penodwyd i REMCOM ym mis Mawrth 2016

Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig

Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo ei gyfrifoldebau statudol o ran gwrthwynebiadau i gynigion i ddynodi Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a diddymu dynodiadau safleoedd o'r fath a gyflwynir i'r Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig. Mae aelodau'r Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig hefyd yn cefnogi'r Tîm Gweithredol a'r Bwrdd llawn drwy roi cyngor ar faterion ehangach sy'n ymwneud ag ardaloedd gwarchoddedig a gwaith achos strategol.

Yn ystod y flwyddyn, ystyriodd y pwyllgor wrthwynebiadau a chadarnhau dynodiad un Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) newydd.

Presenoldeb Aelodau'r Bwrdd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig

	Nifer y cyfarfodydd posibl	Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd
Andy Middleton (Cadeirydd)	1	1
Yr Athro Peter Matthews	1	1
Dr Ruth Hall CBE	1	1
Dr Madeleine Havard	1	1
Syr Paul Williams OBE	1	1

Rheoli Perygl Llifogydd Cymru

The remaining Committee members are Local Authority representatives and independent members, appointed either by Welsh Ministers or by NRW.

Mae'r pwyllgor hwn, er nad yw'n un o bwyllgorau sefydlog y prif Fwrdd, yn cyflawni nifer o swyddogaethau rheoli perygl llifogydd statudol Cyfoeth Naturiol Cymru yn unol ag Adran 106 o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad o drefniadau rheoli perygl llifogydd yng Nghymru a thrwy Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru), bydd yn gweithredu trefniadau ar gyfer Pwyllgor Cyngori newydd a fydd yn atebol i Weinidogion o 2016/17. O ganlyniad i'r newidiadau hyn, pan ddaeth tymor Mr Ddep Sagar, y Cadeirydd a benodwyd yn annibynnol, i ben ym mis Mehefin 2015, penododd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol Dr Madeleine Havard, aelod o Fwrdd CNC, fel Cadeirydd interim i oruchwylio'r pontio i'r trefniadau llywodraethu newydd. Mae aelodau eraill y Pwyllgor yn gynrychiolwyr o Awdurdodau Lleol ac yn aelodau annibynnol a benodir naill ai gan Weinidogion Cymru neu Cyfoeth Naturiol Cymru.

Grwpiau'r Bwrdd

Y tu allan i'n cyfarfodydd ffurfiol, mae Aelodau'r Bwrdd wedi chwarae rôl weithredol o ran helpu'r Tîm Gweithredol i ddatblygu strategaeth. Grwpiau sefydlog y Bwrdd tan fis Rhagfyr 2015 oedd:

- Amgylchedd
- Cymunedau
- Economi
- Menter CNC
- Gwybodaeth

Mae'r grwpiau hyn wedi cynnig cyfle i Aelodau'r Bwrdd gyfrannu at ddatblygu gwaith yn gynnar ac yn galluogi'r Tîm Gweithredol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Bwrdd am ddatblygiadau mewn meysydd penodol o'r busnes. Mae aelodau'r Bwrdd hefyd wedi helpu grwpiau 'gorchwil a gorffen' i roi cyngor ar dasgau penodol e.e. adrodd ar berfformiad. Adolygodd y Cadeirydd newydd y trefniadau hyn pan gafodd ei phenodi, ac o Ionawr 2016, dyrannwyd Aelodau'r Bwrdd i'r grwpiau Bwrdd canlynol, sydd i gyd ar gael i gefnogi'r Tîm Gweithredol yn ôl yr angen:

- Gwybodaeth
- Amgylchedd
- Pobl (gan gynnwys cymunedau)
- Busnes (gan gynnwys menter CNC).

Effeithiolrwydd y Bwrdd

Cynhaliodd ein Bwrdd sesiwn ym mis Gorffennaf 2015 i adolygu canlyniadau holiadur effeithiolrwydd blaenorol y Bwrdd. Roedd y canlyniadau cyffredinol yn dangos cynnydd parhaus o ran aeddfedrwydd y Bwrdd ac roedd y camau allweddol y cytunwyd arnynt yn cynnwys gwella trefniadau ar gyfer ymgysylltu gyda rhanddeiliaid ynghylch cyfarfodydd y Bwrdd, cyfle gwell i gyfrannu at strategaeth fel Bwrdd llawn drwy gyfarfodydd y Bwrdd Datblygu, a threfniadau gwell ar gyfer hysbysiadau ar weithgareddau gweithredol gan y Tîm Gweithredol. Mae trefniadau newydd ar waith yn yr holl feysydd hyn a daeth gwelliannau i'r amlwg yn ystod ail hanner y flwyddyn.

Yn sgil newidiadau yn aelodaeth ein Bwrdd yn agos at ddiwedd y flwyddyn ariannol, a'r flaenoriaeth a roddwyd i'r rhaglen sefydlu barhaus, rydym wedi penderfynu cynnal adolygiad o effeithiolrwydd y Bwrdd yn ddiweddarach yn 2016. Rydym yn bwriadu defnyddio dangosyddion Sefydliadau Perfformiad Uchel a ddatblygwyd gan Academi Wales, i adolygu Effeithiolrwydd y Bwrdd yn ffurfiol.

Mae ein Cadeirydd newydd, Diane McCrea MBE, wedi adolygu aelodaeth pwyllgorau, yn ogystal â rhoi trefniadau newydd ar waith ar gyfer cefnogaeth anffurfiol i fy Nhîm Gweithredol wrth i ni ddatblygu cynigion i'r Bwrdd eu hystyried. Mae'r aelodaeth a'r trefniadau newydd wedi helpu i gyfuno aelodau newydd y Bwrdd gydag aelodau profiadol y Bwrdd, gan fagu parhad a chadernid i'r dyfodol.

Ymhellach, cyn diwedd ei dymor ef, cynhaliodd Peter Matthews arfarniadau perfformiad diwedd blwyddyn i bob Aelod o'r Bwrdd. Bydd ein Cadeirydd newydd yn cytuno ar amcanion a chynlluniau datblygu unigol i bob Aelod o'r Bwrdd ar gyfer 2016/17.

Cynhaliodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) adolygiad blynyddol o'i effeithiolrwydd hefyd drwy gwblhau holiadur a oedd yn seiliedig ar restr wirio a luniwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, y daw'r meini prawf ar ei chyfer yn bennaf o Lawlyfr Trysorlys EM i Bwyllgorau Archwilio. Yn gyffredinol, ystyriwyd bod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn effeithiol, gyda'r rhan fwyaf o'r trefniadau a'r prosesau allweddol ar waith. Fodd bynnag, dangosodd yr ymarfer bod nifer fach o welliannau pellach y gallai'r Pwyllgor eu hystyried fel rhan o'i rôl sicrwydd. O ganlyniad, lluniwyd cynllun sefydlu i gefnogi aelodau newydd o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn ogystal â chynllun i gynnal cyfarfodydd caeedig blynyddol gyda'r Prif Weithredwr ac archwilwyr Mewnol ac Allanol i roi cyfle am fwy o annibyniaeth a thryloywder os oes angen.

Ein Tîm Gweithredol

Y Tîm Gweithredol sy'n rheoli ein sefydliad o ddydd i ddydd. Fel y Prif Weithredwr, rwy'n cadeirio'r cyfarfodydd a fynychir gan chwe Chyfarwyddwr Gweithredol, tri Chyfarwyddwr a'n Prif Swyddog Gwybodaeth. Rydym yn cyfarfod yn ffurfiol bob tair wythnos. Mae ein cyfarfodydd Busnes yn ymdrin â materion cyfredol a materion sy'n dod i'r amlwg, ac yn monitro perfformiad y sefydliad; mae cyfarfodydd Strategaeth a Pholisi yn datblygu strategaeth i'r sefydliad ac yn argymhell safbwyntiau polisi newydd i'r Bwrdd ac mae ein cyfarfodydd Rhaglen Newid yn trafod ac yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am faterion sy'n dod i'r amlwg a chynnydd o ran y Rhaglen Newid.

Mae gan bob Cyfarwyddiaeth Gynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth, sy'n gysylltiedig â thargedau a chanlyniadau corfforaethol a nodir yn y Cynllun Busnes blynyddol. Adolygir y rhain bob mis gydag aelodau eu Tîm Arwain ac maent yn bwydo i mewn i'r Dangosfwrdd Perfformiad Corfforaethol, y cyflwynir adroddiad arno i'r Bwrdd a Llywodraeth Cymru deirgwaith y flwyddyn.

Ein Fframwaith Rheoli Risg

Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo ein polisi Rheoli Risg ac mae'n gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o roi'r polisi a'r broses ar waith. Yn seiliedig ar ganllawiau Trysorlys EM ar reoli risgiau, yr amcan allweddol yw sicrhau bod gennym ddull cyson o nodi, mesur, rheoli, monitro a chofnodi risgiau.

Rydym yn wynebu amrywiaeth eang o risgiau ym mhob un o'n cyfrifoldebau ac felly nid yw'n briodol gwneud un datganiad cyffredinol ynglŷn â'n hagwedd tuag at risg. Yn lle hynny, cytunwyd ar nifer o ddatganiadau am yr awydd i fentro sy'n deillio o feysydd gwahanol o'n gwaith. Bydd y Bwrdd yn adolygu'r awydd i fentro yn ein gweithgareddau gwahanol yn gynnar yn 2016/2017, mewn ymateb i'r broses o ystyried argymhellion sy'n codi o'n Hadolygiadau Maes Busnes fel rhan o'n datblygiad parhaus i drawsffurfio CNC i allu rheoli adnoddau naturiol yn integredig.

Caiff ein risgiau o ddydd i ddydd eu nodi, eu gwerthuso a'u rheoli ar sawl lefel wahanol. Mae ein Bwrdd yn gyfrifol am reoli risgiau corfforaethol yn unol â'r nod o gyflawni amcanion strategol. Mae'r Bwrdd yn cadw perchenogaeth o'r risgiau corfforaethol allweddol, ond mae'n defnyddio'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i graffu ar ein prosesau rheoli risg, yn ogystal ag ymchwilio i risgiau a materion penodol. Mae aelodau'r Tîm Gweithredol yn rheoli Cofrestrau Risg Cyfarwyddiaethau yn unol â'r nod o gyflawni eu targedau a'u canlyniadau yn eu Cynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth. Adolygir y rhain yn rheolaidd ac rwy'n eu trafod yn ystod fy adolygiadau o berfformiad. Mae Cofrestrau Risg hefyd ar waith ar gyfer prosiectau a rhaglenni mawr ac fe'u hadolygir mewn cyfarfodydd prosiectau a rhaglenni.

Ymhlith y risgiau allweddol a nodwyd ac a reolwyd yn ystod y flwyddyn mae'r canlynol:

- ymateb i'r gostyngiad tymor byr yn ein cymorth grant a chynllunio ar gyfer heriau ariannol parhaus
- sicrhau ein bod yn hollol barod ar gyfer yr heriau newydd sy'n codi o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd (Cymru)
- ymateb i ledaeniad y clefyd coed *Phytophthora ramorum*

Sicrwydd Gwybodaeth

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau y caiff data a gwybodaeth eu llywodraethu a'u rheoli'n dda ac wedi parhau i weithio i sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng tryloywder a bod yn agored a diogelwch gwybodaeth angenrheidiol. Mae ein Cyfarwyddwr Llywodraethu yn gweithredu fel yr Uwch Berchennog Risgiau Gwybodaeth (SIRO), rydym wedi canolbwyntio ein hymdrechion yn ystod y flwyddyn ar oruchwylio'r gwaith o ddatblygu Polisi a Gweithdrefnau Llywodraethu Gwybodaeth perthnasol yn ogystal â datblygu ein trefniadau ymdrin â digwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch gwybodaeth.

Ymhellach, rydym wedi datblygu 22 Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd mewn perthynas ag ystod eang o weithgareddau CNC lle gaiff gwybodaeth bersonol ei thrin, yn ogystal â chwblhau'r hyfforddiant gan yr Archifau Gwladol i garfan lawn y Perchnogion Asedau Gwybodaeth.

Effeithiolrwydd Rheolaeth Fewnol

Mae pob aelod o fy Nhîm Gweithredol wedi llofnodi Tystysgrif Sicrwydd a chwblhau Rhestr Wirio Rheolaeth Fewnol. Er mwyn gwneud hynny roedd angen iddynt gynnal asesiad

seiliedig ar dystiolaeth o ddigonolrwydd y fframwaith rheolaeth sydd ar waith i'w Cyfarwyddiaeth.

Mae canlyniadau cyffredinol eleni yn dangos hyder cynyddol yn y fframwaith rheoli sy'n beth dymunol iawn gan fod hyn yn dystiolaeth bod systemau a phrosesau yn gwreiddio o fewn y sefydliad ar ôl ein tair blynedd gyntaf. Fodd bynnag, mae trefniadau trin a diogelu gwybodaeth yn parhau'n achos pryder gan fod mwy o wybodaeth wedi symud o'n systemau etifeddol ac mae staff yn parhau i ddatblygu eu gwybodaeth o'n system TGCh. Byddwn yn mynd i'r afael â hyn gyda chynllun gweithredu Tîm Gweithredol yn ystod 2016/17.

Mae gennym bolisi chwythu'r chwiban a gweithdrefn adrodd gadarn yn eu lle i fynegi pryderon difrifol ynghylch camymddygiad neu amhriodoldeb; eleni, nid oedd unrhyw achosion o chwythu'r chwiban. Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu yn 2016/17.

Mae ein tîm Archwilio Mewnol wedi cwblhau eu cynllun archwilio blynyddol, gydag adroddiadau cynnydd ac adborth rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Yn y flwyddyn, nodwyd bod nifer y camau heb eu cymryd yn cynyddu. Rwyf wedi tynnu sylw fy Nhîm Gweithredol at hyn, ac er bod y sefyllfa yn gwella, mae'n rhywbeth y byddwn yn mynd i'r afael ag ef yn ystod 2016/17.

Mae barn y Rheolwr Archwilio Mewnol (fel Pennaeth Archwilio a Sicrwydd Risg), fel y'i nodir yn ei adroddiad sicrwydd blynyddol, fel a ganlyn:

"Yn fy mam i, gall Cyfoeth Naturiol Cymru fod yn Weddol sicr o ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol ei amgylchedd rheolaeth fewnol, gan gynnwys ei drefniadau ar gyfer llywodraethu a rheoli risg.

"Yn ystod y flwyddyn nododd archwiliad o Reoli Risg wendidau o ran rheoli ar lefel fel mai dim ond sicrwydd cyfyngedig y gellid ei roi. Yn yr achosion hyn mae'r rheolwyr wedi rhoi sicrwydd y caiff yr argymhellion a wnaed eu gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd. Fodd bynnag, mae'r gwaith adfer wedi cymryd mwy o amser na'r hyn a ddisgwyliwyd yn wreiddiol ac mae rhai gwelliannau yn parhau i fod yn angenrheidiol. O gofio bod hyn yn rhan annatod o lywodraethu da, mae'r gwendid parhaus hwn wedi dylanwadu ar y Farn Archwilio flynyddol.

Archwilio Allanol

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd Astudiaeth Datblygiad CNC gan Swyddfa Archwilio Cymru i gwblhau Adolygiad Prawf CNC ar ran Llywodraeth Cymru, ac i baratoi Adroddiad Gwerth am Arian ar ran Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol. Dyma ganlyniad ardderchog y gellir ei ystyried fel y garreg filltir olaf yn y broses o sefydlu'r sefydliad newydd. Roedd yr adroddiad terfynol yn tynnu sylw at heriau sylweddol sydd wedi'u goresgyn, tra'n sicrhau parhad o ran busnes. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cydnabod ein bod wedi 'mabwysiadu ymagwedd gadarn a strwythuredig' fel bod gennym bellach 'lwyfan cadarn ar gyfer parhau i wireddu'r manteision a fwriadwyd wrth greu ac i ymdrin â heriau'r dyfodol' a ddaw i'n rhan. Datblygwyd Cynllun Gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion terfynol; byddaf nawr yn goruchwylio'r cynllun hwn ac yn adrodd ar ei hynt i'n ARAC bob chwe mis er mwyn gwireddu'r gwelliannau sy'n ofynnol.

Yn gynnar yn 2015, ymgwymerodd Swyddfa Cyflawni Rheoliadau Gwell ag adolygiad o'n holl weithgareddau yn unol ag Egwyddorion Rheoliadau Da. Roeddwn yn falch bod eu hadroddiad terfynol yn amlygu ein dealltwriaeth eang o'r egwyddorion ac ein bod wedi dechrau arddangos y rhain yn ein dulliau gweithio. Bydd ein cynllun gweithredu dilynol wrth ymateb i'r argymhellion yn ceisio adeiladu ar hyn a byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r rhai rydym yn eu rheoleiddio neu sy'n cael eu heffeithio gan reoliad i rannu eu safbwyntiau wrth i ni ddatblygu ein dull gweithio i'r dyfodol.

Cyflwyno Datganiadau Ariannol

Yn ystod yr archwiliad ariannol blynyddol fe ddaeth yr Archwilydd Cyffredinol o hyd i fater yn ymwneud â chysondeb sawl contract gwerthu pren hir dymor oedd wedi cael eu gosod yn 2014. Roedd y mater a nodwyd yn gymhleth ac roedd angen i Archwilydd Cyffredinol Cymru ystyried tystiolaeth helaeth a gasglwyd. Mae'r adolygiad hwn wedi nodi rhai gwersi i'w dysgu gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac mae cynllun gweithredu yn cael ei roi ar waith fydd yn cael ei oruchwylio gan y Pwyllgor Archwilio a Risg.

Cyflwynwyd y datganiadau ariannol yn wreiddiol i Archwilydd Cyffredinol Cymru ar 23 Awst 2016. Arweiniodd yr oedi achoswyd gan adolygiad ychwanegol hwn at ailgyflwyno datganiadau ariannol ar 2 Mawrth 2017.

Dr Emyr Roberts
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

Dyddiad: 2 Mawrth 2017

Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff (archwiliedig)

Polisi Cydnabyddiaeth Ariannol

Mae'r Bwrdd wedi sefydlu Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol er mwyn ystyried materion sy'n ymwneud â chyflog ac amodau cyflogaeth yr aelodau uchaf o staff a strategaeth gyflog gyffredinol ar gyfer pob aelod o staff a gyflogir gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Roedd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn cynnwys pedwar Aelod anweithredol o'r Bwrdd (pump nes i aelod o'r bwrdd adael yng nghanol y flwyddyn). Mae'r Cadeirydd yn aelod ex officio o'r Pwyllgor.

Pennir cydnabyddiaeth ariannol y Cadeirydd ac Aelodau'r Bwrdd gan Weinidogion Cymru. Mae cydnabyddiaeth ariannol uwch gyflogeion (aelodau'r Tîm Gweithredol) yn seiliedig ar delerau ac amodau CNC. Nid yw'r polisi cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer yr aelodau uchaf o staff yn amodol ar gydfargeinio a phennir y pecyn cydnabyddiaeth ariannol drwy gyfeirio at set o rolau meincnodi yn y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru ac mewn sefydliadau tebyg yn y DU. Mae symud ymlaen tuag at y meincnod (sef y gyfradd ar gyfer y swydd) yn amodol ar berfformiad boddhaol. Dim ond ar sail perfformiad eithriadol y defnyddir y ddau bwynt cyflog uchaf.

Mae cytundeb partneriaeth gymdeithasol ar waith a phennir telerau ac amodau ar gyfer pob aelod arall o staff drwy gydgytundeb â'r partneriaid cymdeithasol. Mae Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo unrhyw newidiadau i gyflog, telerau ac amodau ac yn rhoi cylch gwaith cyflog i CNC y mae'n rhaid iddo gyflawni o'i fewn. Llwyddwyd i negodi cytundeb cyflogau ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Gorffennaf 2015 a 30 Mehefin 2016 ym mis Tachwedd 2015. Derbyniodd staff y cyn Fwrdd Draenio Mewnol ddyfarniad cyflog ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 30 Mehefin 2016 er mwyn alinio dyddiadau dyfarniadau cyflog.

Contractau gwasanaeth

Gwneir pob penodiad i'r Bwrdd ar ran y Gweinidog Cyfoeth Naturiol. Fel arfer gwneir penodiadau am ddwy neu dair blynedd.

Disgwylir i'r Prif Weithredwr ac aelodau'r Tîm Gweithredol gael eu cyflogi o dan contractau parhaol. Gwneir penodiadau yn unol â'n polisi recriwtio, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bobl gael eu penodi ar sail teilyngdod ac ar sail cystadleuaeth deg ac agored.

Oni nodir fel arall isod, mae aelodau'r Tîm Gweithredol a gwmpesir gan yr adroddiad hwn yn dal swyddi sy'n ben agored. Mae'n ofynnol i'r swyddogion hyn ac aelodau'r Bwrdd roi tri mis o rybudd eu bod yn bwriadu gadael.

Hawliadau cyflog a phensiwn

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi manylion am gydnabyddiaeth ariannol aelodau'r Bwrdd a chydabyddiaeth ariannol a buddion pensiwn aelodau'r Tîm Gweithredol. Nid oes gan Aelodau'r Bwrdd hawl i ymuno â Phrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil na chael buddiannau eraill. Byddai dod â phenodiad i ben yn gynnar, ac eithrio o ganlyniad i gamymddwyn, yn arwain at roi iawndal i aelodau'r Tîm Gweithredol yn unol â Chynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil. Nid oes gan aelodau'r Bwrdd hawl i gael iawndal.

Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau'r Bwrdd

Aelod o'r Bwrdd	Contract Cyflogaeth	Cyflog 2015/16	Cyflog 2014/15
Karen Balmer ⁶	9-11-15 i 8-11-17	0-5	0
Chris Blake ⁶	9-11-15 i 8-11-17	0-5	0
Dr Michael Brooker	01-11-12 i 31-10-14	0	10-15
Howard Davies ⁶	9-11-15 i 8-11-17	0-5	0
Y Parch Hywel Davies ⁷	01-11-12 i 31-10-15	10-15	20-25
Dr Ruth Hall ¹ CB	01-11-12 i 31-10-17	15-20	20-25
Dr Madeleine Havard (Dirprwy Gadeirydd) ^{1,5}	01-11-12 i 31-10-17	20-25	20-25
Elizabeth Haywood ⁶	9-11-15 i 8-11-17	0-5	0
Zoë Henderson ⁶	9-11-15 i 8-11-17	0-5	0
Harry Legge-Bourke ⁷	01-11-12 i 31-10-15	10-15	20-25
Diane McCrea (Cadeirydd) MBE ⁹	1-12-15 i 30-11-18	5-10	0
Yr Athro Peter Matthews (Cadeirydd) ⁸	01-08-12 i 31-11-15	30-35	50-55
Andy Middleton ^{1,4}	01-11-12 i 31-10-17	15-20	20-25
Nigel Reader ^{1,2} CBE	01-11-12 i 31-10-17	20-25	25-30
Yr Athro Lynda Warren ⁷	01-11-12 i 31-10-15	10-15	20-25
Syr Paul Williams ^{1,3} OBE	01-11-12 i 31-10-17	20-25	25-30

¹ Ailbenodwyd yr aelodau hyn am ddwy flynedd arall o fis Tachwedd 2015 tan 31 Hydref 2017.

² Nigel Reader yw Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

³ Paul Williams yw Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a'r Grŵp Cyngori ar Bontio.

⁴ Andy Middleton yw Cadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchoddedig.

⁵ Penodwyd Madeleine Havard yn Ddirprwy Gadeirydd o fis Rhagfyr 2015 tan fis Hydref 2017 ac fe'i penodwyd yn Gadeirydd Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd Cymru ym mis Mehefin 2015.

⁶ Y cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn yw £12,600.

⁷ Y cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn yw £21,000.

⁸ Y cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn yw £50,000.

⁹ Y cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn yw £28,000.

Cydnabyddiaeth Ariannol y Tîm Gweithredol

Aelod o'r Tîm Gweithredol	Cyflog		Buddiannau mewn da ⁶		Buddion pensiwn ⁷		Total	
	(ystod o £5000)		(£100 agosaf)		(£1,000 agosaf)		(ystod o £5,000)	
	2015/16	2014/15	2015/16	2014/15	2015/16	2014/15	2015/16	2014/15
Dr Emyr Roberts (Prif Weithredwr)	145-150	145-150	0	0	45,000	61,000	190-195	205-210
Martin Britton ¹	0	125-130	0	0	0	0	0	125-130
Martin Britton ²	65-70	15-20	0	0	26,000	6,000	95-100	20-25
Ceri Davies	95-100	95-100	2,400	2,000	47,000	24,000	145-150	120-125
Elizabeth Davis ¹⁰	0	35-40	0	0	0	59,000	0	90-95
Ashleigh Dunn ⁸	90-95	30-35	0	0	35,000	12,000	125-130	45-50
Graham Hillier ³	5-10	90-95	0	3,600	11,000	21,000	15-20	115-120
Kevin Ingram	90-95	90-95	4,000	2,600	35,000	53,000	130-135	145-150
Tim Jones	90-95	85-90	2,700	2,400	40,000	30,000	130-135	120-125
Gareth O'Shea ⁴	85-90	0	2,800	0	179,000	0	265-270	0
Trefor Owen ⁵	90-95	90-95	0	0	34,000	17,000	125-130	105-110
Niall Reynolds	75-80	75-80	0	0	(7,000)	19,000	70-75	90-95
Catherine Smith ⁹	75-80	70-75	0	0	29,000	23,000	100-105	90-95
Clive Thomas	75-80	70-75	0	2,300 ¹¹	48,000	22,000	120-125	95-100

¹ Cyflawnodd Martin Britton rôl y Prif Swyddog Gwybodaeth ar y Tîm Gweithredol o dan contract â'i asiantaeth gyflogaeth tan fis Ionawr 2015. Cymeradwywyd a chefnogwyd y cam gweithredu hwn gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol, yn seiliedig ar yr amgylchiadau eithriadol a oedd yn gysylltiedig â sefydlu ein gwasanaethau TGCh. Ar gyfer 2014/15 mae'r ffigur a nodir fel ei gyflog uchod yn cyfateb i'r costau asiantaeth yr aed iddynt gan CNC (heb gynnwys treuliau) rhwng 1 Ebrill 2014 a mis Ionawr 2015.

² Yn dilyn adolygiad gan y Prif Weithredwr ac ar ôl cael cadarnhad gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol penderfynwyd penodi Prif Swyddog Gwybodaeth parhaol. Martin Britton oedd yr ymgeisydd llwyddiannus ac roedd yn un o gyflogeion llawn amser CNC rhwng 1 Chwefror 2015 a 31 Rhagfyr 2015. Nodir uchod y costau cyflog perthnasol ar gyfer y cyfnod rhwng Chwefror 2015 a mis Mawrth 2015 a rhwng Ebrill 2015 a Rhagfyr 2015. Y cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn ar gyfer 2014/15 a 2015/16 yw £90-95,000.

³ I 26 Ebrill 2015. Y cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn yw £90-95,000.

⁴ Penodwyd Gareth O'Shea yn Gyfarwyddwr Gweithredol y De ar 26 Ebrill 2015. Mae'r ffigurau a ddyfynnir ar gyfer y cyfnod rhwng 27/04/15 a 31/3/16. Y cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn yw £90-95,000.

⁵ Gorffennodd Trefor Owen ar 31 Mawrth 2016.

⁶ Yn ymwneud â darparu car dynodedig.

⁷ Cyfrifir gwerth buddion pensiwn a gronwyd yn ystod y flwyddyn fel (y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn wedi'i luosi ag 20) a (y cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad) llai (cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant nac unrhyw gynydd neu leihad sydd i'w briodoli i drosglwyddo hawliau pensiwn.

⁸ Penodwyd Ashleigh Dunn yn Gyfarwyddwr Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl ar 17 Tachwedd 2014. Mae'r ffigurau a ddyfynnir i 2014/15 ar gyfer y cyfnod rhwng 17/11/14 a 31/3/15. Y cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn yw £90-95,000.

⁹ Penodwyd Catherine Smith yn Gyfarwyddwr Cysylltiadau Allanol a Chyfathrebu ar 22 Ebrill 2014. Mae'r ffigurau a ddyfynnir i 2014/15 ar gyfer y cyfnod rhwng 22/4/14 a 31/3/15. Y cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn yw £75-80,000.

¹⁰ Roedd Elizabeth Davis yn gweithio fel rhan o Raglen Cymru Fyw Llywodraeth Cymru ac ar secondiad ffurfiol o Lywodraeth Cymru rhwng 1 Ebrill 2013 a 31 Gorffennaf 2014. Y cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn yw £105-110,000.

¹¹ Tan 5 Tachwedd 2014.

Cyflog

Mae cyflog yn cynnwys symiau pensiynadwy a symiau nad ydynt yn bensiynadwy ac mae'n cynnwys cyflog gros, goramser ac unrhyw lwfansau neu daliadau sy'n agored i drethiant y DU. Nid yw'n cynnwys symiau a delir er mwyn ad-dalu treuliau yr aed iddynt yn uniongyrchol wrth gyflawni dyletswyddau unigolyn.

Cyflog yn gysylltiedig â pherfformiad

I'r Tîm Gweithredol, mae symudiad rhwng y pwyntiau cyflog yn amodol ar asesiad o berfformiad gan y Prif Weithredwr a chymedroli gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol. Bydd unrhyw symudiad sydd y tu hwnt i'r pwynt meincnodi yn seiliedig ar berfformiad rhagorol cyson yn unig fel yr asesir gan y Prif Weithredwr ac fel y cadarnheir gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol.

Buddiannau mewn da

Mae gwerth ariannol buddiannau mewn da yn cwmpasu unrhyw fuddiannau a ddarperir gan y cyflogwr ac a gaiff eu trin gan Cyllid a Thollau EM yn dâl trethadwy. Mae'r rhai a ddangosir uchod yn ymwneud â darparu ceir ar brydles.

Ni dderbyniodd yr un o Aelodau'r Bwrdd nac unrhyw uwch aelod o staff unrhyw gydnabyddiaeth ariannol heblaw'r hyn a nodir uchod.

Buddion Pensiwn

Aelod o'r Tîm Gweithredol	Pensiwn Cronedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn ar 31/3/16	Cyfandaliad Cronedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn ar 31/3/16	Cynnydd Gwirioneddol mewn pensiwn ar ôl cyrraedd oedran pensiwn	Cynnydd Gwirioneddol mewn Cyfandaliad Cronedig ar ôl cyrraedd oedran pensiwn	Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) ar 31/03/16 ⁴	Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) ar 31/03/15 ⁴	Cynnydd Gwirioneddol mewn CETV
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
Dr Emyr Roberts (Prif Weithredwr)	60-65	185-190	0-2.5	5-7.5	1388	1251	43
Martin Britton ¹	0-5	0	0-2.5	0	14	3	6
Ceri Davies	30-35	60-65	2.5-5	0-2.5	597	533	26
Ashleigh Dunn	0-5	0	0-2.5	0	40	10	22
Graham Hillier ²	50-55	15-20	0-2.5	0-2.5	722	714	7
Kevin Ingram	25-30	35-40	0-2.5	0-2.5	343	303	14
Tim Jones	35-40	105-110	0-2.5	5-7.5	703	611	33
Gareth O'Shea ³	35-40	75-80	7.5-10	15-17.5	574	422	119
Trefor Owen	40-45	0	0-2.5	0	720	634	26
Niall Reynolds	30-35	65-70	0-2.5	(2.5-5)	599	582	(15) ⁵
Catherine Smith	0-5	0	0-2.5	0	31	13	10
Clive Thomas	20-25	60-65	2.5-5	0-2.5	390	327	29

¹ i 31/12/15

² i 26/4/15

³ o 27/4/15

⁴ adolygwyd y ffactorau a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r CETV gan actwari'r cynllun yn 2015, felly nid yw'r tablau o ffactorau a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r CETV yn 2015 yr un fath â'r rhai ddefnyddiwyd i gyfrifo'r CETV yn 2016.

⁵ ar ôl ystyried chwyddiant, mae'r CETV a ariannwyd gan y cyflogwr wedi gostwng mewn termau real.

Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth wedi'i gyfalafu a aseswyd yn actiwaraid o fuddiannau'r cynllun pensiwn sydd wedi'u cronni gan aelod ar adeg benodol. Y buddiannau a gaiff eu prisio yw buddiannau cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol priod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn diogelu buddion pensiwn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn penderfynu trosglwyddo'r buddiannau a gronnwyd yn ei hen gynllun. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddiannau a gronnwyd gan yr unigolyn o ganlyniad i'w aelodaeth lawn o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd ar lefel uwch y mae datgeliad yn gymwys iddo.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiant pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiant pensiwn ychwanegol sydd wedi'i gronni i'r aelod o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei draul ei hun. Cyfrifir CETVs yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw leihad gwirioneddol neu bosibl mewn buddiannau sy'n deillio o Dreth Lwfans Oes a all fod yn ddyledus pan fydd buddion pensiwn yn cael eu codi.

Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun pensiwn neu drefniant arall) ac yn defnyddio ffactorau cyffredin prisio'r farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Datgelu taliadau teg

Mae'n rhaid i CNC a chyrrff tebyg ddatgelu'r berthynas rhwng cydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwr sy'n derbyn y taliad uchaf yn eu sefydliad a chydabyddiaeth ariannol canolrif gweithlu'r sefydliad. Mae cyfanswm y gydnabyddiaeth ariannol yn cynnwys cyflog a buddiannau mewn da. Nid yw'n cynnwys taliadau ymadael, cyfraniadau pensiwn cyflogwyr a gwerthoedd trosglwyddo pensiwn sy'n gyfwerth ag arian parod.

Yn 2015/16, ni dderbyniodd unrhyw gyflogeion (2014/15: dim) gydnabyddiaeth ariannol a oedd yn uwch na'r cyfarwyddwr dderbyniodd y taliad uchaf. Roedd cydnabyddiaeth ariannol y Cyfarwyddwr dderbyniodd y taliad uchaf yn y flwyddyn ariannol 2015/16 yn y band £145,000-£150,000 (2014/15 £145,000-£150,000). Roedd hyn 5.2 gwaith (2014/15, 5.0 gwaith) cydnabyddiaeth ariannol canolrif y gweithlu, sef £28,215 (2014/15 £29,535). Mae'r newid yn y cyflog canolrif wedi digwydd o ganlyniad i unioni graddfeydd cyflog a mwy o staff yn cael eu cyflogi ar gyfraddau is. Mae graddfeydd cyflog staff yn amrywio o £12,250 i £64,624. Dangosir cydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwyr yn y tabl uchod.

Adroddiad staff

Nifer y staff yn ôl cyfrif pennau a'r nifer cyfwerth ag amser llawn (FTE) ar 31 Mawrth 2016.

	Gwryw		Benyw		Cyfanswm	
	Cyfrif pennau	FTE	Cyfrif pennau	FTE	Cyfrif pennau	FTE
Holl gyflogeion	1222	1197.8	886	802.5	2108	2000.3
o'r rheiny:						
Tîm arweinyddiaeth	21	21.0	8	7.1	29	28.1
Tîm gweithredol	6	6.0	3	3.0	9	9.0

Nifer y bobl gyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn:

	2015/16		2014/15	
	Staff Parhaol	Eraill	Cyfanswm	Cyfanswm
Cyflogwyd yn uniongyrchol	1,855	57	1,912	1,905
Staff asiantaeth a chontractwyr	0	89	89	47
Cyfanswm	1,855	146	2,001	1,952

Cyflogwyd 75.8 o aelodau o staff cyfwerth ag amser llawn ar brosiectau cyfalaf (50 yn 2014/15)

Costau Staff

	2015/16		2014/15	
	Staff Parhaol £'000	Staff Eraill £'000	Cyfanswm £'000	Cyfanswm £'000
Cyflogau	57,822	7,747	65,569	62,372
Costau nawdd cymdeithasol	4,724	100	4,824	4,739
Costau pensiwn eraill	13,452	13	13,465	12,177
Cyfanswm costau cyflogau net	75,998	7,860	83,858	79,288
Gwariant arall i staff				
Costau pecynnau ymadael			32	2,790
Tâl gwasanaeth ychwanegol IAS 19 (Pensiynau)			8,325	7,323
Llai costau pensiwn ar gyfer ymddeoliad cynnar			(144)	(97)
Llai cyfraniadau pensiwn i LGPS yn ystod y flwyddyn			(7,936)	(7,216)
Trosglwyddo i Ddarpariaeth ar gyfer Taliadau lawndal Blynyddol			(2)	5
Costau staff eraill			341	0
Symudiad yn Tâl Gwyliau Cronedig			(159)	81
Cyfanswm gwariant arall i staff			557	2,886
Llai symiau a godwyd ar brosiectau cyfalaf			(3,176)	(2,019)
Cyfanswm costau staff			<u>81,239</u>	<u>80,155</u>

Ceir manylion trefniadau pensiwn CNC yn nodyn 13.

Mae manylion am gydnabyddiaeth ariannol aelodau'r bwrdd a'r cyfarwyddwyr wedi'u cynnwys yn yr adroddiad cydnabyddiaeth ariannol.

Mae gwasanaeth a brynwyd i mewn yn Nodyn 5 (Gwariant arall) yn cynnwys gwariant o £6.58m ar ymgynghorwyr.

Cynlluniau pensiwn

Mae CNC yn aelod o ddau gynllun pensiwn. Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn gynllun agored a dyma'r cynllun i gyn staff Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru, ac aelodau staff newydd. Mae CNC yn aelod caeedig o gronfa bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd (cronfa bensiwn Llywodraeth Leol) dan gytundeb derbyn cymunedol. Ceir manylion pellach o'r cynlluniau pensiwn hyn isod.

Cyfraniadau i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a Chynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) – a elwir yn “alpha” yn gynlluniau buddiannau diffiniedig amlgyflogwr nas ariennir ond ni all Cyfoeth Naturiol Cymru nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Prsiodd actiwari'r cynllun y cynllun ar 31 Mawrth 2012. Ceir manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet : Civil Superannuation yn www.civilservicepensionscheme.org.uk/about-us/resource-accounts/

Ar gyfer 2015/16, roedd cyfraniadau cyflogwyr gwerth £5,663k yn daladwy i'r PCSPS (roedd y cyfraniadau yn 2014/15 yn cyfateb i £4,931k) ar un o'r pedair cyfradd yn yr amrediad 20.0% i 24.5% o enillion pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Fel arfer mae Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr bob pedair blynedd yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Pennir y cyfraddau cyfrannu i dalu cost y buddiannau sy'n cronni yn ystod 2015/16 a delir pan fydd yr aelod yn ymddeol ac nid y buddiannau a delir yn ystod y cyfnod hwn i bensiwnwyr presennol.

Pensiynau partneriaeth rhanddeiliaid

Gall cyflogeion ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, sef pensiwn rhanddeiliaid gyda chyfraniad gan y cyflogwr. Talwyd cyfraniadau cyflogwyr gwerth £44k i un neu ragor o'r panel o dri darparwr pensiwn rhanddeiliaid penodedig. Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn gysylltiedig ag oedran ac yn amrywio o 3% i 12.5% o enillion pensiynadwy hyd at 30 Medi 2015 ac o 8% i 14.75% o enillion pensiynadwy o 1 Hydref 2015. Bydd cyflogwyr hefyd yn talu cyfraniad sy'n cyfateb i gyfraniad y cyflogai hyd at 3% o enillion pensiynadwy. Yn ogystal, roedd cyfraniadau cyflogwyr gwerth £2k, sef 0.5% o gyflog pensiynadwy, yn daladwy i'r PCSPS i dalu cost darparu buddiannau yn y dyfodol ar ffurf cyfandaliad ar farwolaeth mewn gwasanaeth neu ymddeoliad oherwydd salwch y cyflogeion hyn.

Nid oedd cyfraniadau yn ddyledus i'r darparwyr pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y fantolen a ni thalwyd unrhyw gyfraniadau ymlaen llaw.

Cyfraniadau i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwneud taliadau i Gronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd (EAPF), fel Awdurdod Gweinyddu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) drwy Capita, sef gweinyddwyr y gronfa bensiwn.

Mae LGPS yn gynllun pensiwn statudol a ariennir â chyfraniadau diffiniedig (EAPF) i'r gwasanaeth cyhoeddus. Mae Hymans Robertson, sef actiwari'r EAPF, yn cynnal prisiad o asedau a rhwymedigaethau'r Gronfa bob tair blynedd er mwyn sicrhau bod buddiannau LGPS wedi'u hariannu'n briodol. Bwriedir i asedau'r gronfa dalu rhwymedigaethau pensiwn yn y dyfodol. Prif ddiben y prisiad actiwaraidd yw adolygu sefyllfa ariannol y gronfa a phennu lefel cyfraniadau yn y dyfodol ar gyfer cyflogwyr yn y gronfa. Cynhaliwyd y prisiad diweddaraf ar 31 Mawrth 2013 ar gyfer y cyfnod o dair blynedd rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2017.

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru Gytundeb Mynediad Cymunedol ag EAPF er mwyn cymryd rhan yn LGPS, a gymeradwywyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau a Llywodraeth Leol mewn perthynas â staff hen Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a drosglwyddwyd i Cyfoeth Naturiol Cymru ar 1 Ebrill 2013. Trosglwyddwyd y rhwymedigaethau ar gyfer cyn-aelodau a gyflogwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd mewn perthynas â swyddogaethau Cymreig (pensiynau a oedd yn cael eu talu ac aelodau gohiriedig) hefyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio gwarant ag EAPF i'w hindemnio rhag unrhyw rwymedigaethau sy'n codi o ganlyniad i Cyfoeth Naturiol Cymru yn cymryd rhan yn EAPF.

Ar gyfer 2015/16 cyfradd gyfrannu'r cyflogwr oedd 21.2%. (Y gyfradd gyfrannu yn 2014/15 oedd 20.2%). Yn 2015/16 talwyd cyfraniadau cyflogwr gwerth £7,936k i LGPS. (Roedd y cyfraniadau yn 2014/15 yn cyfateb i £7,216k).

Pecynnau ymadael

Nifer y staff yn derbyn pecynnau ymadael yn ôl band costau:	2015/16	2014/15
O dan £10,000	4	0
£10,001 - £25,000	3	10
£25,001 - £50,000	0	18
£50,001 - £100,000	0	29
£100,001 - £150,000	0	1
Dros £150,000	0	0
Cyfanswm	7	58

Cyfanswm costau adnoddau ar gyfer 2015/16 oedd £63k. (Cyfanswm y gost oedd £2,884k yn 2014/15)

Ni chafwyd unrhyw ddiswyddiadau gorfodol yn 2015/16 nac yn 2014/15.

Mae'r costau ymadael gwirfoddol wedi'u talu yn unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, sy'n gynllun statudol a luniwyd o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Rhoddir cyfrif am gostau ymadael yn llawn yn y flwyddyn y cytunir arnynt. Os cytunodd y cyrff etifeddol ar ymddeoliadau cynnar, rhoddwyd cyfrif am y costau yn llawn yn y flwyddyn y cytunwyd arnynt, a darparwyd ar gyfer ymrwymadau yn y dyfodol. Dangosir y taliadau iawndal blynyddol a wnaed mewn perthynas â'r rhain yn Nodyn 12 (Darpariaethau).

Telir costau ymddeol oherwydd salwch gan y cynlluniau pensiwn ac nis cynhwysir yn y tabl.

Absenoldeb oherwydd Salwch (heb ei archwilio)

Roedd ein cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch ar 31 Mawrth 2016 yn dangos bod 5.2 o ddyddiau wedi'u colli ar gyfartaledd fesul pob gweithiwr cyflogedig sydd gyfwerth â 2.37%. Roedd hyn yn erbyn targed o hyd at 7 o ddyddiau wedi'u colli ar gyfartaledd, sydd gyfwerth â 3.1% o'r dyddiau gweithio oedd ar gael.

Ymrwymadau oddi ar y gyflogres (heb ei archwilio)

Yn 2012 cyhoeddodd y Trysorlys adolygiad o drefniadau treth penodeion y sector cyhoeddus er mwyn nodi'r holl drefniadau a allai alluogi penodeion y sector cyhoeddus i leihau eu taliadau treth. Daeth yr adolygiad i'r casgliadau canlynol:

- mae'n rhaid talu'r aelodau uchaf o staff ar y gyflogres, oni bai bod amgylchiadau eithriadol dros dro y byddai angen i'r Swyddog Cyfrifyddu eu cymeradwyo ac na allent bara am fwy na chwe mis
- mae'n rhaid i adrannau (a'u cyrff hyd braich) allu ceisio sicrwydd ffurfiol gan contractwyr â threfniadau nad ydynt ar y gyflogres sy'n para am fwy na chwe mis ac sy'n costio mwy na £220 y diwrnod, fod rhwymedigaethau o ran treth incwm ac yswiriant gwladol yn cael eu cyflawni. Os na roddir y sicrwydd hwnnw, dylid terfynu contractau
- mae'n ofynnol i adrannau (a'u cyrff hyd braich) gyflwyno adroddiad ar ganlyniad cymhwyso'r egwyddorion uchod i Senedd y DU fel rhan o'u Hadroddiad Blynyddol a'u Cyfrifon.

Dengys y tablau canlynol ein sefyllfa mewn perthynas â'r casgliadau hyn.

Ar gyfer trwy'r dydd ac yn para'n fwy na chwe mis	Nifer y contractwyr
Cyfanswm yr ymrwymadau presennol ar 31 Mawrth 2016	27
O'r cyfanswm hwnnw:	
Nifer yr ymrwymadau sydd wedi bodoli am lai na blwyddyn ar adeg adrodd	6
Nifer yr ymrwymadau sydd wedi bodoli am rhwng blwyddyn a dwy flynedd ar adeg adrodd	18
Nifer yr ymrwymadau sydd wedi bodoli am rhwng dwy a thair blynedd ar adeg adrodd	3
Nifer yr ymrwymadau sydd wedi bodoli am rhwng tair a phedair blynedd ar adeg adrodd	0
Nifer yr ymrwymadau sydd wedi bodoli am bedair blynedd neu fwy ar adeg adrodd	0

Ar gyfer swyddi newydd all-gyflogres, neu'r rheini oedd fwy na chwe mis, rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016, am fwy na £220 y dydd ac sy'n para mwy na chwe mis	Nifer y contractwyr
Nifer yr ymrwymadau newydd, neu'r rhai sydd wedi para chwe mis, yn ystod y cyfnod o amser	12
Nifer yr ymrwymadau hyn sy'n cynnwys cymalau cytundebol sy'n rhoi'r hawl i'r adran ofyn am sicrwydd mewn perthynas â rhwymedigaethau treth incwm ac Yswiriant Gwladol	12
Nifer yr ymrwymadau y gofynnwyd am sicrwydd mewn perthynas â hwy	5
O'r cyfanswm hwnnw	
<ul style="list-style-type: none"> • Nifer yr ymrwymadau y gofynnwyd am sicrwydd mewn perthynas â hwy ac fe'i cafwyd 	5
<ul style="list-style-type: none"> • Nifer yr ymrwymadau y gofynnwyd am sicrwydd mewn perthynas â hwy ond nis cafwyd 	0
Nifer yr ymrwymadau a derfynwyd am nad oedd sicrwydd wedi'i gael	0

Adroddiad Seneddol ac Archwilio (archwiliedig)

Colledion a thaliadau arbennig

Mae rheolau Llywodraeth Cymru ar Reoli Arian Cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i golledion a thaliadau arbennig gael eu datgan yn ôl categori, math a gwerth pan fyddant fel cyfanswm yn werth mwy na £300,000 ac ar gyfer unrhyw eitemau unigol sy'n werth mwy na £300,000.

Colledion unigol a oedd yn werth mwy na £300k

Nid oedd unrhyw golledion na thaliadau arbennig a oedd yn werth mwy na £300k yn ystod 2015/16.

Crëwyd darpariaeth o £1,201k ar gyfer y prosiect Cymunedau a Natur yn 2014/15 a defnyddiwyd hwn yn ystod 2015/16. Nid yw hwnnw felly wedi'i gynnwys yn Nodyn 5 yn y cyfrifon hyn.

Colledion a thaliadau arbennig yn ôl categori

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y ceisiadau ar gyfer dileu gwariant a thaliadau arbennig a gymeradwywyd yn y flwyddyn.

Categori neu fath o golled	Nifer 2015/16	2015/16 £'000	Nifer 2014/15	2014/15 £'000
Asedau a ddilëwyd	56	280	38	187
Dileu gwariant yn ymwneud â'r Prosiect Cymunedau a Natur	1	57	1	455
Asedau a ddilëwyd	135	456	145	626
Asedau a gollwyd	0	0	3	320
Colledion eraill (arian parod a gollwyd, taliadau diffrwyth, hawliadau na ellid eu gorfodi, taliadau arbennig neu roddion)	15	57	20	178
Cyfanswm	207	850	207	1,766

Dr Emyr Roberts
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

Dyddiad: 2 Mawrth 2017

Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Yr wyf yn tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru am y flwyddyn yn diwedd ar 31 Mawrth 2016 dan baragraff 23 o'r Atodiad i Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012. Mae'r rhain yn cynnwys Datganiad am Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad am Sefyllfa Ariannol, Datganiad am lif Arian, Datganiad am Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a nodiadau cysylltiedig. Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi dan y polisïau cyfrifo sydd wedi'u gosod allan o'u mewn. Yr wyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth sy'n cael ei disgrifio yn yr adroddiad hwnnw fel un wedi'i harchwilio.

Cyfrifoldebau cyfatebol y Swyddog Cyfrifo a'r archwilydd

Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo, mae'r Swyddog Cyfrifo yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol, yn unol â Pharagraff 23 o'r Atodiad i Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 a chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed dan hyn ac am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd am y datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith sy'n gymwys ac â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DG ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol y Cyngor Adroddiad Ariannol i Archwilwyr. Yr wyf yn ystyried bod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i fod yn sail ar gyfer y farn archwilio rheoleidd-dra gymwys.

Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn golygu cael tystiolaeth am symiau a datgeliadau yn yr adroddiadau ariannol yn ddigonol i roi sicrwydd rhesymol fod y datganiadau ariannol yn rhydd o unrhyw gamddatganiad sylweddol, boed drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesiad o'r canlynol: a yw'r polisïau cyfrifo'n briodol i amgylchiadau Adnoddau Naturiol Cymru ac wedi'u defnyddio'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifo sylweddol a wneir gan Gyfoeth Naturiol Cymru; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

Yn ogystal, byddaf yn cael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol fod y gwariant a'r incwm wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Yn ogystal, byddaf yn darllen yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Blynyddol i nodi anghysondebau sylweddol â'r datganiadau ariannol sydd wedi'u harchwilio, ac i nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos yn sylweddol anghywir yn seiliedig ar neu'n sylweddol anghyson â'r wybodaeth a gefais yn ystod cyflawni'r archwiliad. Os dof i wybod am unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau sy'n ymddangos yn sylweddol, byddaf yn ystyried y goblygiadau ar gyfer fy nhystysgrif a'm hadroddiad.

Barn am y Datganiadau Ariannol

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi barn gywir a theg am gyflwr busnes Cyfoeth Naturiol Cymru ar 31 Mawrth 2016 ac am ei gostau gweithredu net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a drafodwyd dan Baragraff 23 o'r Atodiad i Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012.

Sail ar gyfer tymheru barn ar reoleidd-dra

Mae Nodyn 6 yn y cyfrifon yn cofnodi incwm o goed o £16.5 miliwn yn 2015-16.

Dan fframwaith awdurdod Cyfoeth Naturiol Cymru, mae'n ofynnol cyfeirio unrhyw weithgareddau sy'n ymddangos yn newydd, yn ddadleuol neu'n ôl-effeithiol at yr adran noddi yn Llywodraeth Cymru. Ni chyfeiriodd Cyfoeth Naturiol Cymru at ei adran noddi ei benderfyniad i ymgymryd â chyfres o gontractau cysylltiedig i werthu coed yr wyf yn eu hystyried yn ddadleuol ac ôl-effeithiol.

Felly, yr wyf yn barnu bod y trafodion yn ymwneud â'r contractau hyn yn afreolaidd. Gan fod y trafodion hyn yn berthnasol i'r datganiadau ariannol, yr wyf wedi tymheru fy marn ar reoleidd-dra yn unol â hynny.

At hynny, nid oedd digon o dystiolaeth i ddod i gasgliad am yr un trafodion hyn o ran cyfreithlondeb gwneud y penderfyniadau a chydymffurfio â rheolau cymorth y Wladwriaeth. Felly, yr oeddwn yn methu â bodloni fy hun am gyfreithlondeb y trafodion, ac felly yr wyf hefyd wedi tymheru fy marn ar reoleidd-dra yn unol â hynny.

Mae manylion pellach am y materion hyn i'w gweld yn fy Adroddiad cysylltiedig ar dudalennau 45 i 49.

Tymheru barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ar wahân i effeithiau'r methiant i gydymffurfio â'i fframwaith awdurdod ac effeithiau posibl tystiolaeth annigonol i lunio casgliad am gydymffurfio ag egwyddorion cyfraith gwlad wrth wneud penderfyniadau a chydymffurfio â rheolau cymorth y wladwriaeth, fel y disgrifiwyd yn y paragraffau uchod 'sail ar gyfer tymheru barn ar reoleidd-dra', ym mhob agwedd o bwys mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth sydd i gael ei harchwilio wedi ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed dan Baragraff 23 o'r Atodiad i Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012; ac
- mae'r wybodaeth yn yr Adroddiad Blynnyddol yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Materion yr wyf yn rhoi adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd am y materion canlynol sydd yn fy adroddiad i chi os digwydd y canlynol, yn fy marn i:

- os nad yw'r Datganiad Llywodraethiant yn adlewyrchu cydymffurfio â chanllaw Gweinidogion Cymru;
- os nad oes cofnodion cyfrifo digonol wedi'u cadw;
- os nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth sydd i gael ei harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifo a'r ffurflenni; neu
- os nad oes gwybodaeth a bennir gan Weinidogion Cymru am y gdnabyddiaeth a thrafodion eraill wedi'i datgelu.

Ar wahân i'r trafodion y cyfeiriwyd atynt yn y paragraffau uchod 'sail ar gyfer tymheru barn ar reoleidd-dra', yr wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n ofynnol arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio'r cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Cyfoeth Naturiol Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am waith cynnal a chadw a chywirdeb gwefan Cyfoeth Naturiol Cymru; nid yw'r gwaith a wneir gan archwilwyr yn ystyried y materion hyn ac o'r herwydd nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol er iddynt gael eu cyflwyno yn y lle cyntaf ar y wefan.

Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
2 Mawrth 2017

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Cathedral Road
Caerdydd
CF11 9LJ

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru Contractau Gwerthu Coed

1. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn gorff a noddir gan Lywodraeth Cymru ac a ffurfiwyd er mwyn sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn cael eu:
 - cynnal yn gynaliadwy;
 - gwella yn gynaliadwy; ac
 - yn cael eu defnyddio'n gynaliadwy.¹
2. Daeth CNC yn weithredol ar 1 Ebrill 2013, gan gymryd cyfrifoldeb am swyddogaethau tri chorff etifeddiaeth sef Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru. Bu i CNC reoli dwy flynedd gyntaf ei ddatblygiad fel cyfnod 'pontio', gan anelu at sicrhau dilyniant wrth ddod â swyddogaethau ei gyrff etifeddiaeth ynghyd. Yn Chwefror 2016, cyhoeddais adroddiad Gwerth am Arian ar ddatblygiad CNC gan ddod i'r casgliad bod: 'CNC wedi mabwysiadu dull cadarn a threfnus i ymdopi â'r heriau mawr a oedd yn codi yn sgil ei greu; gan sicrhau dilyniant o ran cyflawni ei ystod eang o swyddogaethau, a gyda phwyslais clir ar gyflawni'r buddiannau a fwriadwyd'.² Er gwaethaf y materion a godir yn yr adroddiad hwn, rwy'n parhau i fod yn fodlon bod dull CNC o reoli'r cyfnod pontio wedi bod yn gadarn a threfnus.
3. Yn ôl paragraff 23 Atodlen 1 Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012, mae'n rhaid i fi archwilio ac ardystio datganiad o gyfrifon CNC ac adrodd arno. Mae fy nhystysgrif archwilio ar dudalennau 42 a 44 yn nodi fy marn bod y datganiadau o gyfrifon yn rhoi 'darlun gwir a theg'.
4. Mae fy nhystysgrif hefyd yn cynnwys fy marn 'reoleiddiol', h.y. fy marn ynghylch a yw'r gwariant a'r incwm a ddangosir yn y cyfrifon yn cyd-fynd â'r diben a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac a yw'r trafodion yn cydymffurfio gyda'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Eleni, rwyf wedi amodi fy marn reoleiddiol ar sail y ffaith nad oedd trefniadau awdurdodi wyth contract gwerthu coed cydberthnasol yn cydymffurfio gyda'r fframwaith awdurdodi y mae CNC yn gweithio o'i fewn. Ymhellach, yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd gan CNC mewn perthynas â'i brosesau gwneud penderfyniadau, nid wyf wedi llwyddo i'm bodloni fy hun bod y penderfyniad i gytuno ar y contractau hynny yn gyfreithlon ac nad oeddynt yn cynnwys elfen o gymorth Gwladwriaethol.
5. Roedd yn rhaid i fi ymgymryd ag ymholiadau archwilio eang nad oedd wedi'u cynllunio i'm galluogi i roi fy marn archwilio 'gwir a theg' a fy marn reoleiddiol. Mae'r materion dan sylw yn rhai cyfreithiol cymhleth a bu'n rhaid i CNC gasglu llawer iawn o ddogfennau ynghyd. Roedd angen hefyd i archwilwyr, a oedd yn gweithredu ar fy rhan, adolygu'r ddogfennaeth a cheisio cyngor cyfreithiol allanol ar y materion.
6. Mae'r Gorchymyn Sefydlu yn nodi dyddiad cau ar gyfer gosod y datganiad cyfrifon ardystiedig ac ar gyfer cyflwyno fy adroddiad archwilio i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn pedwar mis ar ôl i CNC gyflwyno'r datganiad cyfrifon i fi ar gyfer ei archwilio. Cyflwynodd CNC ei ddatganiad ar 23 Awst 2016, ac felly'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno oedd 23 Rhagfyr 2016. Fodd bynnag, nid yr amserlen yw'r unig ofyniad statudol sy'n berthnasol i'r archwiliad. Mae dyletswydd statudol arnaf hefyd i gydymffurfio gyda'r Cod Ymarfer Archwilio ('y Cod') yn unol ag adran 10 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ('Deddf 2013'). Mae'r Cod yn cynnwys sawl gofyniad, sy'n adlewyrchu'r angen i

¹ Mae Deddf yr Amgylchedd Cymru 2016 wedi diwygio diben cyffredinol Corff Adnoddau Naturiol Cymru i: "Mae'n rhaid i'r Corff ymgymryd at reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol mewn perthynas â Chymru a chymhwyso egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol, wrth arfer ei swyddogaethau, i'r graddau y bo hynny'n gyson â'u harfer yn briodol."

² Datblygiad Cyfoeth Naturiol Cymru, Chwefror 2016

<http://audit.wales/system/files/publications/Development of Natural Resources Wales English 2016.pdf>

ymgymryd â swyddogaethau archwilio yn iawn, gan gynnwys cynnig cyfle i gyrff sy'n cael eu harchwilio a thrydydd partion perthnasol roi sylwadau ar y canfyddiadau.

7. Yn yr amgylchiadau, ni fu'n bosibl cyflawni gofynion Deddf 2013 a'r amserlen a nodir gan y Gorchymyn Sefydlu. Yn wyneb anghysondebau'r dyletswyddau statudol, fe'm cyngorwyd gan fy nghyngorydd cyfreithiol ei bod yn briodol rhoi mwy o sylw i ofynion Deddf 2013 a'r Cod, ac rwyf felly wedi cwblhau fy archwiliad yn unol â hynny. Roedd yn bwysig cwblhau'r broses ymchwilio yn drylwyr, gan gynnwys ceisio sylwadau o'r corff a archwiliwyd a thrydydd partion perthnasol er mwyn bodloni gofynion y Cod a hefyd i sicrhau bod casgliadau'r archwilio yn ddigon cadarn.
8. Un o'r heriau gweithredol allweddol a fu'n wynebu Comisiwn Coedwigaeth Cymru cyn uno'r cyrff oedd sut i reoli ymlediad *Phytophthora Ramorum* (*P Ramorum*) mewn coedwigoedd a choetiroedd llarwydd. Mae *P Ramorum* yn bathogen sy'n debyg i ffwng ac yn peri difrod ar raddfa eang ac yn lladd ystod eang o goed a phlanhigion eraill. Canfuwyd *P Ramorum* ar goed llarwydd Japaneaidd yng Nghymru yn 2010. Ymdrechwyd i reoli'r afiechyd rhag ymledu drwy dargedu coed a'u torri, ond ymledodd yr afiechyd yn sydyn. Roedd yr her yma yn wynebu CNC ar ôl iddo gael ei sefydlu, ac roedd yn rhaid gweithredu'n sydyn i reoli'r afiechyd. Yn ystod misoedd yr haf 2013, gwelodd CNC bod cynnydd sydyn yn ymlediad *P Ramorum* ac roedd yn rhaid canfod ateb tymor-hir i ddelio gyda'r afiechyd. Mae CNC wedi dweud wrthyf mai ei brif fwriad wrth wynebu'r her hwn oedd cynyddu capasiti ar gyfer delio gyda'r llarwydd heintiedig ac osgoi amharu ar drefniadau masnachu sefydledig mathau eraill o goed.
9. Ym Mai 2014, trefnodd CNC Femorandwm Cytundeb gyda gweithredwr melin goed ("gweithredwr y felin lifio"). Roedd y Memorandwm Cytundeb yn ymwneud ag wyth contract gwerthu coed cydberthnasol. Yn ôl y telerau'r contract, cytunodd CNC i werthu coed sy'n sefyll a phren sydd wedi'i gwmpo'n barod i weithredwr y felin lifio. Cytunodd gweithredwr y felin lifio hefyd, fel amod o'r contract, y byddai'n adeiladu ac yn gweithredu llinell lifio newydd ar ei safle yng Nghymru erbyn 31 Mawrth 2016.
10. Rwy'n amcangyfrif bod y pris prynu y cytunodd gweithredwr y felin lifio gyda CNC yn cyfateb i oddeutu £72 miliwn dros oes deng mlynedd y contractau. Fodd bynnag, mae hawl gan weithredwr y felin lifio i dynnu costau y cytunwyd arnynt allan o'r pris prynu sef costau torri coed, tynnu'r coed, cludo'r coed a ffioedd rheoli. O ganlyniad, mae CNC yn amcangyfrif y bydd gwerth y contract i CNC oddeutu £39 miliwn dros gyfnod deng mlynedd y contract.
11. Mae CNC wedi amcangyfrif y bydd cyfanswm y pren a werthir yn flynyddol i weithredwr y felin lifio yn ôl telerau'r contract hwn yn cyfateb i rhwng 20% a 25% o'r holl bren sy'n cael ei ryddhau'n flynyddol gan CNC.
12. Yn ystod fy ngwaith o archwilio cyfrifon 2015/16 CNC, derbyniais ohebiaeth oddi wrth unigolyn â diddordeb yn mynegi pryderon ynghylch y ffordd yr oedd CNC wedi dyfarnu contractau i weithredwr y felin lifio ym Mai 2014. Roedd y pryderon hyn yn cynnwys:
 - (a) bod CNC wedi dyfarnu'r contractau ar gyfer gwerthu coed pyrwydd heb geisio cystadleuaeth o'r farchnad;
 - (b) diffyg tryloywder o fewn prosesau gwneud penderfyniadau CNC;
 - (c) nad oedd y buddsoddiad yn safle gweithredwr y felin lifio yng Nghymru, a oedd yn rhan o'r contract, wedi digwydd;
 - (d) effaith dyfarnu contractau tymor-hir swm uchel i un cyflenwr ar y farchnad gyflenwi ehangach; ac
 - (e) a oedd y penderfyniad i ddyfarnu'r contractau i un gweithredwr melin lifio yn cynrychioli gwerth da am arian.
13. Roedd y pryderon hyn yn edrych i fi fel petaent yn codi cwestiynau ynghylch priodoldeb y trafodion yn ymwneud â'r cytundebau a lofnodwyd ym Mai 2014, ac rwyf felly wedi archwilio'r modd y dyfarnwyd y contractau gwerthu coed.

14. Nid wyf wedi ceisio archwilio i weld os oedd y contractau a luniwyd gan CNC yn cynrychioli gwerth am arian. Y rheswm am hynny yw'r ffaith nad yw ymchwiliadau gwerth am arian yn rhan o fy ngwaith wrth archwilio datganiadau ariannol, sy'n digwydd yn unol â deddfwriaeth a safonau archwilio'r Deyrnas Unedig a ragnodir gan y Cyngor Adrodd Ariannol.
15. Mae fy mhrif gasgliadau fel a ganlyn:

Cydymffurfiad gyda fframwaith yr awdurdod

16. Yn fy marn i, roedd y penderfyniad i ddyfarnu nifer o gontractau sylweddol iawn i weithredwr y felin lifio yn ddadleuol ac yn debygol o arwain at ôl-ffeithiau. Roedd cyfuniad o ffactorau yn gyfrifol am hyn, yn enwedig:
 - Maint y contractau.
 - Dyfarnwyd y contractau ar gyfer llarwydd a phyrwydd yn dilyn tendr cystadleuol am gontractau llarwydd (nid gweithredwr y felin lifio oedd y cynigydd a enillodd. Fodd bynnag, penderfynodd CNC gynnig contractau i'r bob un o'r tri chynigydd) ac felly ni roddwyd y cyfle i unrhyw brynwyr posibl eraill brynu'r coed llarwydd a phyrwydd a ddyfarnwyd yn y pen draw i weithredwr y felin lifio. Mae CNC yn haeru nad oedd marchnad ar gyfer llarwydd heintiedig yn seiliedig ar (a) diffyg diddordeb a ddangoswyd yng ngwerthiant 21 parcel unigol o goed a gynigiwyd i'r farchnad a (b) dim ond tri chynnig a dderbyniwyd mewn ymateb i dendr a gyhoeddwyd yn Ebrill 2013 ar gyfer dau gontract tymor hir (LTC) i glirio a marchnata llarwydd heintiedig mewn clystyrau dros gyfnod o bum mlynedd. Yn fy marn i, ni ellir cymharu maint y parseli hyn a'r cynnig tendr gyda'r cynnig o wyth LTC ar gyfer llarwydd heintiedig a phyrwydd, yn enwedig gan fod gweithredwr y felin lifio ei hunan wedi'i gwneud yn glir na fyddai pedwar LTC ar gyfer llarwydd yn ddigonol iddo fuddsoddi yn y llinell lifio newydd. Bwriad maint y contract a ddyfarnwyd i weithredwr y felin lifio oedd ei alluogi i wneud buddsoddiad mawr yn ei felin lifio. Byddai'r buddsoddiad hwn yn galluogi gweithredwr y felin lifio i gynyddu capasiti prosesu'r cwmni yn fawr. Mae CNC yn haeru ei bod yn hynod o annhebygol y byddai gan unrhyw weithredwyr eraill ddiddordeb yn y meintiau sylweddol hyn o larwydd heintiedig ac o fewn yr amserlen yr oedd yn rhaid i CNC weithredu ynddo. Mae CNC wedi dweud wrthyf eu bod yn ymwybodol o'r risg o gael eu herio ar y pwynt hwn, ond bod 'eu safbwynt proffesiynol o'r farn nad oedd unrhyw ddewis arall'. Fodd bynnag, ychydig iawn o dystiolaeth sydd yn y ddogfennaeth o'r pryd hwnnw i ddangos bod swyddogion CNC wedi ystyried yn ofalus a fyddai meintiau uwch yn ennyn diddordeb ystod ehangach o gwmnïau coed (h.y. cwmnïau nad oedd wedi cynnig yng nghystadleuaeth 2013), nac ychwaith a fyddai'r meintiau hynny wedi bod yn ddigon i annog cystadleuwyr eraill i fuddsoddi er mwyn ychwanegu eu capasiti. Yn fy marn i, mae'n ymddangos bod ymrwymiad CNC i werthu meintiau uchel o goed dros gyfnod o ddeng mlynedd i weithredwr y felin lifio yn gyfle y gallai gweithredwyr eraill fod â diddordeb ynddo.
 - Nid oedd y penderfyniad i ddyfarnu'r contractau yn seiliedig ar drefniadau perthnasol i brofi'r farchnad.
 - Roedd CNC yn ei ddogfennau mewnol yn cydnabod y gallai dyfarnu contractau fel hyn arwain at risgiau gan gynnwys y risg o wynebu her gan weithredwr arall.

17. Yn ôl telerau'r Cytundeb Fframwaith a ddarparwyd i CNC gan Lywodraeth Cymru³, a chyhoeddiad Llywodraeth Cymru a oedd mewn grym ar y pryd: 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru'⁴, roedd gofyn i CNC gyfeirio at Lywodraeth Cymru unrhyw weithgareddau a oedd yn ymddangos yn wahanol, yn ddadleuol neu'n debygol o arwain at ôl-ffeithiau.
18. Fe hysbysodd swyddogion CNC y Bwrdd a Llywodraeth Cymru bod CNC yn ceisio trafod gyda gweithredwr y felin lifio a rhybuddiwyd Llywodraeth Cymru ei bod yn bosibl y byddai gweithredwr y felin lifio yn ceisio llobio Gweinidogion Cymru gan fod gweithredwr y felin lifio yn anfodlon gyda chynnig contract a wnaed iddo gan CNC yn Awst 2013. Fodd bynnag, ni chyfeiriodd CNC ei gynnig i lunio contract gyda gweithredwr y felin ym Mai 2014 at Lywodraeth Cymru fel cynnig dadleuol neu un a oedd yn debygol o arwain at ôl-ffeithiau. Dywedodd CNC wrthyf nad oeddynt ar y pryd yn ystyried bod dyfarniad y contractau yn ddadleuol neu'n debygol o arwain at ôl-ffeithiau. Yn fy marn i, dylai CNC fod wedi cyfeirio'r mater ac felly nid oeddynt wedi gweithio o fewn fframwaith yr awdurdod yr oeddynt i fod i gydymffurfio ag ef. O ganlyniad, roedd y trafodion contractiol gyda gweithredwr y felin lifio yn fy marn i yn afreolaidd.

Cydymffurfiad gydag egwyddorion cyfraith gyhoeddus wrth wneud penderfyniadau

19. Yn fy marn i, nid oedd y broses o wneud penderfyniadau a arweiniodd at ddyfarnu contractau i weithredwr y felin lifio ym Mai 2014 yn gadarn nac yn dryloyw. Nid yw CNC wedi gallu fy narparu gyda digon o ddogfennau o'r pryd hwnnw i allu dangos yr ystyriaethau a oedd dan sylw wrth benderfynu llunio'r contractau hyn gyda gweithredwr y felin lifio. Mae CNC yn ystyried bod y penderfyniad i lunio'r contractau hyn gyda gweithredwr y felin lifio wedi'i wneud yn gyfreithlon; fodd bynnag, yn sgil absenoldeb tystiolaeth ddigonol, nid wyf wedi gallu bodloni fy hun bod penderfyniad CNC i lunio'r contractau hyn gyda gweithredwr y felin lifio wedi'i gymryd yn unol ag egwyddorion cyfraith gyhoeddus. Nodaf fod CNC yn anghytuno gyda'r casgliad hwn.
20. Er bod gennyf bryderon sylweddol ynghylch y broses o wneud penderfyniadau, nid yw'r dystiolaeth yn ddigonol i fi ddod i'r casgliad bod y penderfyniad i lunio'r contractau yn torri egwyddorion cyfraith gyhoeddus. Nid yw fy ansicrwydd yn golygu y dylid nawr ystyried y contractau yn anghyfreithlon, nac ychwaith eu bod yn adlewyrchu gwerth gwael am arian. Mae'r penderfyniad i ddyfarnu'r contractau yn parhau i fod yn ddilys yn absenoldeb unrhyw her neu wrthodiad gan Lys. Mae fy nghasgliadau yn codi yng nghyd-destun fy swyddogaethau archwilio ac nid ydynt yn effeithio ar ddilysrwydd neu orfodadwyedd y penderfyniadau a wnaed gan CNC (a nodaf bwynt CNC nad oedd unrhyw un o gynrychiolwyr y diwydiant wedi ceisio herio'r penderfyniad i ddyfarnu'r contractau). Fodd bynnag, rhoddaf fy marn reoleiddiol ar ffurf sicrwydd pendant, sy'n golygu fy mod yn nodi a yw trafodion yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. O ystyried graddau'r ansicrwydd, ni allaf roi barn reoleiddiol ddiamedd ar y datganiadau ariannol.

³ Lluniwyd Dogfen Fframwaith CNC gan Lywodraeth Cymru mewn ymgynghoriad â CNC. Mae'n nodi fframwaith eang yr atebolrwyddau y mae CNC yn gweithredu o'u mewn ac yn nodi'r telerau a'r amodau y mae Gweinidogion Cymru yn eu dilyn wrth ddarparu cymorth grant i CNC.

⁴ Mae Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru yn nodi'r fframwaith a'r egwyddorion y mae'n eu cymhwyso yn Llywodraeth Cymru, y cyrff a noddur ganddi, y GIG yng Nghymru, ei chomisïynwyr, Cyngor Gy weithlu Addysg, Estyn ac is-gyrff Llywodraeth Cymru.

Cydymffurfiad gyda rheolau Cymorth Gwladwriaethol

21. O dan Erthygl 107 o Gytuniad yr UE ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd, cymorth Gwladwriaethol yw cymorth a ddyfernir o adnoddau Gwladwriaeth mewn unrhyw ffordd bynnag sy'n bygwth ystumio cystadleuaeth drwy ffafrio mentrau penodol neu gynhyrchu nwyddau penodol, i'r graddau ei fod yn effeithio ar fasnach rhwng Aelod-wladwriaethau. Mae cymorth Gwladwriaethol yn anghyfreithlon oni bai ei fod wedi'i awdurdodi o flaen llaw, naill ai drwy 'eithriad bloc' sy'n bodoli eisoes neu drwy awdurdodiad unigol a ganiateir gan y Comisiwn Ewropeaidd mewn ymateb i hysbysiad o'r Wladwriaeth berthnasol. Rwyf wedi derbyn cyngor cyfreithiol i sefydlu os oedd dyfarnu'r contractau yn gyfystyr â chymorth Gwladwriaethol i weithredwr y felin lifio. Fe'm cynghorir bod hyn yn dibynnu ar y canlynol: a oedd y contractau hynny yn darparu 'mantais economaidd' ai peidio ag a oedd gwerth y fantais honno o bosibl yn berthnasol i fasnach rhwng Gwladwriaethau (y meincnod ar gyfer perthnasedd yn y cyd-destun hwn yw trothwy *de minimis* Cymorth Gwladwriaethol y Comisiwn Ewropeaidd sef €200,000). Ni fyddai mantais o'r fath pe byddai'r contractau wedi'u llunio ar delerau'r farchnad. Mae CNC o'r farn bod y contractau wedi'u llunio ar delerau'r farchnad ond mae'n amlwg o ddogfennaeth y pryd hwnnw nad oedd telerau'r contractau wedi'u pennu naill ai ar ganlyniad cystadleuaeth i gyflawni gofynion perthnasol CNC, neu ar brosesau profi'r farchnad perthnasol eraill yn seiliedig ar y gofynion hynny.
22. Yn fy marn i, nid oedd prosesau profi'r farchnad perthnasol yn sail i benderfyniad CNC i ddyfarnu'r contractau i weithredwr y felin lifio. Nid oedd ychwaith yn seiliedig ar resymu perswadiol i gefnogi casgliad y byddai chwilio am ddarparwyr gwahanol yn profi'n aflwyddiannus. Yn fy marn i, methodd CNC â dilyn prosesau priodol i sicrhau bod yr allbynnau y lluniodd contractau gyda gweithredwr y felin lifio ar eu cyfer wedi'u cyflawni ar delerau'r farchnad. Mae'r methiant hwn yn codi amheuaeth ynghylch cydymffurfiad y contractau gyda rheolau cymorth Gwladwriaethol. Ar sail yr amheuaeth hon, ni allaf roi barn reoleiddiol ddiatomod ar y datganiadau ariannol. Nodaf fod CNC yn anghytuno gyda fy nadansoddiad o'r sefyllfa parthed cymorth Gwladwriaethol, ac yn dibynnu ar gyngor cyfreithiol (y cafodd yn ystod hynt fy archwiliad ac a rannodd gyda fi) sy'n nodi, ymysg pethau eraill, bod y dyfarniad yn cydymffurfio gyda rheolau cymorth Gwladwriaethol.
23. Mae Prif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dweud wrthyf ei fod yn credu bod rhoi barn amodol yn anghymesur â'r gwendidau a nodwyd, a'i fod yn anghytuno gyda fy nghasgliadau ac yn dibynnu ar gymorth cyfreithiol a gafodd CNC yn ystod hynt fy archwiliad. Fodd bynnag, rwyf wedi cael cyngor cyfreithiol fy hun gan Gwnsler (gan gynnwys cyngor mewn perthynas â chyngor cyfreithiol CNC) ac rwy'n cytuno gyda'r cyngor a dderbyniais, sef nad oes digon o dystiolaeth i ddod i'r casgliad bod y broses o wneud penderfyniadau yn cydymffurfio gydag egwyddorion cyfraith gyhoeddus a rheolau cymorth Gwladwriaethol. Mae'r ansicrwydd sylweddol sy'n bodoli yn golygu fy mod yn ystyried mai'r weithred gywir a chymesur i mi ei chymryd fel archwilydd CNC yw amodi fy marn reoleiddiol.

DATGANIADAU ARIANNOL
a
NODIADAU AR Y CYFRIFON

ar gyfer 2015/16

Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

Ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2016

	Nodyn	2015/16 £'000	2014/15 £'000
Costau staff	3	81,239	80,155
Gwaith cyfalaf a wariwyd yn y flwyddyn	4	14,834	15,518
Gwariant arall	5	92,737	102,427
Cyfanswm y gwariant gweithredu		188,810	198,100
Incwm taliadau	6	(36,969)	(38,027)
Incwm masnachol ac arall	6	(27,735)	(28,726)
Cyllid Ewropeaidd a chyllid allanol arall	6	(1,540)	(2,287)
Cyfanswm yr incwm gweithredu		(66,244)	(69,040)
Gwariant gweithredu net		122,566	129,060
Cyllido asedau a rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn	13.3	2,439	2,116
Gwariant net am y flwyddyn		125,005	131,176
Gwariant net cynhwysfawr arall			
Cynnydd net o drosglwyddo swyddogaethau	1.6	(275)	0
Ailfesuriadau actiwaraid ar y cynllun pensiwn	13.3	(33,179)	24,778
Ailbrisió			
Colled net / (enillion) ar ailbrisió		15,996	(19,996)
Cyfanswm gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn		107,547	135,958

Mae'r nodiadau ar dudalennau 53 i 81 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

Ar 31 Mawrth 2016

	Nodyn	31 Mawrth 2016 £'000	31 Mawrth 2015 £'000
Asedau anghyfredol			
Eiddo, peiriannau a chyfarpar	7.1	752,001	644,900
Asedau treftadaeth	7.1	6,432	6,432
Asedau biolegol	7.1	102,450	117,881
Asedau anniriaethol	7.2	13,340	8,397
Asedau ariannol		140	220
Cyfanswm asedau anghyfredol		874,363	777,830
Asedau cyfredol			
Asedau a ddelir i'w gwerthu		180	979
Rhestrau eiddo		759	835
Dyledwyr masnachol a symiau derbyniadwy eraill	9	16,496	17,460
Arian parod ac arian parod cyfatebol	10	22,735	26,798
Cyfanswm yr asedau cyfredol		40,170	46,072
Cyfanswm yr asedau		914,533	823,902
Rhwymedigaethau cyfredol			
Credydwyr masnachol a symiau taladwy eraill	11	(19,568)	(25,911)
Darpariaethau	12	(1,582)	(2,955)
Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol		(21,150)	(28,866)
Asedau llai rhwymedigaethau cyfredol		893,383	795,036
Rhwymedigaethau anghyfredol			
Rhwymedigaethau pensiwn	13.3	(46,957)	(76,104)
Rhwymedigaethau ariannol	8	(39,991)	(39,973)
Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol		(86,948)	(116,077)
Asedau llai rhwymedigaethau		806,435	678,959
Ecwiti trethdalwyr a chronfeydd eraill			
Cronfa gyffredinol	DoNET	197,532	211,460
Cronfa ailbriso	DoNET	655,860	543,603
Cronfa pensiynau	DoNET	(46,957)	(76,104)
Cyfanswm ecwiti trethdalwyr		806,435	678,959

Mae'r nodiadau ar dudalennau 53 i 81 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

Dr Emyr Roberts
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

Dyddiad: 2 Mawrth 2017

Datganiad o lif arian

Ar gyfer y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2016

		2015/16	2014/15
	Nodyn	£'000	£'000
Llif arian o weithgareddau gweithredu			
Gwariant gweithredu net	DoWNC	(122,566)	(129,060)
Addasiad ar gyfer trafodion anariannol		17,902	15,245
Gostyngiad mewn dyledwyr masnachol a symiau derbyniadwy eraill	9	802	1,865
Cynnydd / (Gostyngiad) mewn credydwyr masnachol a symiau taladwy eraill	11	(8,112)	8,199
Cynnydd / (Gostyngiad) mewn darpariaethau	12	(1,356)	861
Llif arian net o weithgareddau gweithredu		(113,330)	(102,890)
Llif arian o weithgareddau buddsoddi			
Prynu eiddo, peiriannau ac offer	7.1	(2,606)	(7,457)
Prynu asedau anniriaethol	7.2	(6,627)	(2,934)
Elw ar waredu eiddo, offer a chyfarpar		1,130	631
Llif arian net o weithgareddau buddsoddi		(8,103)	(9,760)
Llif arian o weithgareddau ariannu			
Derbyn arian parod ar drosglwyddo swyddogaethau	1.6	927	0
Grantiau gan Lywodraeth Cymru	DoNET	116,443	124,337
Ariannu net		117,370	124,337
Cynnydd net mewn arian a chyfwerthoedd arian yn y cyfnod		(4,063)	11,687
Arian parod chyfwerthoedd arian ar ddechrau'r cyfnod		26,798	15,111
Arian parod a chyfwerthoedd arian ar ddiwedd y cyfnod	10	22,735	26,798

Mae'r nodiadau ar dudalennau 53 i 81 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr

Ar gyfer y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2016

	Cronfa gyffredinol	Cronfa ailbriso	Cronfa pensiynau	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000
Balans agoriadol	211,460	543,603	(76,104)	678,959
Gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn	(107,547)	0	0	(107,547)
Addasiad trosglwyddo swyddogaethau	(359)	0	(1,348)	(1,707)
Symudiad o fewn y flwyddyn				
Ailbrisiad yn y flwyddyn	0	120,287	0	120,287
Ailbrisiad a wireddwyd	8,030	(8,030)	0	0
Enillion actiwaraidd ar y cynllun pensiwn	(33,179)	0	33,179	0
Cynnydd mewn rhwymedigaeth pensiwn	2,684	0	(2,684)	0
Cyfanswm y symudiad yn ystod y flwyddyn	(22,465)	112,257	30,495	120,287
Ariannu				
Grantiau gan Lywodraeth Cymru	116,443	0	0	116,443
Balans ar 31 Mawrth 2016	197,532	655,860	(46,957)	806,435

Cronfa gyffredinol - yn adlewyrchu sefyllfa gronns y gwariant net a'r cyllid gan Lywodraeth Cymru.

Cronfa ailbriso - yn adlewyrchu balans cronol ailbriso a mynegeoio asedau tymor hir.

Cronfa pensiwn - yn adlewyrchu sefyllfa gronns rhwymedigaethau net y cynllun pensiwn.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 53 i 81 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

Ffigurau cymharol ar gyfer y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2015

	Cronfa gyffredinol	Cronfa ailbriso	Cronfa pensiynau	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000
Balans agoriadol	188,256	511,056	(49,200)	650,112
Gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn	(135,958)	0	0	(135,958)
Symudiad o fewn y flwyddyn				
Cywiriad i'r balans agoriadol	183	(183)	0	0
Asedau o flynyddoedd blaenorol	160	0	0	160
Ailbriso o fewn y flwyddyn	0	40,308	0	40,308
Ailbriso a wireddwyd	7,578	(7,578)	0	0
Colled actwaraidd ar y cynllun pensiwn	24,778	0	(24,778)	0
Cynnydd mewn rhwymedigaeth pensiwn	2,126	0	(2,126)	0
Cyfanswm y symudiad yn ystod y flwyddyn	34,825	32,547	(26,904)	40,468
Ariannu				
Grantiau gan Lywodraeth Cymru	124,337	0	0	124,337
Balans ar 31 Mawrth 2015	211,460	543,603	(76,104)	678,959

Nodyn 1 Polisiâu Cyfrifyddu

1.1 Gofyniad i baratoi cyfrifon

Mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2015/16 a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM ac â'r cyfarwyddyd cyfrifon a roddwyd gan Lywodraeth Cymru yn unol â pharagraff 23(1) Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012.

Mae'r polisiâu cyfrifyddu sydd yn y FReM yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y cawsant eu haddasu neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle mae'r FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, mae'r cyfrifon hyn yn dilyn y polisi sy'n fwyaf priodol i roi darlun cywir a theg ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Mae'r polisiâu a fabwysiadwyd yn cael eu disgrifio isod ac yn yr amrywiol nodiadau ar y cyfrifon. Maent wedi cael eu cymhwyso'n gyson wrth ddelio ag eitemau a ystyrir yn berthnasol i'r cyfrifon.

Mae'r gwaith o baratoi'r datganiadau ariannol yn gofyn am wneud amryw o amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio ar bolisiâu cyfrifyddu a symiau a adroddwyd. Mae'r holl amcangyfrifon a dyfarniadau o'r fath yn cael eu hadolygu ar sail barhaus. Mae diwygiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu yn cael eu cydnabod yn y cyfnod y mae'r amcangyfrif yn cael ei ddiwygio ac mewn unrhyw gyfnod yn y dyfodol yr effeithir arno. Mae'r holl amcangyfrifon yn seiliedig ar wybodaeth o ffeithiau ac amgylchiadau cyfredol, tybiaethau ynglŷn â digwyddiadau yn y gorffennol a rhagolygon o ddigwyddiadau yn y dyfodol.

Mae'r meysydd mwyaf arwyddocaol o ran amcangyfrif a dyfarniadau critigol yn cael eu dangos yn erbyn y nodiadau perthnasol. Sylwch y gall y canlyniadau gwirioneddol yn y dyfodol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn.

1.2 Arferion cyfrifo

Mae'r cyfrifon hyn wedi cael eu paratoi ar sail croniadau, o dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd i roi cyfrif am ailbriso eiddo, offer a chyfarpar, asedau anniriaethol (ar wahân i gerbydau ac asedau sy'n cael eu hadeiladu) i werth teg fel y pennwyd gan y safon cyfrifo perthnasol. Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi'u seilio ar egwyddor busnes hyfyw.

1.3 Incwm, gwariant a grantiau

Mae sail croniadau cyfrifyddu yn golygu bod incwm a gwariant a ddatgelir yn y cyfrifon yn cael eu cyfrif yn y flwyddyn y maent yn digwydd, nid pan mae taliadau arian parod yn cael eu gwneud neu eu derbyn, ar wahân i ffioedd incwm opsiynau a dderbyniwyd gan weithredwyr ffermydd gwynt sy'n cael ei gynnwys yn y flwyddyn y cânt ei dderbyn. Mae gwerth llawn y ffioedd incwm opsiynau ffermydd gwynt yn cael ei gynnwys yn ffigur am incwm o ynni adnewyddiadwy yn Nodyn 6, a'r taliad net i Lywodraeth Cymru wedi ei gynnwys o dan gostau gweithredol yn Nodyn 5.

Mae incwm a dderbyniwyd cyn i'r gwaith gael ei wneud yn cael ei drin fel incwm gohiriedig. Lle mae incwm a gwariant wedi cael eu cydnabod ond nad yw'r arian parod wedi ei dderbyn na'i dalu, mae swm taladwy neu dderbyniadwy am y swm perthnasol yn cael ei gofnodi yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol. Lle na fydd dyledion yn cael eu talu, caiff balans y symiau derbyniadwy ei ysgrifennu i lawr a chodir tâl ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr am yr incwm a allai beidio â chael ei gasglu.

Mae pob cyfraniad grant a dderbyniwyd wedi cael eu cydnabod fel incwm yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

1.4 Treth ar Werth

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei ddsbarthu fel corff y mae adran 33 o Ddeddf Treth Ar Werth (TAW) 1994 yn gymwys iddo ac yn unol â hynny mae'n adennill treth a dalwyd ar weithgareddau busnes a gweithgareddau nad ydynt yn ymwneud â busnes. Mae adennill TAW ar gyflenwadau eithriedig yn dibynnu ar y trothwy ar gyfer gweithgareddau eithriedig. Ym mhob achos, lle codir treth wrth werthu, neu lle mae treth wrth brynu yn adenilladwy, mae'r symiau a gynhwysir yn y cyfrifon hyn yn cael eu nodi yn glir o TAW.

1.5 Cymorth grant

Mae cymorth grant a grantiau eraill a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru yn cael eu trin fel cyllid a dderbyniwyd gan barti rheoli ac yn cael eu credydu yn uniongyrchol i'r gronfa gyffredinol.

1.6 Rhanbarthau draenio mewnol a throsglwyddo swyddogaethau

Ar 1 Ebrill 2015 trosglwyddodd swyddogaethau, staff ac asedau byrddau draenio mewnol Cil-y-Coed a Gwynllŵg, Gwy Isaf a ThirPowys i Gyfoeth Naturiol Cymru. Yn unol â'r FReM, bydd y trosglwyddiad hwn yn cael ei gyfrif fel trosglwyddiad trwy amsugno ac felly nid oes unrhyw ofyniad i ailddatgan ffigurau cymharol mewn datganiadau sylfaenol nac addasu gwerthoedd cario asedau a rhwymedigaethau i werth teg. Bydd yr asedau net o £275k yn cael eu cofnodi yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr fel cynnydd net o drosglwyddo swyddogaethau. Mae addasiadau o £84k sy'n ofynnol i gyflawni cysondeb o ran polisiau cyfrifyddu yn cael eu dangos yn erbyn y gronfa gyffredinol.

Dadansoddiad o ennill ar drosglwyddo swyddogaethau

	£'000
Asedau tymor hir	777
Asedau eraill	83
Arian parod	927
Rhwymedigaethau pensiwn	(1,221)
Rhwymedigaethau eraill	(291)
Cyfanswm	275

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru bellach yn gweithredu fel y bwrdd draenio sy'n rhedeg yr ardaloedd draenio mewnol hyn, ynghyd ag un ar ddeg o ardaloedd draenio mewnol eraill yng Ngogledd Cymru. Mae'r gwaith a wnaed ym mhob ardal yn cael ei ariannu gan gyfuniad o gyfraddau draenio a godir ar feddianwyr tir amaethyddol ac ardollau arbennig a delir gan awdurdodau lleol o ran tir anamaethyddol.

Mae'n ofynnol i Gyfoeth Naturiol Cymru gan adran 40 o Ddeddf Draenio Tir 1991, a chan reoliad 7 o Reoliadau Byrddau Draenio Mewnol (Cyllid) 1992 bennu cyfraddau draenio a chyhoeddi ardollau arbennig cyn 15 Chwefror y flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn y maent yn berthnasol iddi.

Cymeradwyodd y tri bwrdd draenio mewnol y rhaglenni gwaith a'r cyfraddau draenio a'r ardollau arbennig cysylltiedig ar gyfer 2015/16 a etifeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru. Gosodwyd y cyfraddau draenio, yr ardollau arbennig a'r praeseptau ar gyfer 2015/16, mewn perthynas â'r 11 o ardaloedd draenio mewnol sy'n bodoli eisoes gan Gyfoeth Naturiol Cymru, yn gweithredu fel y bwrdd draenio. Mae'r incwm hwn yn cael ei gynnwys yn Nodyn 6.

1.7 Mabwysiadu dehongliadau newydd a diwygiedig o IFRS neu FReM

FReM

Bob blwyddyn mae Trysorlys EM yn cyhoeddi FReM newydd sy'n dehongli IFRS ar gyfer y sector cyhoeddus. Mae ffurf a chynnwys yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon ar gyfer 2015/16 wedi cael eu newid yn unol â'r diwygiadau a wnaed i'r FReM gan adlewyrchu canlyniadau'r prosiect Symleiddio'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon Statudol. Mae'r prif newidiadau yn cynnwys cyflwyno tair rhan i'r Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol a'r gofyniad i ddatgelu polisïau a nodiadau ar gyfer eitemau perthnasol yn unig. Cafodd categorïau o fewn y datganiadau a'r nodiadau eu cyfuno lle y bo'n briodol, a chafodd ffigurau ar gyfer 2014/15 eu hailddatgan yn unol â hynny.

IFRS

Yn unol ag IAS 8, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ystyried effaith y safonau a'r dehongliadau sydd wedi cael eu cyhoeddi, ond nad ydynt yn weithredol eto ac nad ydynt wedi cael eu mabwysiadu yn gynnar gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Ac eithrio 16 Prydles IFRS, rhagwelir na fydd mabwysiadu'r Safonau a'r Dehongliadau hyn yn y dyfodol yn cael unrhyw effaith sylweddol ar ddatganiadau ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru. Ni ellir rhagdybio effaith 16 Prydles IFRS sydd wedi cael eu cyhoeddi gan yr IASB ond nad ydynt wedi eu mabwysiadu eto gan yr Undeb Ewropeaidd ac a fydd yn berthnasol o 2019-20, ar hyn o bryd.

1.8 Darpariaethau Ariannol (Safleoedd tirlenwi)

Ar gyfer yr holl safleoedd tirlenwi, mae angen sefydlu trefniadau darpariaeth ariannol cyn y gellir rhoi trwydded. Rhaid i'r trefniadau darpariaeth ariannol fod ar waith cyn dechrau gweithrediadau gwaredu, ac mae angen i ddarpariaethau o'r fath fod yn ddigonol (mewn termau ariannol), yn ddiogel ac ar gael pan fo eu hangen. Mae safleoedd tirlenwi yn cynnwys yr holl safleoedd gwastraff sy'n destun y gyfarwyddeb tirlenwi.

Y canlynol yw'r prif fecanweithiau y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu derbyn i ddangos trefniadau darpariaeth ariannol:

- Bondiau adnewyddadwy (a ddangosir yn nodyn 11)
- Adneuon arian parod gyda Chyfoeth Naturiol Cymru (a ddangosir yn nodyn 11)
- Cyfrifon escrow
- Cytundebau gweithredoedd Awdurdodau Lleol
- Gwarantiau rhiant gwmnïau
- Cytundebau ymbarél (yn cwmpasu nifer o safleoedd)

1.9 Nodiadau ar y cyfrifon

Mae Nodyn 2 yn rhoi dadansoddiad o incwm a gwariant i segmentau gweithredol.

Mae Nodiadau 3-13 yn darparu dadansoddiad o ffigurau perthnasol a adroddwyd yn y datganiadau o wariant net cynhwysfawr, y sefyllfa ariannol a llifau arian parod.

Mae Nodiadau 14-20 yn ymwneud â ffigurau nad ydynt wedi eu datguddio mewn manau eraill yn y cyfrifon hyn.

2. Dadansoddiad o wariant gweithredu net yn ôl segment

Ar gyfer y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2016

	Traws- newid	DS (OD) a Rheoli Pobl	Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol	Gwasanaethau Cenedlaethol	Gweithred- iadau Y Gogledd a'r Canolbarth	Gweithred- iadau'r De	Gwybodaeth Strategaeth a Chynllunio	Prif Weithredwr, Llywodraethu a Chynllunio	Cysylltiadau Allanol a Chyfathrebu	Prif Swyddog Gwybodaeth	Rheolir yn ganolog	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Adroddwyd yn ôl segmentau												
Gwariant	956	2,467	18,873	44,907	27,909	33,041	27,117	3,584	980	12,725	16,251	188,810
Incwm	0	0	(36,216)	(23,278)	(4,019)	(2,893)	(1,877)	0	0	(27)	2,066	(66,244)
Cyfanswm	956	2,467	(17,343)	21,629	23,890	30,148	25,240	3,584	980	12,698	18,317	122,566
Gwariant cyfalaf	0	0	703	1,820	358	320	4	0	0	6,207	9	9,421

Mae'r segmentau hyn yn elfennau y mae gwybodaeth ariannol yn cael ei reoli a'i adrodd yn fewnol ar eu cyfer. Roedd incwm a gwariant a ddangosir uchod wedi'u priodoli'n uniongyrchol i'r segmentau.

Disgrifiad o'r segmentau

Trawsnewid	Mae'n rheoli'r rhaglenni trawsnewidiol dros Gyfoeth Naturiol Cymru i'n galluogi i fod yn hunan-gynhaliol.
DS (OD) a Rheoli Pobl	Mae'n darparu datblygiad sefydliadol a rheolaeth ar adnoddau staff.
Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol	Mae'n darparu cefnogaeth ariannol a chaffael. Mae'n rheoli adeiladau a fflyd Cyfoeth Naturiol Cymru.
Gwasanaethau Cenedlaethol	Mae'n darparu amrywiaeth o wasanaethau ar gyfer Cymru gyfan. Mae'r rhain yn cynnwys rheoli perygl llifogydd ac arfordiroedd, rheoli'r rhaglen gyfalaf, cynaeafu coedwigaeth a'r ganolfan gyswllt â chwsmeriaid.
Gweithrediadau Y Gogledd a'r Canolbarth	Mae'n cyflawni dibenion a dyheadau statudol, ar lefel weithredol a thrwy rwydwaith o dimau lleol, o fewn saith sir Gogledd Cymru, Ceredigion ac ardaloedd Sir Drefaldwyn a Sir Faesyfed ym Mhowys.
Gweithrediadau'r De	Mae'n cyflawni dibenion a dyheadau statudol, ar lefel weithredol a thrwy rwydwaith o dimau lleol, o fewn siroedd De Cymru ac ardal Sir Frycheiniog ym Mhowys.
Gwybodaeth Strategaeth a Chynllunio	Mae'n rheoli'r swyddogaethau cynllunio strategol, amgylcheddol a gofodol.
Prif Weithredwr, Llywodraethu a Chynllunio	Y Prif Weithredwr hefyd yw'r Swyddog Cyfrifyddu ac mae'n gyfrifol yn bersonol am stiwardiaeth briodol o'r arian cyhoeddus o fewn ei ofal ac am weithrediadau a rheolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru o ddydd i ddydd. Mae'r gwaith llywodraethu yn darparu ac yn cyflenwi gwasanaethau cyfreithiol; cynllunio, perfformiad a chyflwyno adroddiadau; archwilio a sicrwydd rhag risg, yr ysgrifenyddiaeth a llywodraethu gwybodaeth.
Cysylltiadau Allanol a Chyfathrebu	Mae Cysylltiadau Allanol a Chyfathrebu yn darparu gwasanaeth cyfathrebu a marchnata integredig.
Prif swyddog gwybodaeth	Mae'n darparu gwasanaethau 'busnes fel arfer' TGCh a gwasanaethau trawsnewid.
Rheolir yn ganolog	Incwm a gwariant a reolir yn ganolog ac nad yw'n cael ei ddyrannu i gyfarwyddiaethau. Mae'n cynnwys dibrisiant, gwerth llyfr gwaith torri coed, cronïadau diwedd blwyddyn ar gyfer darpariaethau

Yn 2015/16 trosglwyddwyd y Gwasanaeth TGCh o'r Gwasanaethau cyllid a chorfforaethol i'r Prif swyddog gwybodaeth.

Dadansoddiad o wariant gweithredu net yn ôl segment (parhad)

Ffigyrau cymharol ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2015

	Traws- newid	DS (OD) a Rheoli Pobl	Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol	Gwasanaethau Cenedlaethol	Gweithred- iadau Y Gogledd a'r Canolbarth	Gweithred- iadau'r De	Gwybodaeth Strategaeth a Chynllunio	Prif Weithredwr, Llywodraethu a Chynllunio	Cysylltiadau Allanol a Chyfathrebu	Rheolir yn ganolog	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Adroddwyd yn ôl segmentau											
Gwariant	6,435	5,529	31,323	44,004	25,603	32,275	28,864	3,847	1,073	19,147	198,100
Incwm	0	0	(36,081)	(25,269)	(3,132)	(1,643)	(2,998)	(354)	0	437	(69,040)
Cyfanswm	6,435	5,529	(4,758)	18,735	22,471	30,632	25,866	3,493	1,073	19,584	129,060
Gwariant cyfalaf	6,874	0	1,501	1,673	217	409	0	0	0	0	10,674

3. Costau staff

Mae manylion costau a niferoedd y staff bellach yn cael eu datgelu yn yr adran Atebolrwydd ar dudalen 36.

4. Gwaith cyfalaf a wariwyd yn y flwyddyn

	2015/16	2014/15	31 Mawrth 2016	31 Mawrth 2015
Categoriâu	Gwirioneddol	Gwirioneddol	Ymrwymedig	Ymrwymedig
	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwaith gweithredol	13,368	13,480	2,304	6,486
Grantiau cyfalaf	1,466	2,038	1,481	0
Cyfanswm	14,834	15,518	3,785	6,486

Mae gwaith cyfalaf a wariwyd yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â gwariant sy'n waith cyfalaf o ran ei natur ond lle nad yw CNC yn cadw'r risgiau a gwobrwyon sy'n gysylltiedig â pherchenogaeth neu lle na allant amcangyfrif yn ddibynadwy beth yw oes ddefnyddiol yr ased. Mae hyn yn cynnwys eitemau megis:

- Asedau amddiffyn rhag llifogydd a adeiladwyd ar dir nad yw'n eiddo CNC ond lle mae ganddo bwerau caniatol i gynnal yr amddiffyniad.
- Asedau lle nad yw'n bosibl gwirio am amhariad, er enghraifft adnewyddu traeth, felly mae'n ddoethach i'r ased gael ei ysgrifennu i lawr yn ystod y flwyddyn.

Mae gwaith gweithredol yn cynnwys:

- Gweithio i sicrhau bod cyflwr yr amddiffynfeydd rhag llifogydd yn cael eu cadw yn y cyflwr priodol a'u hadfer i'r cyflwr hwnnw yn ôl yr angen.
- Creu, gwella neu gynyddu uchder argloddiau ar hyd cyrsiau dŵr er mwyn lleihau'r risg y bydd y dŵr yn dianc o sianel yr afon.
- Cynhyrchu mapiau aml-haenog sy'n rhoi gwybodaeth am llifogydd o ddŵr daear, afonydd a'r môr ar gyfer Cymru, ac yn cynnwys gwybodaeth am amddiffynfeydd rhag llifogydd a'r ardaloedd sy'n elwa o'r amddiffynfeydd hynny.
- Gosod pyst ar hyd glannau'r afonydd i'w cryfhau a chadw'r tir cyfagos yn ddiogel ac atal tirlithriadau i'r afon gan achosi rhwystrau. Byddai'r gwaith hwn i raddau helaeth o dan y ddaear.
- Trwsio neu ailosod cwlferei o dan dir, ffyrdd ac eiddo a gwelliannau i'r sianeli sy'n cynorthwyo llif y cyrsiau dŵr.
- Datblygu strategaethau i ddarparu opsiynau perygl llifogydd yn y tymor hir i gwmpasu ardal fawr. O'r strategaethau hirdymor y mae prosiectau unigol i reoli perygl llifogydd yn cael eu datblygu.
- Paratoi Cynlluniau Rheoli Lefelau Dŵr a Chynlluniau Rheoli Llifogydd Dalgylchoedd, gwelliannau i lociau a dyfrffyrdd eraill, amnewid telemetreg a gwella cynefinoedd pysgod.

Grantiau cyfalaf

Mae'r rhain yn grantiau, i Awdurdodau Lleol yn bennaf, sy'n ariannu gwaith cyfalaf. Mae'n cynnwys gwaith ar Lwybr Arfordir Cymru, y Rhaglen Gwella Hawliau Tramwy, a hefyd grantiau i gynorthwyo gyda phrynu tir.

5. Gwariant arall

	2015/16 £'000	2014/15 £'000
Eitemau arian parod		
Gwasanaethau a brynwyd i mewn	20,324	18,919
Cytundebau Lefelau Gwasanaeth	9,535	14,607
Cytundebau gweithredu cronfeydd dŵr	6,892	6,938
Grantiau	5,384	8,222
Deunyddiau ac offer	4,073	2,931
Cynnal a chadw rhwydwaith y ffyrdd coedwig	3,955	3,365
Costau cynnal swyddfeydd	3,871	5,010
Costau gweithredol	3,609	3,686
Costau TGCh	3,086	6,222
Cytundebau cydweithredol	2,894	2,899
Costau fflyd	2,794	3,613
Teithio a chynhaliaeth	2,360	3,077
Costau sy'n gysylltiedig â staff rhenti	2,026	1,639
Ffioedd a chostau llys	2,007	1,938
Ardrethi	852	1,103
Ffioedd archwilio statudol	795	780
Taliadau sy'n cael eu dileu a thaliadau arbennig	143	171
Llog ar brydlesi cyllid	57	498
Llog ar brydlesi cyllid	51	40
Grantiau Ewropeaidd	33	474
Rhoddion	0	5
Is-gyfanswm	74,741	86,137
Gwariant nad yw'n arian parod		
Dibrisiant ac amorteiddio	9,787	7,211
Gwerth coed a dorrwyd	6,970	6,644
Gwariant y flwyddyn flaenorol ar asedau	794	801
Taliadau sy'n cael eu dileu	793	642
Addasiadau i adolygu asedau	85	626
Symudiad ar y ddarpariaeth ar gyfer dyledion amheus	57	(427)
Symudiad ar ddarpariaethau eraill	(17)	1,072
(Enillion) / Colled ar waredu	(473)	(279)
Is-gyfanswm	17,996	16,290
Cyfanswm	92,737	102,427

Mae manylion y dyledion sy'n cael eu dileu a'r taliadau arbennig yn awr yn cael eu dangos yn yr adran Atebolrwydd ar dudalen 40.

6. Dadansoddiad o incwm

	2015/16 £'000	2014/15 £'000
Taliadau Tynnu Dŵr	18,797	20,434
Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: ansawdd dŵr	6,272	6,523
Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gosodiadau	3,033	3,028
Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gwastraff	2,183	2,432
Rheoleiddio niwclear	1,765	1,336
Trwyddedau pysgota	1,380	1,468
Taliadau eraill i ddiogelu'r amgylchedd	1,218	917
Gwastraff peryglus	1,013	981
Gwaith y gellir ailgodi tâl amdano ar gyfer adnoddau dŵr	675	453
Trwyddedu morol	322	184
Allryiadau masnachu ac ymrwymiad i leihau carbon	311	271
Incwm o daliadau	36,969	38,027
Incwm o bren	16,475	16,336
Incwm o ynni adnewyddadwy	4,927	7,522
Incwm o ystadau	2,917	2,512
Incwm ardaloedd draenio mewnol	1,401	472
Darparu gwybodaeth a gwasanaethau	923	1,194
Adennill costau cyfreithiol ac incwm o'r Ddeddf Elw Trosedd	589	468
Incwm tuag at gostau glanhau safleoedd	500	0
Llog derbyniadwy	55	41
Incwm amrywiol	(52)	181
Incwm masnachol ac arall	27,735	28,726
Incwm Ewropeaidd ⁺	792	2,080
Grantiau a chyfraniadau	748	207
Cyllid Ewropeaidd a chyllid allanol arall	1,540	2,287
Cyfanswm yr incwm	66,244	69,040

+ Gan gynnwys incwm a hawliwyd drwy Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru neu Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau a ariennir gan Ewrop.

6.1 Dadansoddiad o ffioedd a thaliadau

Blwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2016	Incwm a gafodd ei filio £'000	Gwariant £'000	Gwarged/ (Difyg) £'000
Taliadau Tynnu Dŵr	17,613	18,797	(1,184)
Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: ansawdd dŵr	6,506	6,272	234
Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gosodiadau	3,380	3,033	347
Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gwastraff	2,111	2,183	(72)
Rheoleiddio niwclear	1,709	1,765	(56)
Trwyddedau pysgota	1,380	1,380	0
Taliadau diogelu'r amgylchedd eraill	1,002	1,218	(216)
Gwastraff peryglus	959	1,013	(54)
Gwaith adnoddau dŵr y gellir ailgodi tâl amdano	675	675	0
Trwyddedau morol	322	322	0
Allyriadau masnachu ac ymrwymiad i leihau carbon	298	311	(13)
Cyfanswm	35,955	36,969	(1,014)

Ffigurau cymharol - y flwyddyn yn diwedd 31 Mawrth 2015	Incwm a gafodd ei filio £'000	Gwariant £'000	Gwarged/ (Difyg) £'000
Taliadau Tynnu Dŵr	20,225	20,434	(209)
Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: ansawdd dŵr	6,562	6,523	39
Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gosodiadau	2,946	2,939	7
Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gwastraff	2,319	2,432	(113)
Rheoleiddio niwclear	1,600	1,336	264
Trwyddedau pysgota	1,468	1,468	0
Taliadau diogelu'r amgylchedd eraill	828	917	(89)
Gwastraff peryglus	1,101	981	120
Gwaith adnoddau dŵr y gellir ailgodi tâl amdano	453	453	0
Trwyddedau morol	184	499	(315)
Allyriadau masnachu ac ymrwymiad i leihau carbon	271	271	0
Cyfanswm	37,957	38,253	(296)

Mae incwm o daliadau ar gyfer rheoleiddio busnesau yng Nghymru i fonitro a rheoli eu heffaith ar yr amgylchedd, boed yn aer, dŵr neu dir, yn deillio o gyfuniad o ffioedd a thaliadau.

Mae gwargedion a diffygion cronedig yn cael eu trin fel incwm gohiriedig neu incwm cronedig yn dibynnu ar a yw'r cynllun codi tâl mewn gwarged neu ddiffyg. Mae'r balansau hyn yn cael eu trin fel incwm gohiriedig neu incwm cronedig dim ond lle mae disgwyliad y bydd y balansau yn rhai y bydd modd eu hadennill dros gyfnod rhesymol o amser. Mae'r balansau yn cael eu hystyried wrth bennu ffioedd a thaliadau blynyddoedd y dyfodol, er mwyn i sefyllfa o adennill costau gael ei chyflawni dros gyfnod rhesymol o amser, sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd i fod yn dair blynedd.

Mae'r tabl uchod o ffioedd a thaliadau yn wahanol i incwm a adroddwyd yn nodyn 6 oherwydd y polisi a nodir uchod. Mae'r gwargedion a'r diffygion cronrus yn cael eu cynnwys mewn incwm cronedig a gohiriedig yn nodiadau 9 a 11 yn y drefn honno.

Mae costau a ariennir gan gymorth grant wedi cael eu heithrio o'r tabl uchod. Nid yw'r tabl uchod yn cynnwys effaith addasiadau pensiwn IAS 19 gan nad yw'r costau/buddion hyn yn cael eu trosglwyddo i rai sy'n talu taliadau. Yr amcan ariannol yw adennill costau llawn gan gynnwys dibrisiad costau cyfredol a chyfradd enillion ar asedau perthnasol.

Mae gweithgareddau allweddol pob ardal yn cael eu rhestru isod:

- Taliadau Tynnu Dŵr - codi tâl ar fusnesau sy'n defnyddio tynnu dŵr o afonydd neu ddŵr daear. Mae'r incwm a adroddwyd hefyd yn cynnwys elfennau eraill o incwm adnoddau dŵr.

- Gwaith y gellir ailgodi tâl amdano ar gyfer adnoddau dŵr - incwm i adennill costau am ymdrechion CNC ar gyfer adnoddau dŵr, megis costau gweithredol yn nalgylch Hafren Uchaf (ar ochr Cymru'r ffin), sy'n dod o dan awdurdodaeth Asiantaeth yr Amgylchedd.

- Trwyddedau Pysgota - codi tâl ar unigolion am drwyddedau i bysgota.

- Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: ansawdd dŵr - codi tâl am ollyngiadau o fusnesau i'r amgylchedd.

- Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gosodiadau - caniatáu i reoli a lleihau llygredd o weithgareddau diwydiannol

- Rheoliadau trwyddedu amgylcheddol: gwastraff - trwyddedu rheoli gwastraff ac eithriadau.

- Gwastraff peryglus - trwyddedu ar gyfer cynhyrchu, cludo, neu dderbyn gwastraff peryglus.

- Masnachu allyriadau ac ymrwymiad i leihau carbon - rheoleiddio busnesau o dan gynlluniau'r UE.

- Rheoleiddio niwclear - rheoleiddio safleoedd niwclear a di-niwclear, a safleoedd niwclear newydd.

- Trwyddedau morol - codi tâl ar unigolion am drwyddedau cychod.

- Gwarchodaeth arall ar yr amgylchedd - trwyddedu ar gyfer cofrestru cludwyr a broceriaid gwastraff, cludiadau trawsffiniol, trwyddedu cyfrifoldeb y cynhyrchydd ar gyfer offer electronig a thrydanol gwastraff, cerbydau diwedd oes, biffenylau polychlorinedig a rheoleiddio busnesau dan gynlluniau fel rheoli peryglon damweiniau mawr.

7. Asedau tymor hir

Mae dau gategori o asedautymor hir - asedau diriaethol a ddangosir yn Nodyn 7.1 ac asedau anniriaethol a ddangosir yn Nodyn 7.2.

Cydnabyddiaeth

Mae'r holl dir yn cael ei gyfalafu waeth beth yw ei werth. Y trothwy ar gyfer cyfalafu asedau eraill gydag oes economaidd ddefnyddiol o fwy na blwyddyn yw £5,000. Gall eitemau unigol sy'n costio llai na £5,000 gael eu grwpio fel un ased os yw cyfanswm y gost yn fwy na £5,000 ac mae'r asedau hyn yn gweithredu fel rhan o rwydwaith. Mae gwariant dilynol ar ased yn cael ei gyfalafu os bydd y meini prawf ar gyfer cyfalafu cychwynnol yn cael eu bodloni, mae'n debygol y bydd buddion economaidd ychwanegol yn llifo i GNC ac y gall cost y gwariant gael ei fesur yn ddibynadwy.

Mesur

Mae'r holl asedau tymor hir ac eithrio asedau treftadaeth ac asedau sy'n cael eu hadeiladu yn cael eu hadrodd naill ai ar y gwerth cyfredol wrth gael eu defnyddio ar hyn o bryd neu ar y gwerth teg presennol yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

Mae asedau sy'n cael eu dosbarthu fel asedau treftadaeth yn cynnwys tir o fewn ardaloedd cadwraeth dynodedig. Mae'r tir hwn yn cael ei gynnal i gefnogi diben Cyfoeth Naturiol Cymru. Oherwydd natur amrywiol y tir a ddelir a diffyg gwerthoedd cymharol ar y farchnad, mae CNC yn ystyried y byddai cael prisiadau allanol yn golygu cost anghymesur. Felly mae asedau treftadaeth yn cael eu cynnal yn ôl y gwerth cost. Mae costau cadwraeth (y gwariant sydd ei angen i warchod yr ased treftadaeth) yn cael eu cydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr pan gânt eu talu. Mae rhagor o wybodaeth am asedau treftadaeth yn Nodyn 7.1.2.

Mae asedau sydd wedi'u cyfalafu fel rhai sy'n cael eu hadeiladu yn cael eu cario ar gost a'u trosglwyddo i'r categori asedau tymor hir priodol pan fyddant wedi eu cwblhau ac yn barod i'w defnyddio.

Mynegeio ac Ailbriso

Mae'r holl asedau ar wahân i asedau treftadaeth, cerbydau a rhai sy'n cael eu hadeiladu yn cael eu mynegeio'n flynyddol gan ddefnyddio mynegai priodol o dan y confensiwn cost hanesyddol a addaswyd.

Mae tir ac adeiladau a strwythurau cyhoeddus (a adroddwyd o fewn strwythurau gweithredol) yn ddarostyngedig i ailbriso proffesiynol bob pum mlynedd yn unol â safonau priso Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS). Cafodd yr asedau hyn eu hailbriso'n broffesiynol ar 31 Mawrth 2016 gan syrfewyr siartredig a'u llofnodi gan brisiwr cofrestredig. Y syrfewyr siartredig oedd John Clegg & Co, Cooke and Arkwright, Lambert Smith Hampton, Llewellyn Humphreys, Williams Rural & Commercial, Strutt & Parker, Bidwells ac asiantau tir mewnol.

Mae pob un o'r priswyr a wnaeth yr ailbrisiad pum mlynedd, yn aelodau o'r RICS ac yn Briswyr Cofrestredig yn unol â Chynllun Cofrestru Priswyr RICS, ar wahân i'r priswyr hynny sydd wedi ymgymryd â rhai prisiadau seilwaith penodol ar asedau treftadaeth. Sicrhawyd ansawdd y prisiadau hynny gan Brif Syrfewr Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae gan bob prisiwr ddigon o wybodaeth leol a chenedlaethol gyfredol am y farchnad benodol, a'r sgiliau a'r ddealltwriaeth i wneud y prisiad yn fedrus.

Cafodd ein holl swyddfeydd rhydd-ddaliadol a phrydlesol a'r eiddo masnachol eu priso ar 31 Mawrth 2016 gan y priswyr allanol, Elizabeth Hill ac Alan Jones o Syrfewyr Siartredig Cooke & Arkwright.

Cafodd prisiadau tir, strwythurau cyhoeddus ac asedau arbenigol eraill eu trefnu gan ein tîm mewnol o Syrfewyr Siartredig, o dan gyfarwyddyd y Prif Syrfewr.

Ar gyfer yr asedau hynny lle mae gennym incwm rhent yn y dyfodol ar ein tir defnyddiwyd syrfewyr proffesiynol allanol. Prisiwyd Fferm Wynt Cefn Croes gan Bidwells a'r portfolio telathrebu gan Strutt & Parker.

Ar gyfer asedau arbenigol lle nad oes unrhyw beth i'w gymharu ar y farchnad, amcangyfrifwyd yr amcangyfrif o 'werth teg' gan ddefnyddio dull cost adnewyddu dibrisiedig.

Defnyddir strwythurau gweithredol wrth ddarparu gwasanaeth CNC ac maent yn benodol o ran eu natur, lleoliad neu swyddogaeth. Nid yw'n bosibl ailbriso'r asedau hyn yn effeithiol gan ddefnyddio ffigurau cymharol y farchnad neu brisiadau proffesiynol.

Mae addasiadau o ganlyniad i'r mynegeio ac ailbrisiadau yn cael eu cymryd i'r gronfa ailbriso wrth gefn oni bai bod y balans wrth gefn mewn perthynas ag ased penodol wedi cael ei ddefnyddio'n llawn yn erbyn ailbriso tuag i lawr, ac os felly mae'r symudiad yn cael ei gydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Caiff unrhyw ostyngiadau parhaol mewn gwerth eu trosglwyddo i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Dibrisiant

Nid yw tir yn cael ei ddibrisio, oni bai ei fod yn ffurfio elfen hanfodol o strwythur gweithredol. Mae'r asedau hyn yn cael eu dibrisio dros oes y strwythur gweithredol perthnasol. Ni chaiff asedau sy'n cael eu hadeiladu eu dibrisio nes eu bod yn gallu gweithredu yn y dull a fwriadwyd gan y rheolwyr. Mae cerbydau a ddangosir yn y categori offer a pheiriannau yn cael eu dibrisio ar sail balans sy'n gostwng ar gyfradd o 21%. Mae'r holl asedau eraill yn cael eu dibrisio / hamorteiddio ar sail llinell syth dros eu bywyd economaidd defnyddiol disgwylidig. Caiff dibrisiant ei godi yn y mis y caiff ased ei waredu i'r Datganiad o Wariant Cynhwysfawr, ond nid yn y mis y caiff ased ei gaffael.

Caiff bywydau asedau wedi'u hamcangyfrif eu hadolygu, a'u haddasu os yw'n briodol, ar bob dyddiad adrodd. Mae'r prif fywydau economaidd a ddefnyddir at ddibenion dibrisiant fel a ganlyn:

Categori o Asedau	Prif fywyd economaidd
Asedau diriaethol	
Strwythurau gweithredol	5 - 100 o flynyddoedd
Adeiladau ac anheddau	10 - 60 o flynyddoedd
Offer a pheiriannau	4 - 25 o flynyddoedd
Technoleg Gwybodaeth	3 - 10 o flynyddoedd
Asedau anniriaethol	
Trwyddedau meddalwedd	5 - 25 o flynyddoedd
Trwyddedau eraill	5 - 100 o flynyddoedd
Datblygu meddalwedd	3 - 10 o flynyddoedd

Mae'r ystod yn y bywydau economaidd yn adlewyrchu'r amrywiaeth eang o fathau o asedau o fewn y categorïau o asedau.

Gwarediadau

Pan fydd ased yn cael ei waredu, mae ei swm cario yn cael ei ddileu i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr fel rhan o'r enillion neu gollod ar waredu. Mae derbyniadau o warediadau (os oes rhai) yn cael eu credydu i'r un llinell hefyd. Caiff unrhyw enillion ailbriso cronedig ar gyfer yr ased yn y Gronfa Ailbriso Wrth Gefn eu trosglwyddo i'r Gronfa Gyffredinol.

Y gronfa ailbrisi

Mae'r gronfa ailbrisi yn dangos yr enillion a wnaed gan Gyfoeth Naturiol Cymru sy'n deillio o'r cynnydd yng ngwerth asedau nad ydynt yn gyfredol. Caiff y balans ei leihau pan gaiff asedau ag enillion cronedig:

- Eu hailbrisi tuag at i lawr neu pan gaiff eu gwerth ei leihau a cholli yr enillion.
- Eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau a chaiff yr enillion eu colli trwy ddibrisiant.
- Eu gwaredu a gwireddir yr enillion.

Caiff swm sy'n cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng y dibrisiant a godir ar yr asedau a ailbrisir a'r hyn a fyddai wedi cael ei godi pe bai'r asedau wedi'u dangos ar gost ei drosglwyddo o'r gronfa ailbrisi i'r gronfa gyffredinol.

Amhariad

Mae asedau tymor hir yn destun adolygiadau amhariad blynyddol. Caiff amhariadau eu cydnabod pan fydd y swm y gellir ei adennill o asedau nad ydynt yn gyfredol yn disgyn islaw eu gwerth llyfr net, o ganlyniad i naill ai ostyngiad mewn gwerth oherwydd amodau'r farchnad neu golled mewn budd economaidd. Mae ailbrisiadau tuag i lawr o ganlyniad i newidiadau yn y gwerth ar y farchnad yn arwain at amhariad dim ond lle mae'r ased yn cael ei ailbrisi yn is na'i swm cario cost hanesyddol. Mae'r FReM yn ei gwneud yn ofynnol i effaith yr ailbrisi tuag i lawr gael ei osod yn gyntaf yn erbyn unrhyw falans cronedig yn y gronfa ailbrisi. Mae unrhyw swm sy'n ychwanegol at hyn yn cael ei gydnabod fel amhariad trwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Caiff unrhyw golled o fudd economaidd ei gydnabod yn llawn yn erbyn gwariant. Mae swm hyd at werth yr amhariad yn cael ei drosglwyddo o'r gronfa ailbrisi wrth gefn i'r gronfa gyffredinol ar gyfer yr asedau unigol dan sylw.

Asedau tymor hir a ddelir i'w gwerthu

Dosberthir asedau tymor hir yn asedau a ddelir i'w gwerthu os caiff y swm cario ei adennill yn bennaf drwy werthu'r asedau yn hytrach na thrwy barhau i'w defnyddio. Daw'r broses ddibrisio i ben ar unwaith ar ôl i'r asedau gael eu dosbarthu'n rhai sy'n cael eu dal i'w gwerthu. Maent yn cael eu datgan ar yr isaf o'u swm cario a gwerth teg llai costau gwerthu. Maent yn cael eu cofnodi fel asedau cyfredol yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

Dim ond os yw'r rheolwyr yn ymrwymedig i gynllun i'w gwerthu ac os yw'r asedau'n cael eu marchnata yn eu cyflwr presennol am bris sy'n rhesymol mewn perthynas â'u cyflwr presennol yr ystyrir bod asedau anghyfredol yn asedau sy'n cael eu dal i'w gwerthu.

7.1 Asedau anghyfredol diriaethol

	Yr ystâd goedwig	Tir arall	Adeiladau	Offer a pheiriannau	Technoleg gwybodaeth	Strwythurau gweithredol	Asedau sy'n cael eu hadeiladu	Cyfanswm eiddo cyfarpar ac offer	Asedau biolegol	Asedau treftadaeth	Cyfanswm asedau diriaethol
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cost neu Brisiad											
Ar 1 Ebrill 2015	524,297	39,657	20,881	23,756	13,912	58,909	3,025	684,437	117,881	6,432	808,750
Ychwanegiadau o drosglwyddo swyddogaeth	0	152	364	758	19	180	0	1,473	0	0	1,473
Ychwanegiadau	0	206	0	140	0	21	2,427	2,794	0	0	2,794
Asedau a gomisiynwyd yn ystod y flwyddyn	0	101	0	1,213	0	566	(1,880)	0	0	0	0
Addasiadau adolygu asedau a diddymiadau	0	(95)	0	(238)	(1,195)	(540)	0	(2,068)	0	0	(2,068)
Costau'r flwyddyn flaenorol wedi'u gwario	0	0	0	0	0	(436)	(387)	(823)	0	0	(823)
Gwarediadau	(33)	(469)	(225)	(1,272)	(19)	0	0	(2,018)	0	0	(2,018)
Symudiad o / (i) a ddelir i'w gwerthu	9	788	0	0	0	0	0	797	0	0	797
Torri coed	(5,072)	0	0	0	0	0	0	(5,072)	(1,822)	0	(6,894)
Mynegeio ac ailbriso	92,602	12,556	(8,274)	16	177	9,283	0	106,360	(13,609)	0	92,751
Ailddosbarthu	0	1,022	36	0	0	(329)	0	729	0	0	729
Ar 31 Mawrth 2016	611,803	53,918	12,782	24,373	12,894	67,654	3,185	786,609	102,450	6,432	895,491
Dibrisiant											
Ar 1 Ebrill 2015	0	0	5,320	16,245	3,299	14,673	0	39,537	0	0	39,537
Ychwanegiadau o drosglwyddo swyddogaeth	0	0	193	516	14	57	0	780	0	0	780
Y codwyd tâl amdanynt yn y flwyddyn	0	0	644	2,187	3,858	1,751	0	8,440	0	0	8,440
Addasiadau adolygu asedau a diddymiadau	0	0	0	(208)	(1,172)	(156)	0	(1,536)	0	0	(1,536)
Costau'r flwyddyn flaenorol wedi'u gwario	0	0	0	0	0	(48)	0	(48)	0	0	(48)
Gwarediadau	0	0	(191)	(1,161)	(15)	0	0	(1,367)	0	0	(1,367)
Mynegeio ac ailbriso	0	0	(5,718)	7	79	(5,566)	0	(11,198)	0	0	(11,198)
Ailddosbarthu	0	0	67	0	0	(67)	0	0	0	0	0
Ar 31 Mawrth 2016	0	0	315	17,586	6,063	10,644	0	34,608	0	0	34,608
Swm a gariwyd ar 1 Ebrill 2015	524,297	39,657	15,561	7,511	10,613	44,236	3,025	644,900	117,881	6,432	769,213
Swm a gariwyd ar 31 Mawrth 2016	611,803	53,918	12,467	6,787	6,831	57,010	3,185	752,001	102,450	6,432	860,883
Ariannu Asedau											
Wedi'u perchnogi	568,985	49,516	12,467	6,120	6,831	57,010	3,185	704,114	102,450	6,432	812,996
Wedi'u prydlesu	42,818	4,402	0	667	0	0	0	47,887	0	0	47,887
Swm a gariwyd ar 31 Mawrth 2016	611,803	53,918	12,467	6,787	6,831	57,010	3,185	752,001	102,450	6,432	860,883

Mae adeiladau yn cynnwys anheddau gyda swm cario o £350k. Mae ein hadeiladau eraill yn swyddfeydd ac yn lleoliadau gwaith.

Ffigurau cymharol ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2015

	Yr ystâd goedwig	Tir arall	Adeiladau	Offer a pheiriannau	Technoleg gwybodaeth	Strwythurau gweithredol	Asedau sy'n cael eu hadeiladu	Cyfanswm eiddo cyfarpar ac offer	Asedau biolegol	Asedau treftadaeth	Cyfanswm asedau diriaethol
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cost neu Brisiad											
Ar 1 Ebrill 2014	495,112	39,442	18,897	23,242	3,327	52,859	11,401	644,280	100,051	6,432	750,763
Addasiad i'r balans agoriadol	0	(8)	0	(6)	0	0	(1)	(15)	0	0	(15)
Ychwanegiadau o ddilysu	0	160	0	0	0	0	0	160	0	0	160
Ychwanegiadau	0	73	0	1,077	4,059	140	2,108	7,457	0	0	7,457
Asedau a gomisiynwyd yn ystod y flwyddyn	0	8	0	851	6,509	2,908	(10,276)	0	0	0	0
Addasiadau adolygu asedau a diddymadau	0	(39)	(142)	(1,099)	(112)	(405)	0	(1,797)	0	0	(1,797)
Costau'r flwyddyn flaenorol wedi'u gwario	0	(129)	0	0	0	(75)	(189)	(393)	0	0	(393)
Gwarediadau	(9)	(53)	0	(243)	0	(45)	(18)	(368)	(3)	0	(371)
Rhai a ailddosbarthwyd fel rhai a ddelir i'w gwerthu	(9)	(969)	0	0	0	0	0	(978)	0	0	(978)
Torri coed	(5,200)	0	0	0	0	0	0	(5,200)	(1,868)	0	(7,068)
Mynegeio	34,403	1,361	1,045	(75)	138	4,612	0	41,484	19,701	0	61,185
Ailddosbarthu	0	(189)	1,081	9	(9)	(1,085)	0	(193)	0	0	(193)
Ar 31 Mawrth 2015	524,297	39,657	20,881	23,756	13,912	58,909	3,025	684,437	117,881	6,432	808,750
Dibrisiant											
Ar 1 Ebrill 2014	0	0	4,157	14,820	2,257	12,507	0	33,741	0	0	33,741
Addasiad i'r balans agoriadol	0	0	0	(6)	0	0	0	(6)	0	0	(6)
Y codwyd tâl amdanynt yn y flwyddyn	0	0	681	2,545	1,125	1,636	0	5,987	0	0	5,987
Addasiadau adolygu asedau a diddymadau	0	0	(142)	(869)	(108)	(89)	0	(1,208)	0	0	(1,208)
Gwarediadau	0	0	0	(199)	0	(9)	0	(208)	0	0	(208)
Mynegeio	0	0	217	(46)	25	1,035	0	1,231	0	0	1,231
Ailddosbarthu	0	0	407	0	0	(407)	0	0	0	0	0
Ar 31 Mawrth 2015	0	0	5,320	16,245	3,299	14,673	0	39,537	0	0	39,537
Swm a gariwyd ar 1 Ebrill 2014	495,112	39,442	14,740	8,422	1,070	40,352	11,401	610,539	100,051	6,432	717,022
Swm a gariwyd ar 31 Mawrth 2015	524,297	39,657	15,561	7,511	10,613	44,236	3,025	644,900	117,881	6,432	769,213
Ariannu Asedau											
Wedi'u perchnogi	508,915	36,429	15,561	6,519	10,613	44,236	3,025	625,298	117,881	6,432	749,611
Wedi'u prydlesu	15,382	3,228	0	992	0	0	0	19,602	0	0	19,602
Swm a gariwyd ar 31 Mawrth 2015	524,297	39,657	15,561	7,511	10,613	44,236	3,025	644,900	117,881	6,432	769,213

Mae adeiladau yn cynnwys anheddau gyda swm cario o £416k. Mae ein hadeiladau eraill yn swyddfeydd ac yn lleoliadau gwaith.

7.1.1 Yr ystad goedwig

Cafodd perchnogaeth gyfreithiol Ystad Coetir Llywodraeth Cymru ei roi i Weinidogion Cymru. Mae wedi ei gynnwys yn Natganiad o Sefyllfa Ariannol Cyfoeth Naturiol Cymru gan ei fod yn cario'r risg ariannol a'r gwobrau sy'n gysylltiedig â'r ystad ac yn ymgymryd â holl weithgareddau rheoli ystadau. Mae'r stad yn cynnwys tir a choed sy'n tyfu. Mae perchnogaeth gyfreithiol y pren, gan gynnwys coed heb eu torri, yn cael ei roi i Gyfoeth Naturiol Cymru

Mae coetiroedd a choedwigoedd yn cael eu dal a'u rheoli'n bennaf i fodloni'r amcanion rheoli coedwigoedd cynaliadwy a nodir yn Coetiroedd i Gymru (strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer coetiroedd a choed). Gall eu pwrpas gael ei rannu rhwng pwrpas economaidd (cyfraniad at economi Gymreig ffyniannus a chynaliadwy) a phwrpasau eraill (cymdeithasol, amgylcheddol, newid yn yr hinsawdd). O dan Safon Archwilio Ryngwladol 41 (Amaethyddiaeth), rhaid i bren a dyfir ar gyfer pwrpas economaidd gael ei ddsbarthu fel asedau biolegol. Mae gweddill y pren, ynghyd â'r holl dir gwaelodol, yn cael ei ddsbarthu fel eiddo, offer a chyfarpar a chyfeirir ato fel yr ystad goedwig.

Dangosir yr asedau yn y ddau gategori yn ôl eu gwerth teg. Mae priswyr proffesiynol allanol yn cynnal prisiad o'r ystad bob pum mlynedd. Penodwyd John Clegg a'i Gwmni fel priswyr ar gyfer y prisiad diwethaf ar 31 Mawrth 2016. Yn unol â Gwerthusiad a Safonau Prisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS) (y Llyfr Coch), mae'r ystad yn cael ei phrisio fel y bo'n briodol ar gyfer cael gwerth teg. Yn y blynyddoedd rhyngddynt, defnyddir mynegeion arfer i ailddatgan gwerthoedd. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru a'i briswyr proffesiynol allanol wedi datblygu prosesau, gan gynnwys rhagdybiaethau allweddol, sy'n cynhyrchu amcangyfrif rhesymol o brisiad cydymffurfiol.

Cymerir addasiadau sy'n deillio o ailbrisiad o'r ystad goedwig i'r gronfa ailbrisiad ac maent yn cael eu rhyddhau i'r Gronfa Gyffredinol pan wneir enillion wrth dorri coed. Mae addasiadau sy'n deillio o ailbrisiad asedau biolegol yn cael eu cydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ym mlwyddyn yr ailbrisiad.

Technegau amcangyfrif, rhagdybiaethau a barnau

Mae elfennau o'r prisiad, ac felly'r cyfrifyddu ar gyfer yr asedau hyn yn dibynnu ar dechnegau amcangyfrif.

Ystyrir na fyddai'n gost effeithiol cynnal prisiad proffesiynol allanol bob pum mlynedd sy'n cwmpasu pob ardal o goetir. Yn dilyn cyngor gan briswyr â chymwysterau proffesiynol ystyrir y gellir cael prisiad rhesymol drwy brisiad hapsampl o eiddo sy'n cynrychioli rhwng 8 a 10 y cant o'r ystad goedwig ac allosod y rhain ar gyfer yr ystad goedwig gyfan, a defnyddio ffactorau lleoliad, rhywogaethau, oedran ac ansawdd (dosbarth cynnyrch) y coed.

Ystyrir hefyd y ceir y dystiolaeth fwyaf priodol o werth sy'n seiliedig ar y farchnad o'r farchnad ar gyfer gwerthu coetiroedd a choedwigoedd sydd ag arwynebedd o fwy na 50 hectar. Cydnabyddir, serch hynny, y gall gwerthoedd amrywio'n fawr ac y gall y barnau hyn fod braidd yn oddrychol. Felly, bydd unrhyw brisiad o goedwigoedd yn dibynnu i ryw raddau ar farnbroffesiynol. Wedyn mae'r priswyr allanol yn pennu gwerthoedd i dir a phren. Amcangyfrifir y bydd gwerth tir prydlesol 15% yn llai na thir rhydd-ddaliadol.

Cafodd y gwaith o ddsrannu coed rhwng asedau biolegol ac eiddo, peiriannau ac offer ei wneud gan staff Cyfoeth Naturiol Cymru gan ddefnyddio barnau ac amcangyfrifon. Gwnaed asesiad o'r gyfran a oedd yn cael ei dal yn bennaf ar gyfer pwrpas economaidd a defnyddiwyd y ganran i bennu gwerth coed a oedd wedi'u ddsbarthu fel ased biolegol. Pe bai tir yn cael ei gaffael neu ei waredu a fyddai'n creu newid llwyr yn ein daliad tir o'r ystad goedwig o 10 y cant neu fwy, byddai adolygiad interim o'r asesiad yn cael ei gynnal. Nid oedd unrhyw newid o'r fath yn ystod y cyfnod yn diweddu ar 31 Mawrth 2016. Y rhaniad canrannol ar hyn o bryd yw 26% ar gyfer asedau biolegol a 74% ar gyfer Eiddo, Offer a Chyfarpar. Fel sy'n ofynnol o dan IAS 41, mae gwerth teg asedau biolegol yn cael ei leihau gan gostau wedi'u hamcangyfrif i'r pwynt gwerthu. Amcangyfrifir bod y costau hyn ar bump y cant o werthoedd pren ac yn adlewyrchu costau gwerthu'r coetir neu goedwig.

Cynllun coedwigo ar y cyd Llyn Efyrynwy

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoli coedwig yn ardal Llyn Efyrynwy o dan gynllun coedwigo ar y cyd gyda Severn Trent Water. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael incwm ac yn mynd i gostau. Gwneir taliad blynyddol sy'n cyfateb i 50% o'r gwarged gweithredu i Severn Trent Water. Dengys Cyfoeth Naturiol Cymru werth 50% o'r coed sy'n tyfu ar gyfer yr ardal hon o goedwig yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, wedi'i rannu rhwng yr ystad goedwig ac asedau biolegol. Ni chynhwysir gwerth y tir o dan y goedwig (sy'n dal i fod yn eiddo i Severn Trent Water).

7.1.2 Asedau treftadaeth

Mae asedau treftadaeth yn asedau diriaethol gyda rhinweddau hanesyddol, artistig, gwyddonol, technolegol, geoffisegol neu amgylcheddol sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n bennaf am eu cyfraniad at wybodaeth a diwylliant. Bwriedir iddynt gael eu cadw mewn ymddiriedolaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol oherwydd eu cysylltiadau diwylliannol, amgylcheddol neu hanesyddol.

Mae ein Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol yn bodloni'r meini prawf ar gyfer asedau treftadaeth. Maent yn cynnwys tir heb fod yn weithredol o fewn ardaloedd cadwraeth dynodedig a sefydlwyd i warchod ac i ganiatáu i bobl astudio eu bywyd gwylt, cynefinoedd neu nodweddion daearegol o ddiddordeb arbennig. Mae'r tir yn cael ei ddal ar gyfer cadwraeth ac at ddefnydd cyhoeddus cynaliadwy. O dan ddehongliad FReM o IAS 16 (Eiddo, Offer a Chyfarpar) mae'r asedau hyn wedi cael eu cyfalafu ar sail cost.

Ar 31 Mawrth 2016 mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoli 58 o Warchodfeydd Natur Cenedlaethol Cymru, naill ai'n gyfan gwbl, neu mewn partneriaeth, ac un Warchodfa Natur Forol (GNF). Ni fu unrhyw bryniant sylweddol o dir yn ystod y tair blynedd ariannol ddiwethaf

Mae rhagor o wybodaeth am asedau treftadaeth a pholisïau Cyfoeth Naturiol Cymru ar gaffael, cadwraeth, rheolaeth, gwaredu a mynediad at asedau treftadaeth i'w gweld ar ein gwefan yn:

<http://naturalresources.wales/conservation-biodiversity-and-wildlife/find-protected-areas-of-land-and-seas/?lang=cy>

7.2 Asedau anghyfredol anniriaethol

	Trwyddedau meddalwedd	Trwyddedau eraill	Gwariant ar ddatblygu meddalwedd	Gwefan	Asedau sy'n cael eu hadeiladu	Cyfanswm asedau anniriaethol
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Cost neu Brisiad						
Ar 1 Ebrill 2015	5,130	2,607	4,554	165	862	13,318
Ychwanegiadau o drosglwyddo swyddogaeth	8	0	0	0	0	8
Ychwanegiadau	377	0	0	0	6,250	6,627
Asedau a gomisiynwyd yn ystod y flwyddyn	632	0	0	0	(632)	0
Addasiadau adolygu asedau a diddymiaidau	(108)	0	(118)	0	0	(226)
Addasiadau'r flwyddyn flaenorol	0	0	0	0	(19)	(19)
Gwarediadau	(57)	0	0	0	0	(57)
Mynegeo ac ailbriso	(87)	541	(44)	(4)	0	406
Aiildosbarthu	0	(729)	0	0	0	(729)
Ar 31 Mawrth 2016	5,895	2,419	4,392	161	6,461	19,328
Amorteiddiad						
Ar 1 Ebrill 2015	1,509	28	3,384	0	0	4,921
Ychwanegiadau o drosglwyddo swyddogaeth	7	0	0	0	0	7
Codwyd tâl amdanynt yn y flwyddyn	900	28	388	31	0	1,347
Addasiadau adolygu asedau a diddymiaidau	(98)	0	(118)	0	0	(216)
Gwarediadau	(54)	0	0	0	0	(54)
Mynegeo ac ailbriso	(7)	0	(11)	1	0	(17)
Ar 31 Mawrth 2016	2,257	56	3,643	32	0	5,988
Swm a gariwyd ar 1 Ebrill 2015	3,621	2,579	1,170	165	862	8,397
Swm a gariwyd ar 31 Mawrth 2016	3,638	2,363	749	129	6,461	13,340
Ariannu Asedau						
Wedi'u perchnogi	3,638	2,363	749	129	6,461	13,340
Swm a gariwyd ar 31 Mawrth 2016	3,638	2,363	749	129	6,461	13,340

Ffigurau cymharol ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2015

	Trwyddedau meddalwedd	Trwyddedau eraill	Gwariant ar ddatblygu meddalwedd	Gwefan	Asedau sy'n cael eu hadeiladu	Cyfanswm asedau anniriaethol
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Amorteiddiad						
Ar 1 Ebrill 2014	2,608	2,045	4,803	0	1,801	11,257
Ychwanegiadau	1,075	2	0	39	1,958	3,074
Asedau a gomisiynwyd yn ystod y flwyddyn	2,124	249	0	116	(2,489)	0
Addasiadau adolygu asedau a diddymiaidau	(937)	(23)	(487)	0	0	(1,447)
Costau'r flwyddyn flaenorol wedi'u gwario	0	0	0	0	(408)	(408)
Mynegeo ac ailbriso	260	141	238	10	0	649
Aiildosbarthu	0	193	0	0	0	193
Ar 31 Mawrth 2015	5,130	2,607	4,554	165	862	13,318
Amortisation						
At 1 April 2014	2,038	0	2,492	0	0	4,530
Codwyd tâl amdanynt yn y flwyddyn	351	26	847	0	0	1,224
Addasiadau adolygu asedau a diddymiaidau	(937)	0	(155)	0	0	(1,092)
Mynegeo ac ailbriso	57	2	200	0	0	259
Ar 31 Mawrth 2015	1,509	28	3,384	0	0	4,921
Swm a gariwyd ar 1 Ebrill 2014	570	2,045	2,311	0	1,801	6,727
Swm a gariwyd ar 31 Mawrth 2015	3,621	2,579	1,170	165	862	8,397
Ariannu Asedau						
Wedi'u perchnogi	3,621	2,579	1,170	165	862	8,397
Swm a gariwyd ar 31 Mawrth 2015	3,621	2,579	1,170	165	862	8,397

8. Rhwymedigaethau ac offerynnau ariannol

8.1 Rhwymedigaeth ariannol

Mae'r rhwymedigaeth ariannol o £39,991k a adroddwyd yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol yn cynnwys £39,844k o rwymedigaeth o gytundebau gweithredu cronfeydd

Yn 1989, er mwyn ei gwneud yn bosibl i breifateiddio ddigwydd, negododd Llywodraeth EM gytundebau gweithredu cronfeydd gyda'r cwmnïau dŵr. Roedd y cytundebau hyn yn cynnwys taliadau sefydlog (wedi'u mynegeo yn flynyddol ar y Mynegai Prisiau Manwerthu) sy'n daladwy am byth i'r cwmnïau dŵr. Erbyn hyn mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am y taliadau i Dŵr Cymru Welsh Water.

Gan fod cyfanswm y rhwymedigaeth wedi cael ei chyfrifo fel bythol-daliadau ar sail cost amorteiddiedig ni fydd yn newid o flwyddyn i flwyddyn ac eithrio mewn achos annhebygol lle bydd y cytundeb yn dod i ben. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu adennill cost lawn cytundebau gweithredu cronfeydd dŵr, gan gynnwys y mynegeo blynyddol drwy ei daliadau ar gyfer tynnu dŵr.

Talwyd £5,226k i Ddŵr Cymru Welsh Water yn ystod 2015/16 (£5,189k yn 2014/15) ar gyfer y taliadau sefydlog wedi'u mynegeo. Mae'r rhain yn cael eu cynnwys gyda thaliadau eraill o dan y cytundebau gweithredu cronfeydd yn Nodyn 5

8.2 Offerynnau ariannol

Gan fod gofyniad arian parod Adnoddau Naturiol Cymru yn cael ei fodloni yn bennaf drwy gymorth grant, mae offerynnau ariannol yn chwarae rhan fwy cyfyngedig o ran creu a rheoli risg nag a fyddai'n berthnasol i gorff yn y sector nad yw'n gyhoeddus. Mae'r rhan fwyaf o offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau i brynu eitemau anariannol yn unol â gofynion prynu a defnyddio disgwylidig Cyfoeth Naturiol Cymru ac felly mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei amlygu i ddim ond ychydig o risg o ran credyd, hylifedd neu'r farchnad.

9. Dyledwyr masnachol a symiau derbyniadwy eraill

	31 Mawrth 2016	31 Mawrth 2015
	£'000	£'000
Dyledwyr masnachol	6,520	5,951
Darpariaeth ar gyfer dyledion amheus	(413)	(355)
Incwm cronedig	3,869	3,158
TAW derbyniadwy	3,129	3,102
Rhagdaliadau	2,009	1,740
Incwm Ewropeaidd Cronedig	1,201	3,138
Derbyniadau eraill	158	515
Adneuo	23	211
Cyfanswm	16,496	17,460

10. Arian parod a chyfwerthoedd arian

	31 Mawrth 2016	31 Mawrth 2015
	£'000	£'000
Balans agoriadol	26,798	15,111
Newid net mewn arian a chyfwerthoedd arian yn y cyfnod	(4,063)	11,687
Cyfanswm	22,735	26,798

Roedd y balansau canlynol yn cael eu dal ar 31 Mawrth

Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth	17,695	32,075
Cyfrifon banc eraill	5,039	(5,278)
Arian mewn llaw	1	1
Cyfanswm	22,735	26,798

11. Credydwyr masnachol a symiau taladwy eraill

	31 Mawrth 2016	31 Mawrth 2015
	£'000	£'000
Credydwyr masnachol cronedig	7,273	13,956
Incwm gohiriedig	6,705	6,007
Tâl gwyliau	1,606	1,765
Credydwyr masnachol	1,464	1,237
Prydlesi cyllid	718	1,219
Adneuo cwsmeriaid a derbyniadau ymlaen llaw	271	268
Symiau taladwy eraill	106	55
Bondiau a blaendaliadau	1,425	1,404
Total	19,568	25,911

12. Darpariaethau

	Costau ymadael yn gynnar £'000	Arall £'000	Cyfanswm £'000
Balans ar 1 Ebrill 2015	415	2,540	2,955
Darparwyd yn ystod y flwyddyn	0	1,287	1,287
Rhyddhawyd yn y flwyddyn	(5)	(1,303)	(1,308)
Defnyddiwyd yn y flwyddyn	(154)	(1,201)	(1,355)
Dirwyn disgownt i ben	3	0	3
Balans ar 31 Mawrth 2016	259	1,323	1,582
Amcangyfrif o amseriad llifau arian wedi'u disgowntio			
Yn ddyledus o fewn blwyddyn	131	1,323	1,454
Yn ddyledus rhwng un a phum mlynedd	128	0	128
Cyfanswm	259	1,323	1,582

Yn unol â gofyniad IAS 37 (Darpariaethau, Rhwymedigaethau Wrth Gefn ac Asedau Wrth Gefn), lle mae hynny'n berthnasol, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau sy'n codi o ddigwyddiadau yn y gorffennol lle mae rhwymedigaeth bresennol ar y dyddiad adrodd, mae'n debygol y bydd gofyn i ni i setlo'r rhwymedigaeth ac y gellir gwneud amcangyfrif ariannol dibynadwy. Pan fydd hynny'n berthnasol, mae costau darpariaethau yn y dyfodol yn cael eu disgowntio gan ddefnyddio'r cyfraddau a orchmyynnwyd gan Drysorlys EM.

Mae darpariaeth ar gyfer costau gadael yn gynnar yn cynnwys taliadau iawndal blyneddol i gyn-staff a adawodd o dan raglenni ymddeol yn gynnar cyrff etifeddol. Mae'r taliadau hyn yn cael eu mynegeo gan fynegai prisiau'r defnyddwyr ac yn parhau nes bydd pob unigolyn yn cyrraedd oedran pensiwn. Mae'r ddarpariaeth yn cynrychioli'r gost i Gyfoeth Naturiol Cymru, gan ddefnyddio cyfradd mynegeo o 0% (1.2% yn 2014/15), ac a gafodd ei disgowntio yn ôl cyfradd ddisgownt Trysorlys EM o 1.2% (1.2% yn 2014/15).

Mae darpariaethau eraill yn cynnwys £1,197k o'r cynigion grant i ariannu gwaith sydd i'w wneud hyd at 31 Mawrth 2016, ond na fydd yn cael ei hawlio tan fis Mehefin 2016 ac £126k ar gyfer hawliadau eraill. Disgwylir y bydd pob un o'r rhain yn cael eu talu o fewn y deuddeg mis nesaf.

Mae cost y ddarpariaeth ychwanegol a newidiadau yn y disgownt ar gyfer darpariaeth costau gadael yn gynnar yn cael eu cynnwys yn nodyn 3. Dangosir costau'r darpariaethau eraill ychwanegol yn nodyn 5. Mae cyfanswm y darpariaethau a nodwyd uchod yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol o dan rhwymedigaethau. Mae'r ddarpariaeth ychwanegol ar gyfer dyledion amheus, a ddangosir hefyd yn nodyn 5, yn cael ei chynnwys yng nghyfanswm y ddarpariaeth ar gyfer dyledion amheus yn nodyn 9 a'u cynnwys yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol o dan asedau a dderbynir.

13. Rhwymedigaethau pensiwn

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn aelod o ddau gynllun pensiwn, sef Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (CSPS) a Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS).

Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil

Mae Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (CSPS) yn agored i weithwyr newydd.

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil - Cynllun Pensiwn y Gweision Sifil ac Eraill neu alpha, sy'n darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol sy'n cyfateb i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw fe wnaeth pob gwas sifil a benodwyd yn ddiweddar a mwyafrif y rhai sydd eisoes mewn gwasanaeth ymuno ag alffa. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn cymryd rhan yng Nghynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae gan y PCSPS bedair adran: 3 yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol (classic, premium neu classic plus) gydag oedran pensiwn arferol o 60; ac un sy'n darparu buddion ar sail gyrfa gyfan (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu a chaiff costau'r buddion eu talu gan arian a bleidleisir gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan classic, premium, classic plus, nuvos ac alffa yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynnydd Pensiynau. Arhosodd aelodau presennol o'r PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai a oedd rhwng 10 mlynedd a 13 mlynedd a 5 mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i mewn i alpha rywbryd rhwng 1 Mehefin, 2015 ac 1 Chwefror, 2022. Mae pob aelod sy'n newid i alffa yn cael eu buddion PCSPS wedi eu 'bancio', gyda'r rhai sydd â buddion cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS yn cael y buddion hynny wedi eu seilio ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alffa. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd o fewn PCSPS neu alffa - fel y bo'n briodol. Lle bo gan y swyddog fuddion yn y PCSPS ac alffa y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun). Gallai aelodau sy'n ymuno o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant budd diffiniedig priodol neu bensiwn rhanddeiliad 'prynu ag arian' gyda chyfraniad cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau gweithwyr cyflogedig yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 3% ac 8.05% o enillion pensiynadwy ar gyfer aelodau'r cynllun classic (ac aelodau o'r cynllun alffa a oedd yn aelodau o'r cynllun classic yn union cyn ymuno ag alffa) a rhwng 4.6% ac 8.05% ar gyfer aelodau o premium, classic plus, nuvos a phob aelod arall o alffa. Mae buddion mewn classic yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol yn daladwy wrth ymddeol. Ar gyfer premium, mae buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o'r enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i classic, nid oes unrhyw gyfandaliad awtomatig. Mae classic plus yn gynllun hybrid yn ei hanfod gyda buddion am wasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi'u cyfrifo'n fras fel y cynllun classic a buddion am wasanaeth o Hydref 2002 wedi eu cyfrifo fel yn y premiwm. Yn nuvos mae aelod yn cronni pensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy yn ystod ei gyfnod aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae cyfrif pensiwn a enillwyd yr aelod yn cael ei gredydu â 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno o'r cynllun a chaiff y pensiwn cronedig ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth Cynnydd Pensiynau. Mae buddion mewn alffa yn cronni mewn ffordd debyg i nuvos, ac eithrio mai'r gyfradd gronol yw 2.32%. Ym mhob achos, gallai aelodau ddewis ildio (cyfnewid) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a osodir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn rhanddeiliaid. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 3% a 12.5% hyd at 30 Medi 2015 ac 8% ac 14.75% o 1 Hydref 2015 (gan ddbynnu ar oedran yr aelod) i gynnyrch pensiwn rhanddeiliaid a ddewisir gan y gweithiwr o blith panel o ddarparwyr. Nid oes rhaid i'r gweithiwr gyfrannu, ond os bydd yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn cyfateb y rhain hyd at uchafswm o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8% pellach o gyflog pensiynadwy hyd at 30 Medi 2015 a 0.5% o gyflog pensiynadwy o 1 Hydref 2015 i dalu cost yswiriant buddiant risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeol oherwydd salwch).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w dderbyn pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth ar ôl peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd neu dros oedran pensiwn. Yr oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau classic, premium a classic plus, 65 ar gyfer aelodau nuvos, a'r uchaf o 65 neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer aelodau o alffa. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd o fewn PCSPS neu alffa - fel y bo'n briodol. Lle bo gan y swyddog fuddion yn y PCSPS ac alffa y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun, ond noder y gallai rhan o'r pensiwn fod yn daladwy o wahanol oedranau.)

Gellir cael manylion pellach am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan:

www.civilservicepensionscheme.org.uk

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL)

Ar 1 Ebrill 2013, cafodd gweithgareddau pensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (AAC) eu trosglwyddo i Gyfoeth Naturiol Cymru yn unol â Chynllun Trosglwyddo Corff Adnoddau Naturiol Cymru 2013 o dan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011. Mae gweithwyr CNC a oedd yn weithwyr AAC yn parhau'n aelodau o Gronfa Bensiwn Asiantaeth yr Amgylchedd (EAPF) fel corff a dderbyniwyd.

Mae EAPF yn gweithredu cynllun pensiwn buddion diffiniedig statudol, a weinyddir yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Buddion, Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007, Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Gweinyddu) 2008 a Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol) 2008. Mae wedi ei gontractio allan o Ail Bensiwn y Wladwriaeth. Mae mwy o fanylion am y gronfa pensiwn, gan gynnwys ei hadroddiad blynyddol a'r cyfrifon, ar wefan EAPF, www.eapf.org.uk.

Cyfanswm y tâl pensiwn ar gyfer CNC oedd £8,325,000. Cafodd y tâl pensiwn yn ymwneud â'r cynllun ei asesu yn unol â chyngor actiwari cymwysedig annibynnol gan ddefnyddio'r dull uned amcanol o briso i gyfrifo costau gwasanaeth.

Cynhaliwyd prisiad actiwaraidd bob tair blynedd diweddaraf yr EAPF ar 31 Mawrth 2013. Roedd yr asedau a gymerwyd ar werth y farchnad (£2.1 biliwn) yn ddigon i dalu am 90% o werth y rhwymedigaethau o ran buddion gwasanaeth blaenorol a oedd wedi cronni i'r aelodau. Mae CNC wedi derbyn argymhelliad yr actiwari annibynnol mewn perthynas â chyfraniadau cyflogwyr yn y dyfodol. Bydd y prisiad actiwaraidd bob tair blynedd nesaf ar 31 Mawrth 2016 ac fe'i defnyddir i bennu cyfraddau cyfraniadau'r cyflogwr ar gyfer y cyfnod o dair blynedd sy'n dechrau 1 Ebrill, 2017.

Mae'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol ar gyfer yr EAPF yn adrodd bod ganddo ddigon o asedau i gwrdd ag 85% o'i rwymedigaethau disgwylidig yn y dyfodol ar 31 Mawrth 2016 ar sail gyllido barhaus. Cyfrifir cyfran CNC o rwymedigaethau'r EAPF fel yr adroddwyd yn y datganiadau ariannol hyn gan ddefnyddio tybiaethau actiwaraidd, sy'n ofynnol gan IAS19, sy'n wahanol i'r rhai a ddefnyddiwyd yn adroddiad blynyddol yr EAPF. Mae hyn yn arwain at lefel ariannu gwahanol i'r hyn a nodwyd gan yr EAPF.

Y prif wahaniaeth yn y dybiaeth yw'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir i roi gwerth ar rwymedigaethau pensiwn. Mae cyfradd ddisgownt EAPF yn seiliedig ar arenillion tymor hir bondiau llywodraeth y DU ac yn cymryd yn ganiataol lefel o orberfformiad o ran asedau yn y dyfodol gan y bondiau sy'n eiddo i'r EAPF. Mae'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir yn y datganiadau ariannol hyn, fel sy'n ofynnol gan IAS 19 yn seiliedig ar arenillion bondiau corfforaethol o safon uchel, heb unrhyw ragdybiaeth ychwanegol am berfformiad asedau. Mae'r dadansoddiad sensitifrwydd yn nodyn 13.4 yn dangos sensitifrwydd rhwymedigaethau'r gronfa i wahaniaeth yn y gyfradd ddisgownt.

Mae nifer o ragdybiaethau yn cael eu gwneud fel rhan o broses y prisiad actiwaraidd. Nid yw'r tybiaethau actiwaraidd darbodus a ddefnyddir yn cynrychioli barn am yr hyn y gallai symudiadau cyflog yn y dyfodol fod. Tybiwyd y bydd pensiynau presennol ac yn y dyfodol sy'n cael eu talu yn cynyddu ar gyfradd o 1.9% y flwyddyn. Y cyfraniad amcangyfrifedig sy'n daladwy gan CNC, ac eithrio unrhyw gyfraniadau dewisol, ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2017 fydd tua £6.480 miliwn.

Mae'r nodiadau isod yn nodi gofynion datgelu IAS 19 ar gyfer y flwyddyn gyfredol mewn perthynas â chyfranogiad CNC yn yr EAPF. Mae'r holl gyfrifiadau wedi'u gwneud gan actwari annibynnol cymwys ac fe'u seiliwyd ar brisiad actiwaraidd diweddaraf o'r gronfa ar 31 Mawrth 2013 a ddiweddarwyd hyd at 31 Mawrth 2016. Mae'r tybiaethau sy'n sail i'r cyfrifiad o rwymedigaeth net ar 31 Mawrth 2016 yn cael eu defnyddio yn unig at ddibenion cyfrifyddu fel sy'n ofynnol o dan IAS 19. Nid oes unrhyw ofyniad i'r rhwymedigaeth net a adroddwyd gael ei fodloni fel cyfraniad. Bydd cyfraniadau arian parod a delir gan CNC i'r gronfa pensiwn yn parhau i gael eu gosod drwy gyfeirio at dybiaethau y cytunwyd arnynt ym mhob prisiad actiwaraidd o'r cynllun a gynhelir bob tair blynedd.

13.1 Tybiaethau ariannol a thybiaethau o ran hirhoedledd

Y cyfnod a ddaeth i ben	31 Mawrth 2016	31 Mawrth 2015
	% p.a.	% p.a.
Y gyfradd cynnydd mewn pensiwn	1.90%	2.10%
Y gyfradd cynnydd mewn cyflogau	3.40%	3.50%
Y gyfradd ddisgowntio	3.50%	3.20%

Disgwyliad oes yn 65 oed yn y dyfodol, ar gyfartaledd	Dynion	Merched
	Pensiynwyr presennol	22.6 blynedd
Pensiynwyr yn y dyfodol (Pobl a fydd yn 65 oed ymhen 20 mlynedd)	24.7 blynedd	27.0 blynedd

13.2 Gwerth Teg Asedau ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2016

Categori o asedau	31 Mawrth 2016 (£'000)				
	Wedi'u dyfynnu	Heb eu dyfynnu	Heb eu penderfynnu	Cyfanswm	%
Gwarannau Ecwiti:					
Stoc Gyffredin	80,441	291	0	80,732	30%
Stoc a Ffefrir	0	0	0	0	0%
Hawliau / Gwarantau	0	0	0	0	0%
Asedau Ecwiti Eraill	817	0	0	817	0%
Gwarannau Dyledion:					
Bondiau Llywodraeth y DU	0	26,123	0	26,123	10%
Bondiau Corfforaethol	0	22,548	0	22,548	8%
Arall	0	1,507	0	1,507	1%
Cyfyngau Buddsoddiad Cyfunol:					
Ecwitiâu	0	0	42,082	42,082	16%
Bondiau	620	0	41,349	41,969	16%
Cronfeydd - Stoc Gyffredin	1,146	0	8,869	10,015	4%
Cronfeydd - Eiddo Tiro	392	1,564	11,837	13,793	5%
Cronfeydd - Cyfalaf Mentro	0	0	0	0	0%
Cyfalaf Menter a Phartneriaethau:					
Partneriaethau ac Eiddo Tiro	0	21,316	0	21,316	8%
Buddsoddiad arall					
Gwarannau wedi'u Staplo	488	0	0	488	0%
Contractau Deilliadol:					
Deilliadau Ecwiti - Dyfodolion	4	0	0	4	0%
Blaengontractau FX	0	0	98	98	0%
Arian parod a chyfwerth arian					
Pob un	5,179	(25)	744	5,898	2%
Cyfansymiau	89,087	73,324	104,979	267,390	100%

13.3 Newid yng ngwerth teg asedau'r cynllun, y rhwymedigaeth o ran buddion diffiniedig a'r rhwymedigaeth net

Cyfnod yn diweddu 31 Mawrth 2016	Asedau	Ymrwymadau	(Ymrwymadau)/ Asedau net
	£'000	£'000	£'000
Gwerth teg asedau'r cyflogwr	258,249	0	258,249
Gwerth presennol rhwymedigaethau	0	334,353	(334,353)
Gwerth presennol rhwymedigaethau nas ariennir	0	0	0
Y Sefyllfa Agoriadol ar 31 Mawrth 2015	258,249	334,353	(76,104)
Cost y gwasanaeth			
- Cost gyfredol y gwasanaeth *	0	8,227	(8,227)
- Cost flaenorol y gwasanaeth (gan gynnwys cwtogiadau)	0	98	(98)
- Effaith setliadau	0	0	0
Cyfanswm cost y gwasanaeth	0	8,325	(8,325)
Llog net			
- Incwm o log ar asedau'r cynllun	8,315	0	8,315
- Cost llog ar y rhwymedigaeth o ran buddion diffiniedig	0	10,754	(10,754)
- Effaith terfyn uchaf asedau ar log net	0	0	0
Cyfanswm y llog net	8,315	10,754	(2,439)
Cyfanswm cost budd diffiniedig a gydnabyddir mewn Elw neu (Golled)	8,315	19,079	(10,764)
Llifau arian parod			
- Cyfraniadau cyfranogwyr y cynllun	2,111	2,111	0
- Cyfraniadau'r cyflogwr	8,080	0	8,080
- Cyfraniadau o ran buddion nas ariennir	0	0	0
- Buddion a dalwyd	(6,993)	(6,993)	0
- Buddion heb eu hariannu a dalwyd	0	0	0
Effaith cyfuniadau busnes a gwarediadau	2,432	3,780	(1,348)
Sefyllfa cau ddisgwyliedig	272,194	352,330	(80,136)
Ailfesuriadau			
- Newid mewn tybiaethau demograffig	0	0	0
- Newid mewn tybiaethau ariannol	0	(35,130)	35,130
- Profiad arall	0	(2,853)	2,853
- Enillion ar asedau ac eithrio symiau a gynhwyswyd mewn llog net	(4,804)	0	(4,804)
- Newidiadau i derfyn uchaf asedau	0	0	0
Cyfanswm yr ailfesuriadau a gydnabyddir mewn Incwm Cynhwysfawr Arall (OCI)	(4,804)	(37,983)	33,179
Gwahaniaethau cyfnewid	0	0	0
Gwerth teg asedau'r cyflogwr	267,390	0	267,390
Gwerth presennol rhwymedigaethau a ariennir	0	314,347	(314,347)
Gwerth presennol rhwymedigaethau nas ariennir	0	0	0
Sefyllfa cau ar 31 Mawrth 2016	267,390	314,347	(46,957)

* Mae'r cost gwasanaeth gyfredol yn cynnwys lwfans ar gyfer costau gweinyddu o 0.4% o'r gyflogres.

13.4 Dadansoddiad o sensitifrwydd

Newid mewn tybiaethau ar 31 Mawrth 2016:	% bras o'r cynnydd i ymrwymiad y cyflogwr	Swm ariannol bras (£000)
Gostyngiad o 0.5% yn y Gyfradd Ddisgowntio Wirioneddol	12%	38,207
Cynnydd o 1 flwyddyn yn nisgwylid oes yr aelodau	3%	9,430
Cynnydd o 0.5% yn y Gyfradd Cynnydd mewn Cyflogau	5%	15,205
Cynnydd o 0.5% yn y Gyfradd Cynnydd mewn Pensiwn	7%	22,262

14. Ymrwymadau cyfalaf

	31 Mawrth 2016 £'000	31 Mawrth 2015 £'000
Eiddo, peiriannau a chyfarpar		
Offer a pheiriannau	24	34
Offer trafnidiaeth	759	138
Offer TG	48	154
Strwythurau gweithredol	222	544
Cyfanswm	1,053	870
Asedau anniriaethol		
Technoleg gwybodaeth - trwyddedau meddalwedd	0	56
Technoleg gwybodaeth - datblygu meddalwedd	590	805
Cyfanswm	590	861

15. Ymrwymadau o dan brydlesi

Mae penderfynu a yw trefniant yn, neu'n cynnwys, prydles yn seiliedig ar sylwedd y trefniant hwnnw. Mae trefniant sy'n dibynnu ar y defnydd o ased penodol ac sy'n cyfleu'r hawl i ddefnyddio'r ased, yn cael ei ystyried fel prydles.

Mae prydles gyllid yn un sy'n trosglwyddo risgiau a gwobrwyon perchnogaeth ased i'r prydlesai i raddau sylweddol. Prydles weithredol yw prydles heblaw prydles gyllid. Caiff prydlesi eu hasesu gan ddefnyddio'r meini prawf a nodir yn IAS 17 (Prydlesi). Nid yw tir sy'n cael ei ddal o dan brydles gyllid yn cael ei ddibrisio.

Mae costau sy'n ymwneud â phrydlesi gweithredol yn cael eu codi ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles ac yn cael eu dangos yn Nodyn 5.

Mae prydlesi cyllid yn cael eu cyfalafu ar y dechrau ar yr isaf o werth teg yr ased a brydlesir neu werth presennol y taliadau prydles lleiaf. Caiff dyled gyfatebol sy'n ddyledus i'r prydleswr ei chofnodi. Caiff taliadau ariannol eu codi ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Caiff cerbydau sy'n cael eu dal o dan brydles cyllid eu dibrisio dros dymor y brydles.

15.1 Prydlesi gweithredu

Nodir cyfanswm y taliadau prydles gofynnol yn y dyfodol o dan brydlesi gweithredu yn y tabl isod ar gyfer pob un o'r cyfnodau canlynol.

	31 Mawrth 2016			
	Tir £'000	Adeiladau £'000	Cerbydau £'000	Cyfanswm £'000
Ymrwymadau o dan brydlesi gweithredu yw:				
O fewn blwyddyn	92	1,763	424	2,279
Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd	295	4,548	496	5,339
Ar ôl pum mlynedd	1,562	1,696	0	3,258
Cyfanswm gwerth yr ymrwymadau	1,949	8,007	920	10,876

	31 Mawrth 2015			
	Tir £'000	Adeiladau £'000	Cerbydau £'000	Cyfanswm £'000
Ymrwymadau o dan brydlesi gweithredu yw:				
O fewn blwyddyn	115	1,700	1,204	3,019
Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd	386	5,221	918	6,525
Ar ôl pum mlynedd	1,756	1,829	0	3,585
Cyfanswm gwerth yr ymrwymadau	2,257	8,750	2,122	13,129

15.2 Prydlesi Cyllid

	31 Mawrth 2016		
	Tir	Cerbydau	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000
Ymrwymadau o dan brydlesi cyllid yw:			
O fewn blwyddyn	13	260	273
Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd	38	198	236
Ar ôl pum mlynedd	209	0	209
Cyfanswm gwerth yr ymrwymadau	260	458	718

	31 Mawrth 2015		
	Tir	Cerbydau	Cyfanswm
	£'000	£'000	£'000
Ymrwymadau o dan brydlesi cyllid yw:			
O fewn blwyddyn	13	243	256
Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd	38	716	754
Ar ôl pum mlynedd	209	0	209
Cyfanswm gwerth yr ymrwymadau	260	959	1,219

16. Ymrwymadau ariannol eraill

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymrwmo i gontractau na ellir eu canslo nas adroddir amdanynt mewn man arall. Cyfanswm y taliadau y mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymrwmo iddynt ar 31 Mawrth 2016 yw:

	31 Mawrth 2016	31 Mawrth 2015
	£'000	£'000
O fewn blwyddyn	18,241	34,878
Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd	18,971	19,081
Ar ôl pum mlynedd	3,895	708
Cyfanswm	41,107	54,667

17. Yr hyn y gellir ei dderbyn o brydlesi

Caiff asedau a brydlesir i bartïon allanol o dan brydles weithredu eu cyfalafu o dan y polisi cyfrifyddu priodol fel yr amlinellwyd yn Nodyn 7. Cyfrifir am incwm prydles gweithredu ar sail llinell syth ac mae'r taliadau prydles lleiaf yn y dyfodol y gellir eu derbyn o dan brydlesi gweithredu na ellir eu canslo fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2016
	£'000
O fewn blwyddyn	697
Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd	2,474
Ar ôl pum mlynedd	6,540
Cyfanswm	9,711

Nid oes ffigurau cymharol ar gael ar gyfer 2014/15 gan mai dyma flwyddyn gyntaf y datgeliad ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru.

18. Rhwymedigaethau digwyddiadol

Mae gan Gyfoeth Naturiol Cymru y rhwymedigaethau digwyddiadol canlynol:

	31 Mawrth 2016	31 Mawrth 2015
	£'000	£'000
Atebolrwydd gweithwyr a chyhoeddus	605	30
Hawliadau Contractwyr	0	250
Cyfanswm	605	280

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn datgelu rhwymedigaethau digwyddiadol yn unol ag IAS 37.

Nid yw'r tabl uchod yn cynnwys gwerthoedd ar gyfer y rhwymedigaethau digwyddiadol a ganlyn: -

Roedd Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn rhan o'r Comisiwn Coedwigaeth tan 31 Mawrth 2013, ac yn rhannu eu cofrestrriad TAW. Mae archwiliad gan HMRC o driniaeth y Comisiwn Coedwigaeth o TAW a Threth Incwm ar y gweill ar gyfer y cyfnod 2012/13. Mae rhwymedigaeth digwyddiadol anfesuradwy yn cael ei ddatgelu i gydnabod rheidrwydd presennol rhwymedigaethau o ran diffyg cydymffurfio sy'n deillio o'r archwiliad. Nid oes amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth ar gael.

Mae proses werthuso swyddi ar y gweill gyda'r nod o greu un strwythur swyddi a graddau sy'n gweithio i bawb o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru. Rydym yn cynnal ymarferiad modelu cyflog i asesu effaith a chost y strwythur unedig sengl. Gallai'r ymarferiad hwn, na fydd ei ganlyniadau yn hysbys tan ail hanner 2016/17, nodi ôl-daliadau cyflog sy'n ddyledus i staff y bernir y dylai eu rôl fod ar radd uwch na'r hyn y maent yn cael eu talu'n bresennol. Y dyddiad y gallai ôl-daliadau gael eu cyfrifo yn ôl ato yw Ebrill 1, 2013.

19. Digwyddiadau ar ôl diwedd y cyfnod adrodd

Rydym wedi ystyried canlyniadau'r refferendwm y Deyrnas Unedig ar yr Undeb Ewropeaidd o ran ei effaith ar y datganiadau ariannol. Rydym wedi dod i'r casgliad nad yw'n bosibl mesur y perygl ar hyn o bryd o gofio'r ansicrwydd presennol ynghylch effaith ac amseriad y newidiadau posibl. Elfennau'r datganiadau ariannol y gellid eu heffeithio fwyaf yn y dyfodol yw gwerth y gronfa bensiwn a'r ystad goedwig.

20. Partion cysylltiedig

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, a ystyrir yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn mae CNC wedi cynnal trafodion perthnasol sylweddol â Llywodraeth Cymru fel rhan o'i fusnes arferol (cofnodir y cymorth grant a'r grantiau a gafwyd gan Lywodraeth Cymru yn y Datganiad o Ecwiti Trethdalwyr) ac ag endidau eraill yr ystyrir mai Llywodraeth Cymru yw eu rhiant-adran, sef Awdurdodau Lleol a Pharciau Cenedlaethol yng Nghymru.

At hynny, mae CNC wedi cynnal gwahanol drafodion perthnasol ag adrannau eraill y llywodraeth a chyrrff eraill llywodraeth ganolog. Cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r trafodion hyn ag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), Asiantaeth yr Amgylchedd, y ComisiwnCoedwigaeth, CThEM a Natural England.

Yn ystod y flwyddyn cynhaliodd CNC, fel rhan o'i fusnes arferol, y trafodion canlynol â'r sefydliadau canlynol yr oedd gan Aelodau'r Bwrdd neu Aelodau Gweithredol neu bartion cysylltiedig eraill fuddiant ynddynt. Nid yw Aelodau'r Bwrdd na'r Aelodau Gweithredol yn ymwneud yn uniongyrchol â'r trafodion â'r partion cysylltiedig hyn. Rydym wedi dangos trafodion ar gyfer y flwyddyn lawn, gan gynnwys lle mae aelodau wedi ymuno neu wedi gadael yn ystod y flwyddyn.

Sefydliad	Aelod	Natur y berthynas	Cyfanswm taliadau	Cyfanswm incwm	Swm dyledus gan CNC ar 31 Mawrth 2016	Swm dyledus i CNC ar 31 Mawrth 2016
			£'000	£'000	£'000	£'000
Prifysgol Aberystwyth	Emyr Roberts	Aelod o'r Cyngor	25	4	0	0
Partneriaeth Cymru Gyfan yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd yng Cymru	Ruth Hall	Aelod o'r Cyngor	21	27	0	0
Prifysgol Caerdydd (Sefydliad Polisi i Gymru)	Ruth Hall	Llywodraethwr / Is-Gadeirydd	65	9	0	0
Dŵr Dyffryn Dyfrdwy	Diane McCrea	Cadeirydd y Panel Her Cwsmeriaid	1	778	0	0
DEFRA gan gynnwys y Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) a'r Cwmni Cefnogol	Lynda Warren Peter Matthews Diane McCrea Madeleine Havard Nigel Reader	Aelod o JNCC & Cyngor Cynghori Gwyddonol Aelod o Fwrdd JNCC Aelod o Fwrdd JNCC Aelod o Fwrdd JNCC & ChA o'r Cwmni Cefnogol Aelod o ARAC JNCC	30	0	6	0
Dwr Cymru Welsh Water	Diane McCrea	Cadeirydd y Grŵp Her Cwsmeriaid	6,886	14,296	104	0
Ystad Glanusk	Harry Legge-Bourke	Perchennog / Partner / Ymddiriedolwr	3	0	0	0
Groundwork Gogledd Cymru	Karen Balmer	Prif Weithredwr	18	0	0	0
Leonard Cheshire Disability	Elizabeth Haywood	Aelod o'r Bwrdd ac Ymddiriedolwr	0	1	0	0
Cymdeithas Genedlaethol yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol	Howard Davies	Prif Weithredwr	48	0	0	0
Ymddiriedolaeth Genedlaethol	Ruth Hall	Aelod o'r Cyngor	202	12	0	0
Natural England	Nigel Reader	Aelod Anweithredol o'r Bwrdd a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio	153	0	11	0
North East Wales Wildlife Ltd	Karen Balmer	Ymddiriedolwr	14	0	0	0
Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru	Howard Davies	Ymddiriedolwr ac Is-lywydd Anrhydeddus	172	0	0	0
SP Energy Network Holdings Ltd	Elizabeth Haywood	Cyfarwyddwr Anweithredol	0	48	0	5
TGV Hydro Ltd	Chris Blake	Cyfarwyddwr	0	3	0	0

Atodiad 1 Adroddiad Amgylcheddol Corfforaethol

Cyflwyniad

Rydym wedi ymrwmo i sicrhau y bydd datblygu cynaliadwy wrth wraidd pob un o'n penderfyniadau busnes. Dros y blynyddoedd i ddod, rydym am ddatblygu ein hunain yn sefydliad o'r radd flaenaf o ran cynaliadwyedd a gwaith rheoli amgylcheddol yng Nghymru, yn arbennig o ran y ffordd rydym yn rheoli ac yn defnyddio carbon, gwastraff, dŵr a thir.

Eleni rydym wedi canolbwyntio ar y canlynol:

- lleihau ein hól troed carbon
- ymgorffori ein System Reoli Amgylcheddol yn niwylliant ein sefydliad
- integreiddio ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yn ein gweithgarwch caffael a bod yn sefydliad ymgysylltiol a thryloyw i randdeiliaid yn ein System Rheoli Amgylcheddol; a
- cydymffurfio gyda'r safon ISO14001:2015 newydd; a sefydlu llinell sylfaen ar gyfer monitro gwastraff, adrodd a thargedau lleihau.

Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud yn bennaf â chynaliadwyedd amgylcheddol, yn hytrach na chamau gweithredu neu ganlyniadau cynaliadwyedd ehangach. Ceir adroddiadau mwy cyffredinol sy'n ymwneud â chynaliadwyedd yn ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon.

Crynodeb o Berfformiad

Rydym wedi cadw ein hardystiad o dan ISO14001 ar gyfer ein System Rheoli Amgylcheddol, yn dilyn archwiliadau a phroses ddilysu allanol, annibynnol. Mae ein System Rheoli Amgylcheddol⁵ nawr hefyd yn cynnwys ein gweithrediadau coedwigoedd. Mae'r ffaith bod gennym System Rheoli Amgylcheddol yn ein galluogi i ddangos ein hymrwymiad ein hunain i gyrraedd y safonau amgylcheddol uchaf posibl fel sefydliad.

Rydym hefyd wedi cadw ein hardystiad coetir (Safon Sicrwydd Coetiroedd y DU) ar gyfer Ystad Goetir Llywodraeth Cymru a reolir gennym, yn dilyn archwiliad annibynnol a phrosesu dilysu allanol a gynhaliwyd gan Société Générale de Surveillance (SGS). Mae hyn yn ein galluogi i gynhyrchu pren wedi'i ardystio gan FSC/PEFC⁶ o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru a reolir gennym.

⁵ Ar hyn o bryd mae ein System Rheoli Amgylcheddol yn gymwys i'r canlynol: "Gweithgareddau a gwasanaethau sy'n gysylltiedig â rheoli'r amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru mewn modd cynaliadwy"

⁶ Cyngor Stiwardiaeth Coedwigaeth (FSC) Rhaglen Cymeradwyo Ardystio Coedwigoedd (PEFC). Fel y'i hategir gan ein hachrediad i [Safon Sicrwydd Coetir y DU](#) (UKWAS)

Tabl 1: Tabl cryno o adroddiadau Amgylcheddol Corfforaethol

Maes	Unedau	2013/14	2014/15	2015/16	Newid
Allyriadau nwyon tŷ gwydr ⁷	Defnydd (tCO ₂ e)	7,301	7,164	7,894	Wedi cynyddu
	Gwariant (£k)	3,323	3,345	2,961	Wedi lleihau
Ynni'r Ystad	Defnydd (miliwn kWh)	7.0	6.3	6.9	Wedi cynyddu
	Gwariant (£k)	570	587	632	Wedi cynyddu
Gwastraff yr Ystad	Defnydd (tunelli)	400	419	752	Wedi cynyddu
	Gwariant (£k)	147	110	127	Wedi cynyddu
Dŵr yr Ystad	Defnydd (m ³)	86,486	29,455	78,304	Wedi cynyddu
	Gwariant (£k)	35	27	59	Wedi cynyddu

Mae Tabl 1 yn adlewyrchu newid cymharol ar gyfer meysydd allweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ceir rhagor o fanylion am bob un yn yr adrannau cysylltiedig o'r adroddiad hwn. I grynhoi bu:

- cynnydd o 10% mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr sydd i'w briodoli'n bennaf i'r cynnydd yn y defnydd o agregau cynradd mewn cynlluniau adeiladu
- cynnydd o 10% yn y defnydd o ynni sydd i'w briodoli'n bennaf i ddefnydd o drydan mewn safleoedd heb swyddogion
- cynnydd o 68% yn y gwastraff a gaiff ei drin gennym, yn dilyn cynnwys ffrydiau gwastraff ychwanegol yn ein hadroddiadau am y tro cyntaf eleni (ar gyfer swyddfeydd a depots yn bennaf)
- cynnydd o 160% yn y dŵr a ddefnyddir gennym yn bennaf oherwydd bod mesurydd yn cael ei drwsio yn Neorfa Bysgod Cynrig; mae hynny hefyd yn golygu nad oedd y defnydd llawn o ddŵr wedi cael ei gofnodi mewn blynyddoedd blaenorol

Mae gennym dargedau sy'n ymwneud â phob un o'r meysydd hyn yn 2016/17 (fel y disgrifir yn yr adran nesaf).

Crynodeb o'r Strategaeth ar gyfer y Dyfodol

Dros y ddwy flynedd nesaf rydym yn bwriadu canolbwyntio ar y canlynol:

- Cyflawni achrediadau o dan safon amgylcheddol diwygiedig ISO14001:2015
- Anelu at gynnal ein hachrediad UKWAS
- Gostwng ein hallryiadau carbon o adeiladau a feddiennir, teithio busnes a'n defnydd o ddŵr 5% o lefelau 2015/15, o flwyddyn i flwyddyn
- Cyflawni ein hymrwymiaidau o dan y Siarter Datblygu Cynaliadwy, datblygu darpariaethau Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a gweithio tuag at fod yn batrwm cydnabyddedig o gynaliadwyedd
- Sicrhau bod ein harferion caffael yn agored a thryloyw, gan gefnogi'r gwaith o gyflenwi blaenoriaethau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol a bod ein contractau yn hygyrch i Fusnesau Bach a Chanolig, busnesau cymdeithasol a mentrau ar raddfa fwy gan helpu i gefnogi Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru
- Ymchwilio i'r posibilrwydd o leoli datblygiadau ynni gwasgaredig / datblygiadau ynni adnewyddadwy ar raddfa fach ar dir a reolir gennym, gan fabwysiadu dull cadarnhaol o weithredu sy'n seiliedig ar risg
- Datblygu ein dull o gyflwyno Adroddiadau integredig gan gynnwys cyflawni ein Hachos Busnes.

⁷ (Cwmpasau 1, 2 a 3 gan gynnwys teithiau awyr/ar y trên a heb gynnwys allyriadau y tu allan i'r cwmpasau)


Y flwyddyn nesaf rydym am wneud y canlynol:

- Lleihau ein hól troed carbon – ac rydym wedi pennu targed i ostwng ein hallyriadau carbon deuocsid o adeiladau a feddiennir, teithio a'r defnydd o ddŵr 5% yn seiliedig ar ddata 2015/16
- Cyflenwi eich Prosiect Carbon Positif – Symud ymlaen tuag at ddod yn sefydliad enghreifftiol o ran rheoli carbon a rhannu'r arfer gorau ar gyfer ei ddefnyddio drwy'r sector cyhoeddus yng Nghymru
- Cydymffurfio â safon newydd ISO14001:2015
- Cyflawni gofynion ein Cynllun Galluogi – Rheoli Digwyddiadau – Cyflawni achrediad UK Spill
- Parhau i wreiddio ein System Rheoli Amgylcheddol yn niwylliant y sefydliad - Codi ymwybyddiaeth staff o'r cyfraniad y gallant ei wneud i berfformiad amgylcheddol a sut all eu gwaith gyfrannu at Reolaeth Gynaliadwy Adnoddau Naturiol.

Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr

Nodir ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr isod/i'r dde.

Pennwyd targed i ostwng allyriadau CO₂e o'n teithiau busnes a'n hadeiladau 5% eleni, ac rydym wedi'i gyflawni, gan sicrhau gostyngiad cyffredinol o 10% mewn allyriadau CO₂e o'r meysydd hyn. Fodd bynnag, mae allyriadau yn gyffredinol wedi cynyddu 8% oherwydd cynnydd yn y defnydd o agregau cynradd mewn cynlluniau adeiladu.



Tabl 2: Allyriadau nwyon tŷ gwydr

Allyriadau nwyon tŷ gwydr	2013/14	2014/15	2015/16	Newid
Cwmpas 1: Allyriadau nwyon tŷ gwydr uniongyrchol (tCO ₂ e)	3,064	2,537	2,752	Wedi cynyddu
Cwmpas 2: Allyriadau ynni anuniongyrchol (tCO ₂ e)	1,993	2,107	2,086	Wedi lleihau
Cwmpas 3: Allyriadau nwyon tŷ gwydr anuniongyrchol eraill (tCO ₂ e)	2,245	2,520	3,057	Wedi lleihau
Cyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr gros (tCO₂e)	7,301	7,164	7,894	Wedi cynyddu
<i>Y tu allan i'r cwmpasau (h.y. biomas)</i>	180	176	248	Wedi cynyddu
<i>Dwysedd carbon (tCO₂e fesul £m o wariant)</i>	41.3	39.8	44.9	Wedi cynyddu

Lleihau a Rheoli Gwastraff

Rydym wedi gwella nifer y ffrydiau gwastraff y byddwn yn adrodd arnynt yn unol â'n targed i fesur holl ffrydiau gwastraff CNC a chyflwyno adroddiadau arnynt yn gyson yn 2015/16. Mae hyn wedi gwella ein swyddfeydd a'n depots yn fawr. Ein ffynhonnell gwastraff sengl fwyaf yw gwastraff ceubwll yn ein depot yn Pye Corner. Gwastraff trefol cymysg o ganolfan ymwelwyr Coed y Brenin yw'r ail ffynhonnell fwyaf o wastraff. Byddwn yn edrych ar ffyrdd i leihau'r rhain ynghyd a meysydd mawr eraill o wastraff yn 2016/17.

Tabl 3: Gwastraff a Gynhyrchwyd

Gwastraff a gynhyrchwyd	Unedau	2013/14	2014/15	2015/16	Newid
Anfonwyd i safle tirlenwi	Defnydd (tunelli)	80	64	216	Wedi cynyddu
	Defnydd (tCO ₂ e)	23	18	80	Wedi cynyddu
	Gwariant (£k)	90	47	25	Wedi lleihau
Ailgylchwyd / aildddefnyddiwyd /	Defnydd (tunelli)	253	229	359	Wedi cynyddu
	Defnydd (tCO ₂ e)	5	5	8	Wedi cynyddu
	Gwariant (£k)	57	Ddim ar gael	101	Wedi cynyddu
Tipio anghyfreithlon	Defnydd (tunelli)	37	95	45	Wedi lleihau
	Defnydd (tCO ₂ e)	9	22	19	Wedi lleihau
	Gwariant (£k)	Ddim ar gael	Ddim ar gael	Ddim ar gael	Ddim ar gael
Llosgwyd	Defnydd (tunelli)	30	31	132	Wedi cynyddu
	Defnydd (tCO ₂ e)	1	1	3	Wedi cynyddu
	Gwariant (£k)	Ddim ar gael nawr [1]	Ddim ar gael	Ddim ar gael	Ddim ar gael
Cyfanswm y gwastraff	Defnydd (tunelli)	400	419	752	Wedi cynyddu
	Defnydd (tCO ₂ e)	38	46	110	Wedi cynyddu
	Gwariant (£k)	147	110	127	Wedi cynyddu

Defnydd Adnoddau y mae pen draw iddynt

Rydym wedi adrodd ar ein defnydd o ddŵr ac ynni'r ystad isod. Mae'r cerrig/agregau a ddefnyddir mewn prosiectau adeiladu hefyd yn un o'r meysydd lle rydym yn defnyddio cryn dipyn o adnoddau, ac fe'i cofnodir yn yr adran o'r adroddiad hwn sy'n ymdrin ag Adeiladu Cynaliadwy.

Dŵr: Roeddem wedi gwella ein dulliau o gofnodi'r defnydd o ddŵr y llynedd er mwyn sicrhau bod ffigurau ar gyfer defnydd swyddfeydd o ddŵr yn adlewyrchu defnydd swyddfeydd o ddŵr yn unig (h.y. nid yw'n cynnwys safleoedd defnydd cyfunol, depos, canolfannau ymwelwyr, deorfeydd, ac ati). Mae dwysedd ein defnydd o ddŵr islaw'r cyfartaledd ar gyfer y defnydd o ddŵr⁸, ac rydym wedi pennu targed i'w lleihau 5% yn 2016/17.

Tabl 4: Defnydd o Ddŵr

Defnydd o adnoddau – Dŵr yr ystad	Unedau	2013/14	2014/15	2015/16	Newid
Dŵr a gyflenwyd: Defnydd swyddfa	Defnydd (m ³)	8,161	7,208	6,859	Wedi lleihau
Dŵr a gyflenwyd: Defnydd nad yw mewn swyddfa:					
- Prif gyflenwad	Defnydd (m ³)	4,863	6,630	5,529	Wedi lleihau
- Tynnu dŵr	Defnydd (m ³)	73,428	15,581	65,886	Wedi cynyddu
- Dŵr glaw	Defnydd (m ³)	34	35	30	Wedi lleihau
Dwysedd o ddefnydd y dŵr (ar ddefnydd Swyddfeydd)	m ³ fesul FTE	4.1	3.7	3.4	Wedi lleihau
Dŵr a gyflenwyd: Cyfanswm	Defnydd (m ³)	86,486	29,455	78,304	Wedi cynyddu
	Gwariant (£k)	35	27	59	Wedi cynyddu
	Defnydd (tCO ₂ e)	30	10	27	Wedi cynyddu

⁸ Cyfartaledd = 4m³ fesul FTE (Ffynhonnell: Water Key Performance Indicators and benchmarks for offices and hotels. C657 CIRIA www.ciria.org)

Tynnu dŵr ar gyfer ein deorfeydd pysgod oedd y defnydd mwyaf o ddŵr eleni, sef dros 60,000 m³. Mae llawer o'r cynnydd a welir o ran tynnu dŵr yn ymwneud â'r gwaith o drwsio mesurydd nad oedd yn gweithio yn ystod y flwyddyn, sy'n golygu nad oedd y defnydd o ddŵr yn 2014/15 yn adlewyrchu defnydd arferol y safle. Cynnal y cynefinoedd gwlyptir yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Gwlyptiroedd Casnewydd (SoDdGA dynodedig a rhan o AGA, RAMSAR ac ACA Môr Hafren) oedd y ail ddefnydd mwyaf eleni⁹ a'r mwyaf o ran defnydd yn 2014/15. Rydym hefyd yn tynnu dŵr ar gyfer safleoedd anghysbell (lle nad oes prif gyflenwad dŵr ar gael).

Ynni: Mae ein defnydd o ynni wedi cynyddu eleni, gyda'r rhan fwyaf o'r cynnydd yn ymwneud â'r safleoedd nad ydynt yn cael eu meddiannu (y defnydd o drydan yn arbennig). Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym hefyd wedi cynhyrchu 1.5% o'n defnydd ein hunain o ynni o'n hadeiladau sydd â chynlluniau ynni adnewyddadwy ar y safle (ynni gwynt ac ynni'r haul). Cynhyrchodd ein gosodiad ynni adnewyddadwy mwyaf (paneli ffotofoltäig yn swyddfa Maes-y-Ffynnon ym Mangor) 24,864 kWh yn ystod y flwyddyn. Rydym yn anelu at gynyddu nifer y cynlluniau ynni adnewyddadwy ar y safle yn ein hadeiladau ein hunain pan ddaw arian i law a phan fydd hynny'n ymarferol yn economaidd.

Tabl 5: Y Defnydd o Ynni

Defnydd o adnoddau – Ynni'r ystad	Unedau	2013/14	2014/15	2015/16	Newid
Ynni a ddefnyddiwyd: Safleoedd a feddiennir	Defnydd (kwh)	6,026,274	5,361,986	5,502,994	Wedi cynyddu
	Defnydd (tCO ₂ e)	2,151	2,081	1,990	Wedi lleihau
Ynni a ddefnyddiwyd: Safleoedd heb eu meddiannu	Defnydd (kwh)	930,846	993,431	1,434,275	Wedi cynyddu
	Defnydd (tCO ₂ e)	415	491	663	Wedi cynyddu
Ynni adnewyddadwy: Hunangynhyrchwyd	Cynhyrchu (kwh)	77,730	80,870	81,713	Wedi cynyddu
	Defnydd (% o'r ynni a ddefnyddiwyd)	1.3%	1.5%	1.4%	Wedi lleihau
Ynni a ddefnyddiwyd: Cyfanswm	Defnydd (kwh)	6,957,120	6,355,417	6,937,269	Wedi cynyddu
	Defnydd (tCO ₂ e)	2,566	2,572	2,653	Wedi cynyddu
	Gwariant (£k)	570	587	632	Wedi cynyddu
Gosodiadau ynni adnewyddadwy ¹⁰	Defnydd (MW)	59	59 ¹¹	60	Wedi cynyddu

Hefyd, cynhyrchir ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr ar yr ystad ehangach a reolwn (Ystad Goetir Llywodraeth Cymru) trwy fferm wynt Cefn Croes, sydd â chapasiti gosodedig o 59MW. Ar raddfa lai, daeth ~1,268kW o ynni adnewyddadwy yn weithredol yn y ddwy flynedd ddiwethaf o gynllun cynhyrchu ynni dŵr bach rydym wedi'i alluogi. Mae gennym

⁹ Defnyddir dŵr a dynnwyd mewn tywydd poeth sych er mwyn cynnal y lefelau cywir o ddŵr a halltedd yn Lagwnau Heli Gwlyptiroedd Casnewydd, sy'n hanfodol i'r nifer fawr o rywogaethau adar dŵr sy'n dibynnu arnynt. Yn ystod yr hydref, defnyddir dŵr a dynnwyd i gadw glaswelltir gwlyb isel y warchodfa yn y cyflwr cywir er mwyn cynnal adar sy'n gaeafu.

¹⁰ Cynlluniau ar yr ystad a reolir gennym sy'n cynnwys datblygwyr yn rhentu tir a reolir gennym ar brydles er mwyn lleoli gosodiadau ynni adnewyddadwy arno (e.e. ffermydd gwynt). Mae'r ffigur hwn hefyd yn cynnwys cynlluniau nad oes ond rhan ohonynt ar yr ystad a reolir gennym (e.e. cynlluniau ynni dŵr bach). Mae'r ffigurau a roddir yn adlewyrchu capasiti gosodedig gosodiadau gweithredol, yn hytrach na'r ynni a gynhyrchwyd mewn gwirionedd

¹¹ Y ffigur llawn yw 60.3MW, pan fo'n cynnwys y ~1,268kW o gynlluniau cynhyrchu ynni dŵr bach rydym wedi'u galluogi

Gynllun Cyflenwi Ynni i ddatblygu rhagor o brosiectau ynni ar y tir (sy'n cwmpasu ynni gwynt, ynni dŵr, ynni'r haul, biomas, glo, olew a nwy), drwy neu dros yr ystad a reolir. Dros y tair blynedd nesaf rydym yn disgwyl i'r swm o ynni a gynhyrchir ar yr ystad a reolir gennym gynyddu'n sylweddol (mwy na 600MW o gapasiti ychwanegol a ddarperir drwy gynlluniau ynni adnewyddadwy, digon i bweru ~350,000 o dai).

Caffael cynaliadwy

Mae caffael cynaliadwy yn ystyried effeithiau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol yn ein penderfyniadau prynu. Mae'n galluogi ein sefydliad i gyflawni ei anghenion am nwyddau a gwasanaethau mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth am arian ar sail bywyd cyfan, tra hefyd yn darparu cyfleoedd i BbaChau yng Nghymru. Mae'r egwyddorion allweddol hyn i'w gweld yn ein Strategaeth Caffael Cynaliadwy 2015-2017, a rydym yn cofnodi ein cynnydd o ran y gwaith hwn drwy gydol y flwyddyn fel rhan o Ddangosfwrdd y Cynllun Busnes.

Rydym wedi datblygu Cynllun Marchnad Rydd sy'n gadael i archebwyr gwestiynu'r angen i brynu, ac i ystyried mewn termau ymarferol beth yw effaith yr hyn a brynir ganddynt a'r holl opsiynau sydd ar gael cyn trefnu contract. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys yr Aseiad Effaith ar Gynaliadwyedd, sy'n edrych ar effaith y pryniant ar sail cost bywyd cyfan, ac sy'n nodi rheoliadau lliniaru.

Yn y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn adeiladu ar y dull hwn i ystyried effaith amgylcheddol a chymdeithasol economaidd ein trefniadau caffael trwy alinio gyda, ac integreiddio, darpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd (Cymru), tra hefyd yn rhoi sylw i risg, cwmpas a dylanwad. Bydd hyn yn ein galluogi i weithio gyda chyflenwyr gan sicrhau eu hymrwymid at gynaliadwyedd, a bydd yn ein helpu i dargedu meysydd lle gallwn sicrhau'r canlyniadau gorau. Byddwn hefyd yn parhau i sicrhau buddion cymunedol wrth ddyfarnu contractau allweddol, ac yn adrodd ar y canlyniadau sy'n cael eu gwireddu.

Teithio

Mae ein hanghenion teithio yn cynnwys: gweithio i reoli safleoedd, ymateb i ddogwyddiadau amgylcheddol difrifol, cymryd samplau, ymdrin â llifogydd, cyfarfodydd safle, ac ati. Eleni rydym wedi teithio ~9 miliwn milltir wrth wneud ein gwaith sef gostyngiad o 18% ers 2013/14, blwyddyn ein llinell sylfaen. Mae gennym darged o sicrhau gostyngiad pellach o 5% yn yr allyriadau teithio ar gyfer 2016/17, a byddwn yn sicrhau hynny drwy ddefnyddio cerbydau carbon is yn ogystal â lleihau'r milltiroedd a deithir.

Tabl 6: Manylion teithio

Teithio mewn cerbyd	Unedau	2013/14	2014/15	2015/16	Newid
Cerbydau a berchnogir	Milltiroedd a deithiwyd	6,562,934	5,416,119	5,833,839	Wedi cynyddu
	Gwariant (£k)	1,101	1,033	800	Wedi lleihau
Cerbydau ar brydles	Milltiroedd a deithiwyd	2,154,755	2,531,396	1,649,345	Wedi lleihau
	Gwariant (£k)	223	329	162	Wedi lleihau
Cerbydau llwyd ¹²	Milltiroedd a deithiwyd	673,345	618,795	552,343	Wedi lleihau
	Gwariant (£k)	74	81	244	Wedi cynyddu
Ceir llog	Milltiroedd a deithiwyd	326,810	357,526	256,654	Wedi lleihau
	Gwariant (£k)	14	DD/G	DD/G	Dim newid
Tren	Milltiroedd a deithiwyd	1,405,603	1,367,762	865,693	Wedi lleihau

¹² Cerbydau llwyd yw cerbydau preifat staff

Teithio mewn cerbyd	Unedau	2013/14	2014/15	2015/16	Newid
	Gwariant (£k)	342	377	291	Wedi lleihau
Aer	Milltiroedd a deithiwyd	27,997	30,221	18,898	Wedi lleihau
	Gwariant (£k)	8	11	6	Wedi lleihau
Beic	Milltiroedd a deithiwyd	4,812	804	1,944	Wedi cynyddu
	Gwariant (£k)	0	0	0	Dim newid
Beic modur	Milltiroedd a deithiwyd	DD/G	DD/G	4,475	DD/G
	Gwariant (£k)	DD/G	DD/G	1	DD/G
Cyfanswm y milltiroedd a deithiwyd mewn cerbydau	Milltiroedd a deithiwyd	11,156,256	10,322,623	9,183,191	Wedi lleihau
	Gwariant (£k)	1,762	1,831	1,502	Wedi lleihau

Fel rhan o'r gwaith i leihau ein heffaith amgylcheddol sy'n gysylltiedig â theithio, rydym wedi rhoi polisi teithio ar waith. I ategu'r polisi, rydym wedi creu coeden benderfynu ar gyfer teithio sy'n nodi'r holl opsiynau ar gyfer teithio o'r rhai gorau i'r rhai gwaethaf. Rydym hefyd yn gweithredu 'polisi dim hedfan' yng Nghymru a Lloegr, sy'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gais i hedfan gael ei gyfiawnhau'n llwyr a'i gymeradwyo ar lefel y Tîm Gweithredol. Rydym wedi cynyddu ein defnydd o dechnoleg cynadledda ffôn/cyfrifiadur yn sylweddol drwy'r flwyddyn, gyda chynnydd yn nifer y defnyddwyr, y cyfarfodydd a gynhaliwyd a'r cofnodion a gofnodwyd.

Digwyddiadau amgylcheddol

Bu 18 o ddigwyddiadau amgylcheddol o ganlyniad i'n gwaith (neu waith ein contractwyr) a thri o fethiannau agos. Dyma ostyngiad o 47% mewn cymhariaeth â'r 38 digwyddiad a nodwyd yn y flwyddyn flaenorol 2014/15. Nid oedd yr un o'r digwyddiadau hyn yn rhai difrifol yn ôl y cynllun dosbarthu digwyddiadau amgylcheddol a ddefnyddiwn yn achos digwyddiadau amgylcheddol. Lle mae digwyddiadau yn digwydd o ganlyniad i'n gwaith (neu waith ein contractwyr), rydym yn adolygu'r hyn sydd wedi digwydd, ac yn gweithredu i fynd i'r afael ag achos sylfaenol y digwyddiad.

Adeiladu Cynaliadwy

Caiff llawer o'n gweithgarwch adeiladu ei osod ar gontract ac ni chynhwysir rhywfaint o'r gweithgarwch hwn yn y ffigurau isod.

Agregau/cerrig: Eleni, mae 22% o'r agregau a ddefnyddiwyd wedi dod o ffynhonnell eilaidd. Defnyddiwyd cryn dipyn o agregau yn y gwaith o adeiladu Gwelliannau Amddiffynfeydd rhag y Môr yn Tabbs Gout. Mae ein defnydd o agregau i gynlluniau o'r fath wedi lleihau'n sylweddol eleni. Fel arfer rydym yn defnyddio agregau crai ar yr Ystad Goedwig Gyhoeddus at ddibenion adeiladu, cynnal a chadw ac adfer seilwaith a defnyddiwyd cyfanswm o 178,000 o dunelli yn 2015, y rhan fwyaf wedi'i gynhyrchu o fwynau ar yr ystad.

Tabl 7: Defnydd o gerrig/agregau

Defnydd o adnoddau – Cerrig/agregau	Unedau	2013/14	2014/15	2015/16	Newid
Cerrig/agregau – ffynhonnell sylfaenol	Defnydd (tunelli)	63,923	115,786	182,999	Wedi cynyddu
	Gwariant (£k)	526	538	555	Wedi cynyddu
	Defnydd (tCO ₂ e)	703	1,274	2,013	Wedi cynyddu
Cerrig/agregau – ffynhonnell eilaidd	Defnydd (tunelli)	190,623 ¹³	13,102	51,945	Wedi cynyddu
	Gwariant (£k)	10	12	86	Wedi cynyddu
	Defnydd (tCO ₂ e)	381	26	104	Wedi cynyddu
Defnydd ffynhonnell eilaidd	Gwariant (£k)	536	795	641	Wedi lleihau
	(% yn ôl cyfanswm pwysau)	75	10	22	Wedi cynyddu

¹³ Defnyddiwyd cryn dipyn o agregau yn ystod 2014/15 er mwyn cynyddu capasiti'r afon ym Mro Abertawe Isaf

Pren: Anelwn at sicrhau bod yr holl bren a ddefnyddiwn yn dod o ffynonellau cynaliadwy, ac rydym hefyd yn cynhyrchu pren wedi'i ardystio gan FSC/PEFC¹⁴ o Ystad Goetir Llywodraeth Cymru a reolir gennym. Eleni, mae'r holl bren a ddefnyddiwyd mewn prosiectau adeiladu¹³ wedi dod o ffynhonnell gynaliadwy.

Tabl 8: Defnydd o bren

Defnydd o adnoddau – Pren	Unedau	2013/14	2014/15	2015/16	Newid
Pren – ffynhonnell gynaliadwy	Defnydd (tunelli)	115	32	56	Wedi cynyddu
	Gwariant (£k)	22	9	5	Wedi lleihau
Pren – ffynhonnell anhysbys	Defnydd (tunelli)	0	0	0	Dim newid
	Gwariant (£k)	0	0	0	Dim newid
Defnydd ffynhonnell gynaliadwy	(%yn ôl cyfanswm pwysau)	100%	100%	100%	Dim newid

Cyfuno safleoedd

Gwnaethom etifeddu cryn dipyn o adeiladau (e.e. depos, swyddfeydd) pan sefydlwyd ein sefydliad, ac yr oedd rhai ohonynt yn cyflawni swyddogaeth debyg ar safleoedd tebyg. Rydym yn parhau i werthu safleoedd dros ben, gan leihau costau ein hadeiladau, a'u hôl troed carbon cysylltiedig. Byddwn yn parhau i gyfuno ein safleoedd dros y blynyddoedd i ddod.

Newid ymddygiad

Fel rhan o'n gwaith i wreiddio ein System Rheoli Amgylcheddol (EMS) yn niwylliant ein sefydliad, rydym wedi cynnal nifer o gyrsiau hyfforddi (i ~1,800 staff). Mae'r meysydd hyfforddi wedi cynnwys codi ymwybyddiaeth ynghylch ein gweithdrefnau amgylcheddol allweddol, rheoli gwastraff, caffael pren ac ymateb i ddigwyddiadau.

Llywodraethau ac Adrodd

Rydym yn adrodd ar ein hôl troed carbon fel rhan o'n fframwaith perfformiad, ac mae'r Tîm Gweithredol yn adrodd ar hwn i'r Bwrdd (mewn sesiwn gyhoeddus agored) dair gwaith yn ystod y flwyddyn.

Rydym yn casglu'r data a ddefnyddir yn yr adroddiad cynaliadwyedd hwn drwy gyfuniad o ddarlenniadau mesurydd (e.e. nwy, trydan), anfonebau (e.e. prynu ar gardiau tanwydd) a data cyflenwyr (e.e. milltiroedd trê), gan ddefnyddio'r ffynhonnell neu'r ffynonellau data mwyaf cywir sydd ar gael i ni. Rydym wedi gwella ein data adrodd a llinellau sylfaen ar fiomas a gwastaff yn yr adroddiad hwn. Rydym hefyd yn ceisio defnyddio cyn lleied o ddata amcangyfrifedig â phosibl yn ein hadroddiadau, ac rydym yn gweithio i wella hyn.

¹⁴ Rhaglen Cymeradwyo Ardystio Coedwigoedd (PEFC). Fel y'i hategir gan ein hachrediad i Safon Sicrwydd Coetir y DU (UKWAS)



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Ffordd Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun-Gwe, 8am - 6pm)

ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r ddogfen hon gyda chaniatâd ymlaen llaw gan
Cyfoeth Naturiol Cymru